

# Trefniadau ar gyfer arholiadau haf 2020

## Canfyddiadau'r ymgyngoriad



Mehefin 2020

## Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	3
2	Cyflwyno nodau i ategu'r model safoni ystadegol ar gyfer graddio cyfres arholiadau haf 2020.....	8
3	Cyflwyno proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 .....	54
4	Asesiad Effaith Integredig.....	88
5	Sylwadau ychwanegol.....	101

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'n hymgyngoriad cyhoeddus ar y trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng dydd Mawrth 28 Ebrill a dydd Mercher 13 Mai 2020.

Gallwch ddarllen crynodeb o'r canfyddiadau hyn yn yr adroddiad penderfyniadau ar ein [gwefan](#).

## 1.1 Cefndir

Ar 18 Mawrth 2020, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r coronafeirws (COVID-19), cyhoeddodd Swyddog Addysg Cymru y byddai ysgolion<sup>1</sup> yn cau ac y byddai cyfres arholiadau haf 2020 yn cael ei chanslo.<sup>2</sup>

O ganlyniad, ar 6 Ebrill 2020, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd i ni<sup>3</sup> o dan Adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i ystyried Polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanslo arholiadau ac, o ganlyniad, pennu graddau. Mae'r cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau y caiff dull teg a chadarn ei fabwysiadau er mwyn dyfarnu graddau i'r dysgwyr hyn.

Mewn ymateb i'r penderfyniadau polisi hyn, mae angen i ganolfannau gyflwyno trefn restrol a gradd asesu'r ganolfan i CBAC, y corff dyfarnu, a hynny ar gyfer pob dysgwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer arholiadau TGAU, Uwch Gyfrannol, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Dylid cyflwyno'r wybodaeth hon lle bo gan y ganolfan ddigon o wybodaeth i lunio barn hyddysg.

Rydym wedi cyhoeddi dogfen ganllaw i ganolfannau<sup>4</sup> sy'n amlinellu'r ffordd y dylai canolfannau fynd i'r afael â hyn a pha fathau o dystiolaeth y dylent eu hystyried. Mae'r canolfannau wedi cael eu hysbysu y dylai graddau asesu'r ganolfan adlewyrchu'r radd roeddent o'r farn y byddai'r dysgwr yn fwyaf tebygol o'i chyflawni petai wedi cwblhau ei asesiadau yr haf hwn.

Rydym wedi cynnig y bydd y data sy'n cael eu cyflwyno gan ganolfannau yn cael eu safoni gan ddefnyddio model ystadegol. Mae'r model hwn yn dal i gael ei ddatblygu, ond rhagwelir y bydd yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys sut mae canolfan wedi perfformio yn y gorffennol a sut mae dysgwyr yn y garfan eleni wedi perfformio mewn

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ar gau ysgolion yng Nghymru* <https://media.service.gov.wales/news/school-closures>

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad ar gyfres arholiadau'r haf* <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadau-haf>

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru (2020) *Canslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch: llythyr* <https://llyw.cymru/canslo-arholiadau-tgau-ug-safon-uwch-llythyr>

<sup>4</sup> Cymwysterau Cymru (2020) *Graddau Haf 2020 ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau (SCC): Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau*. <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau/>

asesiadau blaenorol. Yna, caiff gradd wedi'i chyfrifo, sy'n seiliedig ar ddata asesu canolfannau a chanlyniad y broses safoni, ei dyfarnu i'r dysgwyr ym mis Awst 2020.

Gan fod y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn wahanol eleni, bu'n hanfodol adolygu'r broses apêl er mwyn sicrhau bod ffordd briodol o gymryd camau ar gael i adolygu'r canlyniadau.

## 1.2 Yr ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad hwn, gwnaethom ofyn am farn ar gyfres o nodau a fydd yn sail i ddatblygiad y model safoni ystadegol a nodweddion y broses apêl arfaethedig.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys ein Hasesiad Effaith Integredig<sup>5</sup> ar gyfer y cynigion hyn – gwnaethom hefyd ofyn am farn ar y rhain.

Mae'r ddogfen ymgynghori lawn a fersiwn gryno wedi'i hanelu at bobl ifanc ar gael ar ein [gwefan](#).

Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu barn mewn un o'r tair ffordd ganlynol:

1. Cwblhau'r prif arolwg ar-lein;
2. Cwblhau fersiwn ddiwygiedig o'r arolwg ar-lein wedi'i hanelu at bobl ifanc;
3. Cyflwyno eu barn drwy anfon e-bost i gyfeiriad penodedig.

Daeth 4,057 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law, a oedd yn cynnwys:


1. 3,134 o ymatebion drwy'r prif arolwg ar-lein;
2. 915 o ymatebion drwy'r arolwg ar-lein wedi'i anelu at bobl ifanc;
3. Wyth ymateb a gyflwynwyd mewn fformat amgen drwy'r cyfeiriad e-bost penodedig.

Defnyddiwyd yr arolygon ar-lein 2,825 o weithiau'n ychwanegol. Er mwyn sicrhau dadansoddiad o ddata ystyrlon, dim ond ymatebion a oedd wedi nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno ag o leiaf dau o'n cynigion neu a oedd wedi gadael o leiaf un sylw ysgrifenedig a oedd yn cael eu derbyn. Nid oedd yr ymatebion ychwanegol hyn yn bodloni'r trothwy hwn felly cawsant eu diystyru. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion hyn ond wedi ateb y cwestiwn cyntaf a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr ddisgrifio fel pa fath o unigolyn roeddent yn ymateb.

---

<sup>5</sup>Roedd yr Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Asesiad Effaith Cydraddoldebau ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg.

## Ffigur 1: Ymatebwyr yn ôl eu math



Noder: Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn fwy nag un math o ymatebwr (e.e. rhiant ac athro). Felly, mae cyfanswm y categorïau yn ffigur 1 yn fwy na chyfanswm nifer yr ymatebwyr.

### 1.3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

Ar ddechrau'r prif arolwg ar-lein a'r arolwg ar-lein a oedd wedi'i anelu at bobl ifanc, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi fel pa fath o unigolyn roeddent yn ymateb. Rhoddwyd cyfle iddynt hefyd nodi a oeddent am i'w hymateb aros yn gyfrinachol.

Roedd dwy fersiwn yr arolwg ar-lein yn cynnwys yr un deuddeg o gwestiynau craidd, a oedd wedi'u geirio yn y ffordd fwyaf addas ar gyfer y gynulleidfa fwriadedig. Roedd pob un o'r cwestiynau yn gofyn i'r ymatebwyr nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â'r cynnig, gan ddefnyddio graddfa pum pwynt (*cyfeirir at y rhain fel cwestiynau caeedig*). Wedyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr esbonio eu barn mewn blwch sylwadau agored (*cyfeirir at y rhain fel cwestiynau caeedig*).

Roedd y prif arolwg ar-lein hefyd yn cynnwys pedwar cwestiwn caeedig a chwe chwestiwn agored i gasglu barn yr ymatebwyr ar ein Hasesiad Effaith Integredig. Ar gyfer y cwestiynau caeedig yn yr adran hon, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud a oeddent wedi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol ein cynigion ar ofynion rheoleiddiol, cyfleoedd cyfartal neu'r Gymraeg, p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Roedd y cwestiynau agored yn gofyn i'r ymatebwyr ddarparu sylwadau ar unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau'r effeithiau a nodwyd gennym yn yr Asesiad Effaith Integredig, neu ddarparu manylion am yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn effeithiau ychwanegol nad oeddem wedi'u nodi. Nid oedd y cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr arolwg a oedd wedi'i anelu at bobl ifanc.

Ar ddiwedd y prif arolwg ar-lein, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr adael manylion cyswllt os oeddent yn fodlon i ni gysylltu â nhw am eu hymateb. Rhoddwyd yr holl ddulliau diogelu priodol ar waith er mwyn rheoli'r wybodaeth hon.

Cyflwynir y cwestiynau yn yr adroddiad hwn yn ôl y drefn y cawsant eu gofyn.

### 1.4 Dull o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae pob un o'r 4,057 o ymatebion wedi cael eu hadolygu fel rhan o'r dadansoddiad hwn Er mwyn hwyluso adrodd, mae barn yr ymatebwyr na wnaethant ymateb gan ddefnyddio un o'r arolygon ar-lein wedi cael eu cynnwys yn y blwch sylwadau ar gyfer y cwestiwn mwyaf priodol.

Cafodd y cwestiynau caeedig eu crynhoi yn ystadegau yn seiliedig ar gyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno ac anghytuno'n gryf neu a oedd yn ansicr ynglŷn â'n cynigion. Cyflwynir yr ystadegau hyn ar gyfer pob cwestiwn yn yr adroddiad hwn.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig ar gyfer yr ymatebion i'r cwestiynau agored. Mae dadansoddiad thematig yn cynnwys categorieiddio gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ymatebwyr yn themâu cyffredinol. Mae'r themâu hyn wedi cael eu defnyddio i arwain y sylwadau ar gyfer pob cwestiwn yn yr adroddiad hwn.

Cwblhawyd dadansoddiad thematig o'r ymatebion yn y camau canlynol:

1. Dewiswyd sampl o 50 o ymatebion i bob cwestiwn ar gyfer y cam cychwynnol hwn. Roedd y sampl o ymatebion yn cynnwys y 50 o sylwadau ysgrifenedig i bob cwestiwn a oedd â'r nifer fwyaf o eiriau yn yr wythnos cyn cau'r ymgynghoriad. Teimlwyd y byddai'r sampl hwn y rhoi trosolwg da o'r themâu mwyaf cyffredin ar gyfer pob cwestiwn.
2. Darllenodd dau adolygydd bob ymateb a gwnaethant gydweithio i ddatblygu fframwaith a oedd yn nodi'r themâu allweddol ar gyfer pob cwestiwn. Roedd y broses hon yn caniatáu i ansicrwydd neu gamganfyddiadau gael eu hegluro er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r ymatebion.
3. Yna, dadansoddiwyd pob ymateb i'r cwestiynau agored yn eu tro. Defnyddiwyd cofnod tystiolaeth ar ffurf taenlen i bennu'r themâu allweddol priodol ar gyfer pob ymateb. Roedd hyn yn galluogi'r adolygwyr i nodi pwysigrwydd pob thema yn yr ymatebion. Nid oedd fframwaith y themâu allweddol yn sefydlog fel y gellid ei addasu a'i ddatblygu ymhellach ar y cam hwn; os nad oedd ymateb yn dod o dan un o'r themâu a nodwyd yn ystod y cam cychwynnol, roedd thema newydd yn cael ei chreu.

## 1.5 Yr adroddiad hwn

Mae adran dau o'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r canfyddiadau i'r cwestiynau am y nodau arfaethedig i ategu'r model safoni ystadegol, mae adran tri yn cyflwyno'r canfyddiadau i'r cwestiynau am y broses apelio arfaethedig ar gyfer yr haf hwn, ac mae adran pedwar yn crynhoi ymatebion i'r cwestiynau am ein Hasesiad Effaith Integredig.

Mae pob un o'r adrannau hyn yn cyflwyno canfyddiadau pob cwestiwn yn ei dro. Ar gyfer pob cwestiwn, caiff ymatebion i'r cwestiwn caeedig eu cyflwyno mewn siart bar ac yna cânt eu trafod yn ysgrifenedig. Mae cyfanswm nifer yr ymatebion i bob cwestiwn yn amrywio. Nodir nifer yr ymatebion i bob cwestiwn ar ddechrau'r cwestiwn hwnnw. Weithiau, nid yw'r ganran a gyflwynir yn y graffiau yn gwneud cyfanswm o 100%. Mae hyn am fod rhai canrannau wedi cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr i'r 0.1% agosaf at ddibenion cyflwyno.

Yna trafodir dadansoddiad y cwestiynau agored – cânt eu rhannu'n themâu a oedd yn nodi'r rhesymau pam bod yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ac yna'n themâu a oedd yn ymwneud â phryderon yr ymatebwyr am y cynnig. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'n fras y themâu sy'n codi

ar gyfer pob cwestiwn yn ôl pa mor aml y gwnaeth yr ymatebwyr sylw y gellid ei briodoli i'r thema hon. Mewn rhai achosion, lle bo dwy thema yn debyg, mae'r drefn wedi'i haddasu er mwyn sicrhau bod yr adroddiad hwn yn ddarllenadwy.

Mewn ymateb i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau, roedd mwy o sylwadau yn mynegi pryderon am y cynnig na sylwadau yn amlygu cymorth i'r cynnig. Mae hyn i'w ddisgwyl mewn ymgynghoriad o'r fath lle y bo'n naturiol fod ymatebwyr am fynegi eu pryderon am gynnig, yn fwy na'u rhesymau dros ei gefnogi. At hynny, roedd y cwestiynau agored yn annog yr ymatebwyr yn benodol i wneud sylw os oeddent wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf neu os oedd ganddynt awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid datblygu'r cynnig. Noder felly fod darllenwyr yn myfyrio ar yr ymatebion i'r cwestiynau caeedig a'r cwestiynau agored wrth ystyried y canfyddiadau hyn.

Ar ddiwedd yr adroddiad, ceir adran fer yn amlinellu rhai o'r sylwadau a gafwyd a oedd y tu allan i gwmpas cylch gwaith yr ymgynghoriad ei hun.

**Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno crynodeb o farn yr ymatebwyr. Daw'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir o'u sylwadau ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn awduron yr adroddiad na Cymwysterau Cymru. At hynny, nid yw'r adroddiad yn gwerthuso a yw sylwadau'r ymatebwyr yn gywir.**

## 1.6 Rhestr termau

Mae'r acronymau canlynol wedi'u defnyddio drwy gydol yr adroddiad hwn.

Acronym	
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
BAME	Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
Coleg AB	Coleg addysg bellach

Defnyddir 'data asesu canolfannau' drwy gydol yr adroddiad i gyfeirio at raddau asesu canolfannau a threfn restrol.

## 2 Cyflwyno nodau i ategu'r model safoni ystadegol ar gyfer graddio cyfres arholiadau haf 2020


### Nod 1: Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfannau lefel cymhwyster a threfn restrol ar eu cyfer yn cael gradd.

Ar gyfer Nod 1, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddylai dysgwyr gael gradd os gall canolfan gyflwyno gradd asesu canolfan a threfn rancio ar gyfer y cymhwyster dan sylw. O ganlyniad, un o'r prif ystyriaethau ar gyfer y cynnig hwn oedd ei bod yn bosibl na fydd ymgeiswyr preifat nad oes ganddynt gydberthynas â chanolfan ar hyn o bryd yn cael gradd am nad oes gan y ganolfan ddigon o dystiolaeth i lunio barn.

#### 2.1 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

##### Ffigur 2

Cyfanswm yr ymatebwyr: 4,017



O'r 4,017 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 78.0% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Dim ond 3.4% o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig.

Rhoddodd 1,149 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb. Roedd sylwadau llawer o'r ymatebwyr yn canolbwyntio ar y buddiannau a'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â defnyddio barn broffesiynol athrawon fel rhan graidd o'r broses ar gyfer cyfrifo graddau yr haf hwn. Amlinellir y safbwyntiau hyn isod.

#### Cefnogaeth i'r cynnig

##### 2.2.1 Dull gweithredu teg

Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn aml bod y dull gweithredu'n deg, yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau mewn perthynas â chanslo arholiadau yr haf hwn a'r angen i gyfrifo graddau ar gyfer dysgwyr mewn ffordd wahanol i'r arfer.

Y rheswm mwyaf cyffredin pam roedd ymatebwyr yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig hwn oedd oherwydd y bydd yn sicrhau y gall bron pob dysgwr gael gradd yn y cymwysterau y maent wedi cofrestru ar eu cyfer. Rhoddodd ymatebwyr amrywiaeth o resymau yn amlinellu pam roedd hyn yn bwysig yn eu barn nhw, yn cynnwys y canlynol:

1. mae dysgwyr yn haeddu cael eu gwobrwyo am eu gwaith caled yn astudio ar gyfer eu cymwysterau cyn i'r ysgolion gau ym mis Mawrth 2020;



2. bydd yn cefnogi cynnydd dysgwyr i gam nesaf eu dysgu neu i gyflogaeth, heb yr oedi sy'n gysylltiedig â gohirio cyfres o arholiadau;
3. bydd yn sicrhau na fydd y cohort o ddysgwyr y flwyddyn hon dan anfantais o gymharu â dysgwyr mewn cohortau eraill;
4. mae angen graddau er mwyn galluogi dysgwyr i lenwi ffurflenni cais ar gyfer prifysgolion neu swyddi ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod;
5. byddai peidio â dyfarnu graddau yn effeithio'n andwyol ar lesiant dysgwyr a'u hagweddau tuag at ddysgu yn y dyfodol.

*Mae'r disgyblion wedi bod yn astudio'n galed ar gyfer eu cymwysterau ac nid eu bai nhw ydyw eu bod yn y sefyllfa ddigynsail hon Byddai'n anfoesol peidio â rhoi gradd iddynt. Byddai effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Byddent yn colli hyder yn y system addysg, eu hathrawon a gallant golli diddordeb mewn dysgu gydol oes.*

Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn bod y dull gweithredu arfaethedig yn deg am ei bod yn dibynnu ar farn broffesiynol athrawon, am eu bod yn credu mai nhw oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddysgwyr gael gradd. Ymysg y rhesymau a roddwyd dros hyn roedd y canlynol:

1. maent wedi cael mynediad i amrywiaeth eang o wybodaeth yn cynnwys cyrhaeddiad a chyflawniad blaenorol mewn asesiadau diarholiad a gwaith dosbarth y flwyddyn hon, a ddylai gynnig sail dystiolaeth dda i lunio barn gyfannol ar berfformiad tebygol dysgwr yn ei arholiadau yr haf hwn;
2. maent yn adnabod pob dysgwr, ei botensial ac unrhyw amgylchiadau eithriadol a all olygu bod dysgwr yn haeddu gradd na ellid ei phennu drwy fodel ystadegol yn unig;
3. maent yn deall y gofynion cymwysterau yn ddigon da i ragweld perfformiad tebygol dysgwr yn erbyn y meini prawf asesu.

*Rwy'n credu bod gweithwyr addysgol proffesiynol wedi casglu amrywiaeth o dystiolaeth a data am eu dysgwyr er mwyn pennu eu cynnydd a chefnogi myfyrwyr yn y pen draw lle y bo angen. Gyda gwybodaeth o'r fath, dylai graddau asesu canolfannau arwain at ddyfarnu cymhwyster yn seiliedig ar y cynnydd a nodwyd gan y gweithwyr proffesiynol.*

Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn croesawu'r ymddiriedaeth a roddwyd mewn athrawon er mwyn cwblhau'r broses hon.

Ymysg y rhesymau eraill a roddwyd i egluro pam roedd ymatebwyr o'r farn bod y dull gweithredu arfaethedig yn deg roedd y canlynol:

1. drwy roi dysgwyr mewn trefn rancio, gellir nodi pa ddysgwyr oedd fwyaf tebygol o gael gradd benodol fel na fyddant yn cael gradd is ar draul dysgwr arall oedd yn llai diogel yn y radd honno;
2. bydd y model safoni ystadegol yn helpu i nodi a lliniaru tuedd bosibl mewn barn broffesiynol.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn, er nad oedd y dull gweithredu yn ddelfrydol o reidrwydd, mai hyn oedd yr opsiwn gorau yn absenoldeb cyfres arholiadau. Nododd ymatebwyr eraill yn syml ei bod o'r farn ei fod yn ddull gweithredu teg ond ni wnaethant ymhelaethu rhyw lawer, os o gwbl.

### 2.2.2 Ymgeiswyr preifat

Cydnabu'r ymatebwyr a oedd yn cytuno'n benodol â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer ymgeiswyr preifat y gall y dull gweithredu beri pryder ond roeddent yn cytuno mai dim ond pan fydd canolfan yn hyderus ynghylch y graddau a'r drefn restrol roeddent yn eu cyflwyno ar gyfer ymgeiswyr y gellid dyfarnu graddau. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn y bydd y cynnig yn sicrhau na fydd canolfannau'n teimlo dan bwysau i roi graddau i unigolion lle nad dynt yn teimlo y gallant lunio barn broffesiynol hyddysg.

*[Mae'r ymatebydd] yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y ddogfen ymgynghori mai dim ond pan fydd canolfannau'n teimlo'n hyderus y gallant lunio barn gywir am allu 'ymgeiswyr preifat' y dylid dyfarnu graddau iddynt. Mae hyn yn bwysig oherwydd y bydd yn helpu i sicrhau na fydd athrawon yn cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd drwy orfod dyfarnu graddau i unigolion nad oes ganddynt ddigon o dystiolaeth ar eu cyfer i lunio barn broffesiynol hyddysg.*

## 2.3 Pryderon ynghylch y cynnig

Trafododd y mwyafrif o'r ymatebion eu pryderon ynghylch pa mor gywir, yn eu barn nhw, y gallai athrawon amcangyfrif pa radd yr oedd dysgwyr fwyaf tebygol o'i chael yr haf hwn pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau. Nododd rhai o'r ymatebwyr bryderon na fyddai rhai ymgeiswyr preifat yn cael gradd yr haf hwn o bosibl.

### 2.3.1 Efallai na chaiff cynnydd yn yr hyn a ddysgwyd dros dymor yr haf ei gydnabod yn nata asesu canolfannau

Roedd ymatebwyr o'r farn, am fod llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu dysgu yn ystod tymor yr haf, y gallai graddau asesu canolfannau danamcangyfrif yr hyn y byddai dysgwr wedi'i gyflawni pe byddai wedi cwblhau ei asesiadau yr haf hwn. Nododd ymatebwyr y gall dysgwyr wneud cynnydd yn nhymor yr haf am eu bod:

1. yn gwneud mwy o ymdrech i astudio wrth i'r arholiadau agosáu;
2. yn cwblhau eu rhaglen ddysgu ac yn meithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o'r pwnc sy'n cael ei astudio;
3. yn aeddfedu'n ddiweddarach yn y flwyddyn academiaidd ac yn dechrau canolbwyntio mwy ar eu hastudiaethau;
4. yn gostwng nifer y pynciau maent yn eu hastudio i'w galluogi i ganolbwyntio ar wella eu cyrhaeddiad yn eu prif bynciau;
5. yn cymryd rhan mewn ymyriadau wedi'u targedu i'w helpu i baratoi ar gyfer arholiadau.

*Rwy'n credu y caiff y gwaith caled a wneir gan fyfyrwyr yn y cyfnod cyn yr arholiadau ei anwybyddu. Fel y gŵyr pob myfyriwr, does neb yn adolygu cymaint ar gyfer gwaith ysgol yn ystod y flwyddyn o gymharu â'r gwaith maent yn ei wneud cyn yr arholiadau. Rwy'n poeni na chaiff y gwaith caled hwn ei ystyried ac mai dim ond gradd o waith a wnaed yn flaenorol y bydd myfyrwyr yn ei chael. Rwy'n adnabod llawer o fyfyrwyr nad oeddent yn gweithio ar y lefel y byddent yn ei hoffi o bosibl yn y dosbarth ond roeddent yn gweithio'n galed iawn gartref ac yn barod i weithio'n galed ar gyfer yr arholiadau.*

Er nad oedd yn ymddangos bod llawer o'r ymatebwyr a drafododd gynnydd dysgwr yn nhymor yr haf wedi nodi bod yr athrawon wedi cael eu cynghori i ystyried hyn wrth lunio eu barn, nid oedd rhai o'r ymatebwyr wedi'u darbwyllo y byddai'r athrawon yn gallu ystyried cynnydd o'r fath yn gywir oherwydd y byddai'n wahanol i bob dysgwr.

### 2.3.2 Mae rhai dysgwyr yn cyflawni'n well mewn arholiadau terfynol o gymharu â mathau eraill o asesiad

Mynegodd ymatebwyr eu siom na fyddai dysgwyr yn gallu sefyll arholiadau yr haf hwn, a oedd, yn eu barn nhw, yn golygu y byddai dysgwyr yn colli cyfle i brofi yr hyn y gallant ei wneud i'w hunain, ac i eraill. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod rhai dysgwyr yn gwneud yn well mewn arholiadau o gymharu ag asesiad diartholiad neu waith dosbarth, ac o ganlyniad, y gallai'r dull gweithredu hwn olygu eu bod dan anfantais. Roedd rhywfaint o bryder y gallai hyn effeithio'n arbennig ar fechgyn.

Nodwyd hefyd fod rhai dysgwyr bob amser yn gwneud yn well na'r disgwyl mewn arholiadau. Gan na fydd yr athrawon yn gallu nodi'r unigolion hyn, ystyriwyd ei bod yn debygol y byddai rhai dysgwyr dan anfantais yr haf hwn.

### 2.3.3 Pryderon ynghylch y dystiolaeth a ddefnyddir gan ganolfannau i lywio eu barn

Cododd rhai ymatebwyr bryderon am y mathau gwahanol o dystiolaeth a ddefnyddir i lywio data asesu canolfannau. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn ansicr ynghylch pa ganolfannau tystiolaeth y byddai canolfannau'n ei defnyddio i lywio eu barn a gofynnwyd am ragor o arweiniad ar hyn.

#### *Ffug arholiadau a gwaith dosbarth*

Roedd pryder penodol na fyddai canlyniadau asesiadau mewnol yn rhoi syniad cywir o berfformiad tebygol yn yr arholiadau yr haf hwn. Nododd ymatebwyr, gan nad oedd bwriad y byddai deilliannau asesiadau mewnol, fel ffug arholiadau, yn cael eu defnyddio at ddiben cyfrifo graddau terfynol, bod llawer o ddysgwyr yn treulio llai o amser yn paratoi ar eu cyfer o gymharu â'r hyn maent yn ei wneud ar gyfer eu harholiadau terfynol. Awgrymodd ymatebwyr fod hyn yn aml am eu bod yn cydbwysu'r broses o baratoi ar gyfer yr asesiadau hyn â thasgau eraill, fel cwblhau asesiad diartholiad mewn pynciau eraill neu wneud cais i fynd i brifysgol, ond hefyd am nad oes ganddynt yr un gwerth i ddysgwyr. Nodwyd hefyd fod ffug arholiadau yn aml yn cael eu cynnal cyn i'r holl addysgu a dysgu gael eu cwblhau, ac y bydd rhai dysgwyr yn eu defnyddio i ymarfer eu techneg mewn arholiadau neu i ddysgu pa feysydd pwnc y mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt wrth adolygu ar gyfer yr arholiadau terfynol. O ganlyniad, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn rhesymol disgwyl y byddai

perfformiad dysgwyr yn yr arholiadau terfynol yn rhagori ar eu perfformiad mewn asesiadau mewnol.

*Defnyddir asesiadau i helpu myfyrwyr i nodi'r meysydd lle maent yn cael trafferth ac felly, dros y flwyddyn, byddant yn meithrin ac yn gwella'r sgiliau hyn ar gyfer arholiadau'r haf. Hefyd, pan safodd y myfyrwyr yr asesiadau hynny, ni fyddent wedi bod yn ymwybodol y byddent yn cael eu cyfrif tuag at y radd TGAU derfynol. Felly, mae hyn yn golygu bod myfyrwyr dan anfantais o gymharu â phe byddent yn sefyll yr arholiad go iawn gyda misoedd o waith paratoi wedi'i wneud.*

Awgrymwyd y dylai'r canllawiau ar gyfer canolfannau annog athrawon yn glir i fyfyrion ar y graddau y mae dysgwyr yn gwella ar eu canlyniadau yn y ffug arholiadau fel arfer ac i ystyried hyn wrth bennu graddau asesu eu canolfan. Awgrymwyd hefyd y dylai canolfannau gynnal asesiadau llafar neu osod hen bapurau i ddysgwyr eu cwblhau cartref ac yna defnyddio hyn fel tystiolaeth o'u gallu presennol.

Un pwynt arall o godwyd oedd bod rhai dysgwyr wedi bod yn gweithio gyda thiwtor preifat am eu bod wedi perfformio'n wael mewn ffug arholiadau. Roedd pryderon na fyddai athrawon yn gallu ystyried hyn wrth benderfynu ar raddau asesu eu canolfan, ac o'r herwydd, gallai graddau'r dysgwyr hyn fod yn is na'r hyn y byddent wedi'i gyflawni yn yr arholiad terfynol. Awgrymwyd, yn yr achosion hyn, y dylai fod yn ofynnol i ganolfannau gysylltu â'r tiwtor preifat ac ystyried ei sylwadau wrth lunio eu barn.

Nodwyd hefyd na chaiff ffug arholiadau eu safoni ar draws canolfannau. Ymysg yr enghreifftiau a roddwyd o arferion gwahanol roedd:

1. nid yw pob canolfan yn cynnal ffug arholiadau,
2. gall rhai dysgwyr fod wedi cael ffug arholiad a oedd yn fwy heriol na dysgwyr mewn canolfan wahanol,
3. mae rhai athrawon yn fwy hael wrth farcio ffug arholiadau o gymharu ag arholiadau terfynol er mwyn rhoi hwb i hyder eu dysgwyr, ac mae athrawon eraill yn marcio yn unol â'r meini prawf asesu a ddefnyddir mewn arholiadau terfynol er mwyn annog eu dysgwyr i wneud mwy o ymdrech,
4. mae rhai canolfannau'n cynnal ffug arholiadau mewn amodau arholiad ffurfiol, ac mae canolfannau eraill yn eu cynnal mewn sefyllfaoedd ystafell ddosbarth.

*Mae angen diystyru perfformiad mewn ffug arholiadau am nad yw'r lwfansau a ddefnyddir wrth farcio yn cael eu safoni. Mae rhai canolfannau'n rhoi marciau uwch er mwyn rhoi hwb i forâl disgybl, ac mae rhai yn rhoi marciau is er mwyn annog disgybl i wneud ymdrech ar gyfer yr arholiadau 'go iawn'.*

O ganlyniad, bydd y dystiolaeth a ddefnyddir i lywio data asesu canolfannau yn amrywio, ac roedd hyn yn creu problem ym marn ymatebwyr.

Oherwydd y pryderon a amlinellir yn yr adran hon, rhybuddiodd ymatebwyr, pe byddai deilliannau ffug arholiadau a gwaith dosbarth yn cael eu defnyddio fel sail i raddau asesu

canolfannau, y gallai'r deilliannau yr haf hwn gael eu herio ac na fyddai ganddynt ddigon o hygrededd.

### *Asesiadau diarholiad*

Mynegodd ymatebwyr safbwyntiau cymysg ynghylch y graddau y dylai asesiad diarholiad a gwblhawyd gan ddysgwyr y flwyddyn hon lywio data asesu'r canolfannau. Nododd ymatebwyr bod asesiad diarholiad dysgwyr wedi cael ei gyflwyno i CBAC cyn i'r ysgolion gau mewn rhai pynciau, ond gan nad oedd wedi cael ei farcio na'i gymedroli, ni all yr athrawon ystyried y canlyniadau. Roedd ymatebwyr o'r farn, oherwydd y caiff asesiad diarholiad ei gynnal mewn amodau a reolir yn aml, y byddai'r canlyniadau wedi bod yn ddangosydd perfformiad defnyddiol mewn arholiadau.

Mewn pynciau lle mae'r asesiad diarholiad wedi cael ei farcio'n fewnol, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai canolfannau ddefnyddio'r canlyniadau hyn fel sail i'w barn am ei bod yn debygol y byddant yn ddangosydd perfformiad gwell na ffug arholiadau neu waith dosbarth. Rhybuddiodd ymatebwyr eraill yn erbyn defnyddio canlyniadau asesiad diarholiad oherwydd:

1. efallai bod dysgwyr wedi gwella ar ddeilliannau eu hasesiad diarholiad yn eu harholiadau terfynol oherwydd y byddent wedi gallu canolbwyntio mwy heb geisiadau prifysgol, ffug arholiadau neu asesiad diarholiad mewn pynciau eraill i fynd â'u sylw;
2. ar gyfer rhai pynciau, mae canlyniadau asesiad diarholiad yn well na deilliannau arholiadau, ac o ganlyniad, os bydd data asesiad canolfannau yn seiliedig ar berfformiad mewn asesiad diarholiad, gall fod yn wahanol;
3. mae rhai dysgwyr yn rhagori mewn asesiadau diarholiad ond nid ydynt yn gwneud cystal mewn arholiadau;
4. ni fydd pob dysgwr wedi cwblhau ei asesiad diarholiad.

Gofynnwyd am eglurhad ar y graddau y dylai athrawon ddefnyddio perfformiad dysgwr mewn asesiad diarholiad i lywio ei farn yn y dogfennau canllaw er mwyn sicrhau cysondeb ar draws canolfannau.

### *Diffyg tystiolaeth briodol*

Gofynnodd ymatebwyr sut y byddai graddau'n cael eu pennu ar gyfer dysgwyr a oedd wedi bod yn absennol am gyfnod hir, am resymau fel salwch, ac felly na fyddai gan y canolfannau ddigon o wybodaeth a thystiolaeth am yr hyn maent wedi'i ddysgu. Yn yr un modd, gofynnwyd a fyddai canolfannau'n cael eu hannog i ystyried sut y gallai amgylchiadau unigol fod wedi effeithio ar berfformiad dysgwr hyd yma a ph'un a ddylid ystyried etheg gwaith dysgwr.

### 2.3.4 Pryderon ynghylch cywirdeb data asesu canolfannau

#### *Tuedd athrawon*

Roedd ymatebwyr yn pryderu am na fydd y broses yn ddienw a bod gan athrawon gydberthynas sefydledig â'u dysgwyr, y gallai data asesu canolfannau ddangos tuedd, naill ai'n ymwybodol neu'n anymwybodol. Er enghraifft, roedd pryderon y gallai athrawon ffafrio dysgwyr sy'n gweithio'n galetach mewn gwersi neu y maent wedi meithrin cydberthynas fwy cadarnhaol â nhw.

*Rhaid i ni ymddiried yn y ffaith y bydd pob athro'n ymddwyn yn ddiuedd, gan ddyfarnu'r hyn y byddai disgyblion wedi'i gyflawni pe byddent wedi gallu sefyll yr arholiad yn eu barn nhw a pheidio â gadael i'w cydberthynas â'r disgyblion hyn, sydd wedi'i meithrin dros hanner degawd neu fwy weithiau, i gymylu unrhyw farn nac arwain at unrhyw duedd.*

Gwnaeth ymatebwyr nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gellid lliniaru tuedd bosibl yn eu barn nhw, a oedd yn cynnwys:

1. ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau ddarparu tystiolaeth o'u gweithdrefn safoni fewnol sy'n dangos yn glir nad oes un unigolyn wedi dylanwadu'n ormodol ar farn;
2. rhoi rhagor o gyngor neu ddeunyddiau hyfforddi i athrawon ar sut i osgoi tuedd ymwybodol ac anymwybodol wrth wneud penderfyniadau.

Mewn perthynas â'r awgrym y dylid cymedroli data asesu canolfannau yn fewnol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw athro unigol yn cael gormod o ddylanwad, codwyd ymholiad ynghylch y ffordd y byddai barn yn cael ei chymedroli mewn canolfannau lle mai dim ond un athro sydd mewn adran. Awgrymwyd y dylid diweddarau'r Canllawiau i Ganolfannau i gynnwys cyngor penodol ar y ffordd orau i gadarnhau deilliannau yn yr achosion hyn.

Codwyd rhai pryderon hefyd y gall fod gan athrawon ddisgwyliadau is yn anymwybodol o grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rheini sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw, a allai effeithio ar eu barn. Er mwyn osgoi ailadrodd yn yr adroddiad hwn, mae'r materion hyn wedi'u harchwilio'n fanwl yn y crynodeb o ymatebion i Nod 4.

#### *Gwybodaeth athrawon*

Roedd ymatebwyr yn pryderu efallai nad oes gan rai athrawon y wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol i allu llunio barn gywir, naill ai am eu bod newydd ddechrau addysgu'r fanyleb, am nad ydynt wedi cael llawer o amser cyswllt â'r dysgwyr, am eu bod yn addysgu cohort mawr neu am mai dim ond am gyfnod cymharol fyr y maent wedi bod yn addysgu rhai dysgwyr. Codwyd yr ail bwynt yn aml mewn perthynas â dysgwyr UG neu ddysgwyr a oedd yn cwblhau cymhwyster mewn canolfan newydd dros gyfnod o flwyddyn. Fe'i codwyd hefyd mewn perthynas â phynciau TGAU fel Astudiaethau Crefyddol, lle mai dim ond awr bob pythefnos o amser cyswllt y mae athrawon mewn rhai canolfannau yn ei chael â'r dysgwyr.

Trafodwyd achosion hefyd lle mae rhai dysgwyr wedi cael nifer o athrawon gwahanol yn ystod eu cyfnod yn astudio'r cymhwyster (naill ai o fewn canolfan neu am eu bod wedi

symud rhwng canolfannau) neu eu bod yn cael eu haddysgu gan athro cyflenwi ar y pryd. Gofynnodd ymatebwyr a fyddai gan athrawon y ddealltwriaeth briodol i roi gradd a threfn restrol addas yn y sefyllfaoedd hyn.

Yn yr un modd, nodwyd nad yw athrawon mewn rhai lleoliadau amgen, fel Unedau Cyfeirio Disgyblion, yn cael llawer o gyswllt â'u dysgwyr, a gofynnwyd am ganllawiau penodol ar y ffordd y dylai'r lleoliadau hyn lunio barn.

Cododd ymatebwyr hefyd bryderon ynghylch p'un a fyddai pob athro yn meddu ar y profiad priodol o weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i allu rhagweld yn gywir yr hyn roeddent fwyaf tebygol o'i gyflawni yn yr arholiadau terfynol. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd y dylai canolfannau gynnwys y staff cymorth arbenigol perthnasol yn y broses o wneud penderfyniadau.

Gofynnodd ymatebwyr hefyd sut y byddai athrawon yn gallu ystyried gwaith y mae dysgwyr wedi'i wneud gartref drwy gydol y flwyddyn, fel gwaith adolygu neu ddysgu estynedig. Nodwyd bod rhai dysgwyr yn ffynnu pan fyddant yn astudio'n annibynnol gartref, a chodwyd cwestiynau ynghylch gallu athro i fod yn ymwybodol o hyn, ac felly i'w ystyried.

### *Cysondeb ar draws canolfannau*

Codwyd rhai pryderon ynghylch pa mor gyson y bydd pob canolfan yn mynd i'r afael â'r broses o ddyfarnu gradd asesu canolfan a threfn restrol i bob dysgwr. Teimlwyd y gallai rhai canolfannau fod yn fwy hael nag eraill, ac o ganlyniad, gall rhai dysgwyr fod dan anfantais, a gall eraill fod ar eu hennill. Er mwyn helpu i sicrhau cysondeb ar draws canolfannau, gwnaeth ymatebwyr nifer o awgrymiadau, yn cynnwys:

1. cael sefydliad allanol, fel Estyn, i gymedroli neu ddilysu barn pob canolfan, neu ymgysylltu ag arholwr er mwyn adolygu sampl o waith dysgwr;
2. herio canolfannau y mae'n amlwg eu bod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir yn gynnar yn y broses;
3. ymgysylltu â'r awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i gefnogi a herio canolfannau wrth iddynt lunio eu barn;
4. sicrhau bod y canllawiau ar gyfer canolfannau yn nodi'n glir pa dystiolaeth y dylent ei defnyddio ac i ba raddau y dylai lywio eu barn;
5. defnyddio data blaenorol er mwyn nodi pa ganolfannau sydd wedi marcio asesiadau diarholiad yn anghywir yn y dyfodol a gofyn iddynt am ragor o sicrwydd ynghylch y modd y gwnaethant bennu graddau asesu eu canolfan.

### 2.3.5 Pryderon ynghylch y broses o nodi trefn restrol

#### *Pryderon ynghylch y broses ei hun*

Cododd nifer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y broses o nodi trefn restrol, gyda rhai yn nodi y dylai canolfannau roi gradd ar gyfer pob dysgwr ond na ddylai fod yn ofynnol iddynt nodi trefn restrol

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn arbennig o bryderus ynghylch pa mor deg fyddai'r broses i ddysgwyr oedd yn digwydd bod wedi'u rancio'n is na'u cyfoedion, pan oedd ganddynt allu tebyg iawn mewn gwirionedd, yn enwedig os byddai hyn yn golygu eu bod yn cael gradd is. Awgrymwyd yn yr achosion hyn, y byddai'n ddefnyddiol galluogi canolfannau i gyflwyno trefn restrol gyfartal, lle caiff dysgwyr eu grwpio gyda'i gilydd.

Yn yr un modd, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn annheg rancio dysgwyr a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer haenau gwahanol ar yr un continwmm am fod pob haen yn cwmpasu pynciau gwahanol felly ni fyddai athrawon yn cymharu 'tebyg wrth ei debyg'. Awgrymwyd mewn pynciau sy'n galluogi dysgwyr i gofrestru ar haenau gwahanol, y dylid cyflwyno trefn restrol ar wahân ar gyfer pob haen.

Gofynnwyd sut y bydd trefn restrol yn nodi'r gwahaniaethau mewn gallu rhwng dysgwyr. Teimlwyd, oherwydd y bydd y drefn restrol yn ymddangos fel rhestr, y byddai'n naturiol tybio bod yr un bwlch rhwng gallu pob dysgwr. Teimlwyd y byddai hyn yn broblem arbennig mewn canolfannau neu bynciau lle ceir niferoedd cofrestru isel. Awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i athrawon roi marc dangosol wrth ymyl y drefn restrol fel ei bod yn haws pennu'r gwahaniaeth mewn gallu rhwng dysgwyr sydd wedi'u rancio'n agos at ei gilydd.

*Fy unig sylw fyddai bod trefn restrol syml braidd yn amhenodol - o ran yr ystyrir bod yr un bwlch rhwng gallu pob dysgwr. O dan drefniadau confensiynol, lle rhoddir marciau, gellid gweld bod grwpiau o ddysgwyr yn cyflawni'r un lefel neu'n agos at hynny neu fod pellter penodol rhyngddynt a'r rhai uwchlaw neu islaw. Oni fyddai'n ddefnyddiol i athrawon roi marc dangosol wrth ymyl y radd ddisgwyliedig a'r drefn restrol fel y byddai'n gliriach beth yw'r pellter rhwng dysgwr unigol i'r rhai sydd wedi'u rancio nesaf atynt?*

Nid ystyriwyd ei bod yn realistig disgwyl bod gan athrawon ddigon o wybodaeth am bob dysgwr unigol i roi trefn restrol cywir iddo, yn enwedig mewn canolfannau mawr. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod yr ymchwil yn Asesiad Ofqual o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac y cyfeirir ati yn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru fel cyfiawnhad ar gyfer y dull gweithredu arfaethedig, yn gamarweiniol yn hyn o beth am nad yw'n rhoi unrhyw awgrym ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r broses o nodi trefn restrol mewn canolfan fawr.

Roedd pryderon hefyd, gan fod trefn restrol yn golygu bod angen cymharu dysgwyr â'i gilydd, yn hytrach nag yn erbyn meini prawf asesu, y gallai'r rhan hon o'r broses fod yn arbennig o agored i duedd, yn enwedig lle mae gan ddysgwyr allu tebyg iawn i'w gilydd. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod y syniad o rancio dysgwyr yn y ffordd hon yn effeithio'n andwyol ar lesiant dysgwyr.

Nododd rhai gweithwyr addysg proffesiynol y byddent yn gwerthfawrogi cael rhagor o ganllawiau ar y broses o nodi trefn restrol am eu bod yn ansicr ynghylch yr hyn a ddisgwyilir ganddynt a'r modd y dylent lunio eu barn.

#### *Pryderon o fewn canolfannau*

Gofynnodd ymatebwyr sut y byddai canolfannau yn nodi trefn restrol dysgwyr ar draws dosbarthiadau gwahanol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nodwyd y byddai pob dosbarth wedi



cael ei addysgu gan athro gwahanol ac o'r herwydd, gallai fod yn anodd i athrawon gytuno ar drefn restrol gyffredinol pan nad ydynt yn gwybod yn union sut y bydd pob dysgwr yn cymharu â'i gilydd.

*Nid yw trefn restrol yn syml bob amser. Lle caiff pwnc ei addysgu ar draws sawl dosbarth gan sawl athro, sut y gellir nodi trefn restrol ar gyfer y grŵp blwyddyn, o ystyried mai dim ond eu disgyblion eu hunain y mae athrawon yn eu hadnabod, ac nid y rhai mewn dosbarthiadau eraill. Sut y gallant wahaniaethu rhyngddynt er mwyn nodi trefn restrol yn gywir?*

Roedd rhai ymatebwyr yn arbennig o bryderus ynghylch y broses ar gyfer nodi trefn restrol dysgwyr ar y Dystysgrif Her Sgiliau lle nad yw'n anghyffredin bod athro gwahanol wedi addysgu'r dysgwyr ar gyfer pob her, ac mae heriau gwahanol yn cyfrannu symiau gwahanol at y radd derfynol. Teimlwyd y bydd y cymhlethdodau hyn yn gwneud y broses hon yn heriol iawn ar gyfer y cymhwyster hwn, yn enwedig mewn colegau Addysg Bellach (AB). Awgrymwyd yn yr achos hwn, y dylid ystyried trefn restrol ar gyfer pob dosbarth.

Codwyd pryderon hefyd y gall rhai dysgwyr fod dan anfantais am eu bod wedi'u gosod mewn set addysgu sy'n is na'u gallu. Roedd pryder pe byddai dysgwyr yn cael trefn restrol yn ôl eu set addysgu, y gallai dysgwyr sydd wedi gwella ers i'r setiau addysgu gael eu sefydlu gollu allan. O ganlyniad, awgrymwyd y dylid annog canolfannau i nodi trefn restrol dysgwyr ar draws grwpiau addysgu.

Roedd pryderon penodol y gall dysgwyr mewn canolfannau mawr fod dan anfantais ohrewydd y byddai mwy o ddysgwyr yn cystadlu ar gyfer pob gradd, ac roeddent o'r farn y gallai hyn olygu bod rhai yn cael eu symud i'r radd nesaf yn annheg. Awgrymwyd o ganlyniad, y dylid grwpio dysgwyr, yn hytrach na nodi trefn restrol unigol ar eu cyfer.

Gofynnodd ymatebwyr hefyd sut y dylid nodi trefn restrol dysgwyr, er enghraifft, os bydd dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 wedi cael eu cofrestru i sefyll yr un cymhwyster (fel TGAU Llenyddiaeth Saesneg). Roedd ansicrwydd ynghylch p'un a ddylid eu rancio gyda'i gilydd neu ar wahân. Nodwyd y byddai'n well eu rancio ar wahân gan y byddai hynny'n symlach ac yn ystyried ffactorau fel aeddfedrwydd. Awgrymwyd y byddai hyn hefyd yn osgoi materion lle gallai Blwyddyn 11 fod dan anfantais os mai dim ond dysgwyr Blwyddyn 10 â gallu uwch oedd yn cael eu cofrestru mewn canolfan gan atal rhai dysgwyr Blwyddyn 11 rhag cael safle uwch yn y drefn restrol.

Codwyd cwestiynau tebyg am p'un a ddylid rancio dysgwyr sy'n ailsefyll cymhwyster ar yr un safle â dysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster am y tro cyntaf. Teimlwyd y byddai cynnwys y dysgwyr hyn mewn un drefn restrol yn arbennig o heriol i ganolfannau, yn enwedig gan fod gallu'r rheini sy'n ailsefyll yn aml yn debyg iawn.

Codwyd pryderon penodol hefyd ynghylch y ffordd y byddai'r broses yn gweithio mewn coleg AB lle mae gallu dysgwyr sy'n ailsefyll cymhwyster yn aml yn debyg iawn. Teimlwyd bod hyn, ynghyd â'r ffaith bod dysgwyr mewn rhai lleoliadau yn cael eu haddysgu gan athrawon gwahanol ar draws campysau gwahanol, yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gael eu

rancio'n gywir. Awgrymwyd y byddai'n fwy ystyrlon i'r canolfannau nodi a oedd dysgwyr yn gryf, yn gymedrol neu'n wan o fewn pob gradd.

### *Pryderon mewn perthynas â rancio ar draws canolfannau*

Cododd ymatebwyr hefyd bryderon ynghylch cysondeb y broses o nodi trefn restrol dysgwyr ar draws canolfannau gwahanol, a sut y byddai'r broses yn ystyried y posibilrwydd y gallai dysgwyr yn cael ei rancio uchaf mewn un ganolfan fod wedi cael y radd uchaf, ond y byddai nifer o ddysgwyr a fyddai wedi cyrraedd y radd uchaf yn fwy cyfforddus mewn canolfan arall. Roedd pryderon y gallai gallu dysgwyr eraill mewn canolfan bennu'r radd ar gyfer unigolyn, a allai fod wedi bod yn wahanol pe byddai wedi cofrestru drwy ganolfan arall. Yn aml, roedd y sylwadau hyn wedi'u cysylltu ag ymholiadau ynghylch sut y byddai penderfyniadau ynghylch ffiniau graddau yn cael eu gwneud a pha mor glir y byddai o gyflwyniad pob canolfan pa mor gyfforddus y disgwyliad i ddysgwyr gyflawni'r radd honno.

*Mae gan rai ysgolion fwy o gyflawnwyr uchel na'i gilydd sy'n golygu y gallai disgybl mewn un ysgol gael ei rancio yn y safle uchaf ond mai yn y canol y byddai wedi'i rancio mewn ysgol arall. Rwy'n ofni y gallai hyn olygu bod rhai myfyrwyr dan anfantais oherwydd y myfyrwyr gwahanol y maent yn cael eu cymharu â nhw yn dibynnu ar ysgolion yn ystod y broses o nodi trefn restrol.*

### 2.3.6 Pryderon ynghylch y defnydd o data ar gyrhaeddiad blaenorol

Soniodd ymatebwyr hefyd am y defnydd o ddata ar gyrhaeddiad blaenorol fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer cyfrifo graddau yr haf hwn. Gan nad oedd yn glir yn aml a oedd ymatebwyr yn cyfeirio at y defnydd o ddata ar gyrhaeddiad blaenorol i helpu i lywio data asesiad canolfannau neu fel rhan o'r model safoni ystadegol arfaethedig, ac er mwyn osgoi ailadrodd yn yr adroddiad hwn, caiff safbwyntiau'r ymatebwyr eu harchwilio yn y sylwadau ar Nodau 3 a 5.

### 2.3.7 Mae angen ystyried trefniadau amgen ar gyfer ymgeiswyr preifat

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod angen ystyried trefniadau amgen ar gyfer ymgeiswyr nad oes ganddynt gydberthynas â chanolfan ar hyn o bryd er mwyn sicrhau na fydd y dysgwyr hyn ar eu colled ac na fyddant yn gallu gwneud cynnydd. Awgrymwyd ei bod yn bosibl nad oedd pob ymatebydd wedi ystyried yr agwedd ar y cynnig a oedd yn nodi na fydd pob dysgwyr yn cael gradd am nad oedd yn berthnasol iddynt yn uniongyrchol. Felly, roedd rhai o'r ymatebwyr a gododd bryderon yn poeni na fyddai eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n gryf yn y canfyddiadau. Gwnaethant rybuddio er ei bod yn bosibl mai dim ond rhai o'r ymatebwyr a oedd wedi codi pryderon, y dylid rhoi ystyriaeth a sylw dyledus iddynt.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn bosibl bod nifer o ymgeiswyr preifat y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol ac felly na fyddent yn gymwys i gael arian cyhoeddus. Teimlwyd y gallai peidio â rhoi graddadu i'r dysgwyr hyn felly roi straen ariannol arny'n nhw a'u teuluoedd, a allai eu rhwystro rhag cyflawni eu cymwysterau yn y dyfodol. Nododd rhai o'r ymatebwyr hefyd bod demograffeg ymgeiswyr preifat yn debygol o fod yn amrywiol ac yn cynnwys dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb neu

ddysgwyr ag ADY. Teimlwyd y dylid nodi'r grwpiau hyn o ddysgwyr er mwyn gallu ystyried yr effaith arnynt yn ofalus.

Codwyd pryderon penodol mewn perthynas â dysgwyr a oedd yn ailsefyll cymwysterau Safon Uwch fel ymgeisydd preifat oherwydd mewn sawl achos, ni fydd gan eu canolfan lawer o dystiolaeth o'u cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd hyn yn golygu ei bod yn anodd i ganolfannau ddarparu data asesu canolfannau, ac o ganlyniad, efallai na fydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen i'w cyrsiau prifysgol dewisol.

Ymysg yr awgrymiadau a roddwyd i helpu i oresgyn y materion o ran rhoi graddau i ymgeiswyr preifat roedd:

1. hwyluso arholiad i'r ymgeiswyr hyn wrth gadw at y canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol;
2. annog canolfannau i weithio gyda thiworiaid preifat i ddatblygu corff o dystiolaeth a fydd yn galluogi'r ganolfan honno i lunio barn am berfformiad tebygol y dysgwr mewn arholiadau'r haf hwn;
3. galluogi ymgeiswyr preifat i roi dystiolaeth o'u gwaith yn uniongyrchol i CBAC ei hystyried;
4. annog canolfannau i weithio'n uniongyrchol ag ymgeiswyr preifat i lunio portffolio o waith y gellir ei asesu yn unol â dysgwyr eraill yn y ganolfan honno.

### 2.3.8 Sylwadau ychwanegol

Cododd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch effaith dysgwyr yn cael gradd sy'n wahanol i'r hyn y byddent wedi'i gael pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau. Roedd yr effeithiau hyn yn cynnwys methu â chael mynediad i gyrsiau addysg uwch ym mis Medi neu gael eu derbyn ar gwrs sy'n rhy anodd. Amlygwyd y gallai hyn effeithio'n andwyol ar lesiant dysgwyr ac effeithio ar eu hyder yn y system cymwysterau.

Gan fod y cynnig yn nodi y bydd pob dysgwr y cyflwynir data asesu canolfan ar ei gyfer yn cael gradd, gofynnodd ymatebwyr sut y bydd y broses yn ystyried dysgwyr yr oedd yn debygol y byddent wedi cael 'U' pe byddent wedi sefyll eu harholiadau. Nodwyd nad oedd hyn bob amser yn cael ei ystyried yn radd.

Codwyd cwestiwn hefyd ynghylch y mesurau diogelwch sydd ar waith i sicrhau bod canolfannau yn cyflwyno data asesiad canolfannau ar gyfer pob dysgwr cymwys. Roedd hyn yn gysylltiedig â phryder y gallai dysgwr fod mewn sefyllfa lle na fyddai'n cael gradd oherwydd camgymeriad yng nghyflwyniad y ganolfan.

Ymysg y sylwadau eraill a godwyd gan ymatebwyr roedd:

1. Dylid diwygio geiriad y nod i nodi y dylai pob dysgwr gael gradd 'deg', yn hytrach na dim ond gradd.
2. Gallai dyfarnu cymwysterau yn seiliedig ar ddata asesu canolfannau ysgogi trafodaethau am ddyfodol arholiadau. Er bod rhai o'r farn bod y defnydd o ddata asesu canolfannau yn fwy tebygol o gynrychioli gwir allu dysgwr nag arholiadau,

rhybuddiodd eraill y byddai angen ymchwil sylweddol i gefnogi unrhyw benderfyniad yn y dyfodol.

3. Cafwyd safbwyntiau cymysg ar b'un a ddylid rhannu data asesu canolfannau â dysgwyr. Er i rai o'r ymatebwyr nodi er mwyn sicrhau uniondeb barn broffesiynol, ei bod yn bwysig nad yw dysgwyr yn cael gwybod am eu gradd asesu canolfan a'u safle yn y drefn restrol, roedd eraill o'r farn y byddai rhannu hyn â dysgwyr yn gwneud y broses yn fwy tryloyw ac yn galluogi dysgwyr i herio eu canolfannau os byddant o'r farn bod y farn yn anghywir. Awgrymwyd pan fydd dysgwyr yn anfodlon ar y farn a luniwyd gan y ganolfan, y dylent allu cyflwyno eu gwaith eu hunain i CBAC fel tystiolaeth o'u gallu mewn pwnc.
4. Mae angen cadarnhau bod graddau asesu canolfannau yn adlewyrchu deilliannau ym mhob pwnc mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn yn gysylltiedig â phryder y gallai rhai pynciau gael eu graddio'n fwy llym nag eraill. Awgrymwyd y gallai fod angen llunio canllawiau penodol i'r pwnc er mwyn atal hyn.
5. P'un a oedd materion yn codi ynghylch cael cydsyniad gan ddysgwyr i ddefnyddio eu cyrhaeddiad blaenorol yn y dosbarth ac mewn asesiadau mewnol ac allanol at y diben hwn.
6. Mae'n hanfodol bod athrawon yn cael eu cefnogi'n briodol drwy gydol y broses o ddarparu data canolfannau, yn enwedig athrawon newydd gymhwyso sydd â llai o brofiad o ragweld deilliannau neu wybodaeth am y graddau y gall dysgwyr ddatblygu yn ystod tymor yr haf.


## Nod 2: Bydd deilliannau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 yn debyg i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser.

Ar gyfer Nod 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu safbwyntiau ar b'un a ddylai deilliannau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 fod yn debyg i ddeilliannau mewn blynyddoedd blaenorol.

### 2.4 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 3**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 4,010



Atebodd 4,010 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Fel y dangosir yn ffigur 3, roedd 55.3% o'r ymatebwyr hyn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 17.8% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd 1,539 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

Nododd nifer o'r sylwadau ysgrifenedig fod rhai o'r ymatebwyr wedi camddeall y cwestiwn. I ddechrau, trafododd llawer o'r ymatebwyr eu barn ar b'un a ddylai deilliannau fod yn debyg ar gyfer pob canolfan, yn hytrach nag ar lefel genedlaethol. Gan fod yr ystyriaeth hon yn fwy perthnasol i Nod 3, er mwyn osgoi ailadrodd, mae'r sylwadau hyn wedi cael eu integreiddio i'r drafodaeth ar y nod nesaf. Yn yr un modd, trafododd rhai o'r ymatebwyr y defnydd o gyrhaeddiad blaenorol dysgwr unigol mewn cymwysterau neu unedau yr oedd eisoes wedi'u sefyll. Er mwyn osgoi ailadrodd, caiff y sylwadau hyn eu harchwilio mewn perthynas â Nod 5.

Roedd rhai o'r ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn fel petai'n gofyn iddyn nhw roi barn ar b'un a fyddai deilliannau tebyg yn bosibl yr haf hwn, a hynny yn aml heb ystyried unrhyw brosesau safoni. Mae trosolwg o'r sylwadau hyn wedi'u cynnwys ar ddiwedd y drafodaeth ar y nod hwn.

Mae'n bwysig ystyried y ffyrdd y mae'n ymddangos bod y cwestiwn hwn wedi cael ei gamddeall wrth ystyried y lefelau o gytundeb a gyflwynir yn ffigur 3. Roedd y sylwadau ysgrifenedig yn awgrymu bod gan ymatebwyr fwy o bryderon yn gyffredinol ynghylch effaith sicrhau deilliannau tebyg ar lefel canolfan, o gymharu â lefel genedlaethol.

## Cefnogaeth i'r cynnig

### 2.5.1 Tegwch

Nododd ymatebwyr ei bod yn deg ceisio cael deilliannau tebyg yn genedlaethol oherwydd y byddai'n sicrhau bod canlyniadau'n gyson â blynyddoedd eraill, ac felly na fyddai unrhyw

gohort o ddysgwyr ar eu colled. Teimlwyd y byddai hyn yn helpu i sicrhau y bydd dysgwyr oedd ar fin sefyll arholiadau yr haf hwn yn cael yr un cyfleoedd â dysgwyr blaenorol a dysgwyr yn y dyfodol. Fel enghraifft, nodwyd y byddant yn gallu cystadlu'n deg am gyrsiau prifysgol a swyddi.

Nododd ymatebwyr hefyd fod dysgwyr bron wedi cwblhau'r holl ddysgu ar gyfer y cymwysterau hyn cyn i'r ysgolion gau ym mis Mawrth 2020. Roeddent o'r farn felly ei bod yn deg bod y deilliannau ar gyfer cymwysterau yn gyson â blynyddoedd blaenorol er mwyn helpu i sicrhau bod y gwaith caled y mae dysgwyr wedi'i wneud wrth astudio hyd yma yn cael ei wobrwyo'n deg.

Nododd rhai o'r ymatebwyr fod anelu at ganlyniadau 'tebyg' yn gadarnhaol oherwydd y byddai'n sicrhau gwelliannau lle roedd y dystiolaeth yn cyfiawnhau hyn.

### 2.5.2 Hygrededd

Roedd ymatebwyr o'r farn fod deilliannau cenedlaethol cyson yn bwysig ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan brifysgolion a chyflogwyr. Nododd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig osgoi canfyddiadau bod llai o werth i'r cymwysterau a ddyfernir eleni o gymharu â'r rhai a ddyfernir mewn blynyddoedd eraill neu eu bod yn ddangosydd annibynadwy o gyflawniad.

Pe byddai proffiliau graddau yn newid yn sylweddol, teimlwyd efallai na fyddai'r cymwysterau a ddyfernir eleni yn cael eu hystyried yn gymwysterau 'go iawn', a allai effeithio ar allu'r cohort o ddysgwyr y flwyddyn hon i gystadlu am leoedd mewn prifysgolion neu am swyddi yn y dyfodol.

*Os na fydd y graddau yn dilyn patrwm tebyg i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol a'r hyn a welir mewn blynyddoedd i ddod, bydd yn anodd iawn i brifysgolion/cyflogwyr ddadansoddi'r graddau. Yn y bôn, byddant yn ddiwerth.*

Nododd rhai o'r ymatebwyr oherwydd y bydd y deilliannau'n seiliedig ar ddata asesu canolfannau yn bennaf, bod risg eisoes eu bod yn cael eu hystyried yn llai gwerthfawr gan rai, ac felly ei bod yn hanfodol bod proffiliau gradd tebyg yn cael eu cynnal.

## Pryderon ynghylch y cynnig

### 2.6.1 Dylai deilliannau cymwysterau fod yn hael eleni

Er eu bod yn cytuno y dylai'r deilliannau cenedlaethol fod yn debyg, nododd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn llawer anoddach rhoi gradd deg a phriodol ar gyfer pob dysgwr unigol na chael y dosbarthiad yn gywir ar lefel genedlaethol. Felly, awgrymwyd y gall fod angen i ddeilliannau cenedlaethol fod ychydig yn uwch y flwyddyn hon fel na fydd dysgwyr unigol, yn arbennig y rheini y mae eu perfformiad o amgylch ffiniau'r gradd, ar eu colled nac yn cael eu gwobrwyo'n annheg.

Nodwyd hefyd ei bod yn anodd rhagweld sut y bydd dysgwr yn perfformio mewn arholiad. Bob blwyddyn, mae rhai dysgwyr sy'n perfformio'n annisgwyl o wael yn eu harholiadau ac yn cael gradd derfynol sy'n is na'r disgwyl. Gan na fydd athrawon yn gallu nodi pa ddysgwyr y

gall hyn fod yn berthnasol iddynt, ni fydd graddau asesu canolfannau yn gallu rhoi ystyriaeth deg i hyn. Felly, teimlwyd y dylai deilliannau cenedlaethol fod ychydig yn uwch eleni am na fydd unrhyw ddysgwyr yn tanberfformio'n annisgwyl.

*Er fy mod i'n gwerthfawrogi y byddai'n ymddangos yn gyfleus iawn pe byddai'r graddau a ddyfernir eleni yn dangos cynnydd sylweddol mewn perfformiad, gall hefyd fod yn niweidiol i ddysgwyr pe byddai'r graddau a ddyfernir yn cael eu gwthio i ffitio patrwm. Mae CBAC a byrddau arholi eraill yn honni na ddylai myfyrwyr fod ar eu colled oherwydd y broses hon, ac felly ni ddylai athrawon orfod rhagweld methiant disgybl lle byddai'n llawer mwy tebygol/yr un mor debygol iddynt berfformio'n dda dan amodau arholiad.*

Yn yr un modd, nodwyd ei bod yn annhebygol y bydd canolfannau yn rhagweld gradd 'U' i ddysgwr gan nad yw'n debygol y byddent wedi cofrestru dysgwr ar gyfer arholiad pe byddent yn meddwl mai dyna fyddai'r canlyniad tebygol. O ganlyniad, roeddent o'r farn ei bod yn rhesymol disgwyl y bydd deilliannau ar y lefel hon wedi'u chwyddo. Un thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd bod nifer o ddysgwyr sy'n perfformio yn unol â dwy radd wahanol, ac y byddai eu gradd derfynol yn dibynnu'n bennaf ar eu perfformiad ar ddiwrnod yr arholiad. Gan nad yw'r dysgwyr hyn wedi cael y cyfle i brofi eu bod yn perfformio ar y radd uwch, awgrymwyd y dylid rhoi mantais yr amheuaeth i unrhyw ddysgwr yn y sefyllfa hon. Byddai hyn yn arwain at ddeilliannau ychydig yn uwch.

Mewn cysylltiad â'r broses apelio arfaethedig, awgrymwyd y dylid bod ychydig yn hael wrth ddyfarnu canlyniadau gan na all dysgwyr apelio'r radd hon eu hunain ac os bydd yn is na'r disgwyl, gallent golli lle mewn prifysgol neu gynnig am swydd. Awgrymwyd hefyd, er mwyn osgoi siom a galluogi cynnydd, y dylai pob dysgwr Safon Uwch gael y graddau disgwylidig o leiaf ar eu ceisiadau ar gyfer prifysgolion.

Awgrymwyd hefyd na fyddai rhywfaint o gynnydd mewn canlyniadau yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau am fod y ffordd y mae cymwysterau'n cael eu dyfarnu eleni yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, a bydd y cymwysterau a gaiff dysgwyr bob amser yn cael eu hystyried yn 'wahanol'. O ganlyniad, teimlwyd y byddai canlyniadau ychydig yn uwch yn cael eu derbyn gan y rhan fwyaf o bobl.

## 2.6.2 Ni ddylid cymharu deilliannau cenedlaethol â blynyddoedd eraill

Nid oedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn rhesymol cymharu cohort y flwyddyn hon â chohortau eraill am ein bod mewn sefyllfa unigryw ac mae'r graddau'n cael eu dyfarnu'n wahanol. Gwnaethant nodi hefyd fod dysgwyr y flwyddyn hon yn siomedig am na allant orffen eu cwrs na sefyll eu harholiadau, ac o ganlyniad i hynny, teimlwyd y dylem roi blaenoriaeth i lesiant y dysgwyr hyn, yn hytrach na cheisio cael canlyniadau tebyg.

*Rwy'n pryderu ar ôl darllen yr ymgynghoriad bod gormod o bwysau'n cael eu rhoi ar degwch i ddisgyblion mewn blynyddoedd blaenorol a blynyddoedd i ddod, yn hytrach na chydabod mai dysgwyr 2020 fydd ar eu colled fwyaf. Byddai wedi bod yn dda gweld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddiogelu lles a hunanhyder disgyblion 2020 sydd wedi gorfod ymdopi â sefyllfa anodd nad yw disgyblion unrhyw flwyddyn arall*

*wedi gorfod ymdopi â hi. Mae'r gorbwyslais hwn ar sicrhau tegwch i flynyddoedd eraill yn rhyfedd.*

Nododd rhai o'r ymatebwyr fod Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio'n rheolaidd at eu hagenda llesiant drwy gyfnod y pandemig, ac roeddem yn pryderu y gallai safoni canlyniadau i fod yn debyg i flynyddoedd blaenorol pan nad yw'r dysgwyr wedi cael cyfle i sefyll arholiadau olygu ein bod yn methu â chydabod yr agenda hon.

Roedd ymatebwyr hefyd yn ystyried ei bod yn annheg safoni deilliannau yn seiliedig ar berfformiad cohortau eraill. Nododd ymatebwyr fod pob dysgwr yn unigolyn ac nid oeddent o'r farn bod y broses o safoni deilliannau er mwyn sicrhau canlyniadau tebyg yn gallu ystyried hyn. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau bod graddau dysgwr yn adlewyrchiad teg o'i allu ei hun ac nad ydynt wedi cael eu haddasu i gyd-fynd â thuedd yn seiliedig ar berfformiad dysgwyr eraill.

Ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig cydnabod y bydd eithriad i duedd bob amser ac y dylid gwneud ymdrech i archwilio a allai hynny fod wedi bod yn wir y flwyddyn hon. Awgrymwyd bod y ffaith y gallai cryfder cohortau amrywio fod yn un rheswm posibl dros newid. Er bod y mwyafrif o'r sylwadau ar y thema hon yn ymwneud ag amrywiadau ar lefel canolfan (ac a drafodir yn Nod 3), cafwyd rhywfaint o awgrym y gallai cryfder y cohort cenedlaethol amrywio. Awgrymwyd pe byddai cohort y flwyddyn hon yn gryfach na cohortau blaenorol, ei bod yn debygol y byddai rhai dysgwyr yn cael graddau a gyfrifwyd a oedd yn is na phe byddent wedi sefyll yr arholiadau.

Awgrymwyd hefyd y gall gallu cohort Blwyddyn 11 y flwyddyn hon fod yn wahanol i gohortau blaenorol am mai nhw oedd y grŵp blwyddyn cyntaf i brofi'r Cyfnod Sylfaen. Nododd ymatebwyr hefyd fod ysgolion wrthi'n addasu eu dulliau addysgu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022. Awgrymwyd y gallai hyn hefyd fod wedi cael effaith ar ddeilliannau cenedlaethol, ond ni roddodd ymatebwyr lawer o esboniad o'r math o effaith y gellid ei ddisgwyl.

Roedd rhai pryderon hefyd pe byddai awgrym bod graddau asesu canolfannau wedi cael eu chwyddo, ac o ganlyniad, eu bod yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau deilliannau tebyg ar lefel genedlaethol, y gallai canolfannau sydd wedi bod yn deg wrth farcio fod dan anfantais wrth i'w barn gael ei beirniadu yn yr un modd â chanolfannau sydd wedi marcio'n rhy hael. Nid oedd yn ymddangos bod yr ymatebwyr hyn wedi cydnabod y bydd y model hefyd yn ystyried canlyniadau hanesyddol dysgwyr yn y ganolfan er mwyn cyfrif am hyn.

Manteisiodd rhai o'r ymatebwyr ar y cyfle i nodi eu bod o'r farn bod y dull o sicrhau deilliannau tebyg bob blwyddyn yn annheg am ei fod yn cyfyngu ar y graddau y gall canolfannau wella. Awgrymwyd y gallai hyn gael effaith ar y graddau y gall canolfannau gyflawni argymhellion ar gyfer gwella gan Estyn neu'r Consortia Addysg Rhanbarthol.

Er mwyn goresgyn pryderon ynghylch safoni deilliannau, gwnaeth ymatebwyr rai awgrymiadau, yn cynnwys:

1. dylid asesu dysgwyr ar eu perfformiad yn erbyn meini prawf asesu, yn hytrach nag ar y tebygolrwydd ystadegol y byddant yn cyflawni gradd benodol;



2. dylid rhoi pwyslais mawr ar ddata ar gyrhaeddiad blaenorol, fel y deilliannau o Brofion Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2 neu 3 neu gymwysterau blaenorol, yn y model safoni er mwyn nodi os yw cohort y flwyddyn hon yn gryfach na rhai blaenorol;
3. dylai'r model safoni ddefnyddio data i nodi unrhyw amrywiad mewn cohortau o ran rhyw, cymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim neu ethnigrwydd;
4. brandio canlyniadau y flwyddyn hon fel graddau disgwylidig er mwyn osgoi unrhyw ymdrechion i gymharu â blynyddoedd blaenorol, a fyddai'n dileu'r angen am safoni.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r dull o safoni deilliannau fod yn gyson ar draws awdurdodaethau'r DU er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru ar eu colled o gymharu â'u cyfoedion.

Nododd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno â'r cynnig am nad oeddent o'r farn bod deilliannau wedi cael eu safoni mewn blynyddoedd eraill.

### 2.6.3 Mae'n rhesymol i ddeilliannau wella ar gyfer manylebau newydd

Nododd ymatebwyr, gan fod rhai manylebau TGAU, UG a Safon Uwch yn gymharol newydd, y disgwylir i'r deilliannau wella y flwyddyn hon. Mae hyn am fod athrawon wedi dod yn fwy hyderus yn addysgu'r fanyleb, wedi addasu eu harferion addysgu yn seiliedig ar adborth o gyfresi arholiadau blaenorol ac wedi gallu defnyddio adnoddau newydd a ddatblygwyd a hen bapurau i gefnogi eu haddysgu.

### 2.6.4 Diffyg eglurder

Nododd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn ansicr a gofynnwyd am ragor o eglurder ar yr hyn a olygir gan dermau fel 'tebyg' a 'blynyddoedd blaenorol'.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod angen rhagor o fanylion ar y model safoni arfaethedig a'r modd y caiff ei ddatblygu a'i brofi er mwyn eu helpu i lunio barn hyddysg.

Ymysg y ceisiadau eraill am eglurder roedd ceisiadau yn gofyn am gadarnhad ynghylch a yw'r nod yn cyfeirio at ddeilliannau cenedlaethol, rhanbarthol neu lefel canolfan, ac am hysbysu rhieni sut y gallant weld data blynyddoedd blaenorol i gael sicrwydd bod deilliannau yn debyg ar ddiwrnod canlyniadau.

## 2.7 Dehongliad amgen o'r cynnig

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r nod hwn, roedd rhai o'r ymatebwyr yn meddwl bod y cwestiwn yn gofyn a oeddent o'r farn a fyddai'r dull gweithredu arfaethedig o ddyfarnu cymwysterau yr haf hwn yn arwain at ddeilliannau tebyg ai peidio.

Rhododd yr ymatebwyr a oedd o'r farn y byddai'r deilliannau yn debyg, y rhesymau canlynol dros eu barn:

1. roedd y mwyafrif o'r dysgu ar gyfer y cymwysterau hyn wedi digwydd dan yr un amodau ag mewn blynyddoedd blaenorol a gyda'r un athrawon;
2. nid oes llawer o amrywiad yng ngallu cyffredinol cohortau fel arfer ac nid oes rheswm dros gredu y byddai hynny wedi bod yn wahanol y flwyddyn hon;

3. bydd athrawon yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth ac mae ganddynt brofiad o amcangyfrif graddau ar gyfer eu dysgwyr felly dylai eu barn adlewyrchu gallu yn deg.

Roedd yr ymatebwyr a oedd o'r farn na fyddai'r deilliannau'n debyg yn tueddu i awgrymu y byddai'r deilliannau yn is y flwyddyn hon oherwydd:

1. mae dysgwyr yn cael eu hasesu gan ddefnyddio newidynnau gwahanol nad ydynt yn ystyried ffactorau fel adolygu dwys yn ystod tymor yr haf na gwaith a wnaed gyda thiwtor preifat;
2. nid yw'r dysgwyr yn sefyll arholiad felly ni allant ddangos eu potensial llawn na sut maent wedi gwella ers eu ffug arholiadau;
3. nid yw dysgwyr wedi cwblhau'r deunydd na'r adolygu ar gyfer y cwrs, ac maent wedi gwneud rhywfaint o waith gartref yn ystod pandemig byd-eang;
4. nid oes asesiad diartholiad wedi cael ei farcio yn y rhan fwyaf o'r pynciau felly ni all gyfrannu tuag at y radd derfynol;
5. gall rhai dysgwyr fod ar eu colled oherwydd tuedd athrawon.

Nododd rhai o'r ymatebwyr nad oeddent o'r farn y byddai'r deilliannau'n debyg oherwydd y sefyllfa bresennol ond ni roddwyd rhagor o esboniad i awgrymu a oeddent o'r farn y byddent yn well neu'n waeth. Nododd rhai o'r ymatebwyr nad oedd yn bosibl penderfynu a fyddai'r canlyniadau wedi bod yn debyg am nad ydynt yn gwybod pa radd y byddent wedi'i chael pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau.


### **Nod 3: Mae'n debygol mai'r dull gweithredu tecaf fydd model safoni ystadegol sy'n defnyddio tystiolaeth hanesyddol o berfformiad canolfan a cyraeddiadau blaenorol dysgwyr, ynghyd â data asesiadau'r ganolfan ac a fydd yn creu graddau amcangyfrifedig mwy cywir.**

Ar gyfer Nod 3, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn a yw'n debygol mai'r dull gweithredu tecaf fydd model safoni ystadegol sy'n defnyddio tystiolaeth hanesyddol o berfformiad canolfan a cyraeddiadau blaenorol dysgwyr, ynghyd â data asesiadau'r ganolfan ac a fydd yn creu'r graddau amcangyfrifedig mwyaf cywir (C6).

#### **2.8 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?**

**Ffigur 4**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,669



O'r 3,669 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 57.0% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ac roedd 13.8% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd 1,478 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

#### **2.9 Cefnogaeth i'r cynnig**

##### **2.9.1 Tegwch**

Roedd nifer o ymatebwyr naill ai o'r farn bod y dull arfaethedig yn deg, neu mai dyna'r dull tecaf y gellid ei gyflawni yn yr amgylchiadau, ond ni wnaethant ymhelaethu llawer ynghylch eu rheswm dros hyn. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno bod y dull gweithredu yn deg ar y cyfan ond gwnaethant nodi rhai cafeata, sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran isod.

O'r ymatebwyr hynny a esboniodd eu rhesymau dros gytuno, y thema fwyaf cyffredin oedd bod y model arfaethedig yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth a fydd yn rhoi darlun cyflawn o gyflawniad posibl pob dysgwr yr haf hwn.

Gan adlewyrchu sylwadau a amlinellwyd yn Nod 1, nododd rhai ei fod yn ddull rhesymol oherwydd y bydd yn helpu i sicrhau bod bron pob dysgwr yn cael gradd gredadwy ac felly y gallant symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu i mewn i gyflogaeth.

##### **2.9.2 Manteision y model safoni ystadegol arfaethedig**

Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol y defnyddir model safoni ystadegol i sicrhau y caiff graddau cymwysterau teg eu dyfarnu i bob dysgwr yng Nghymru. Roedd rhai o'r

ymatebwyr yn cytuno'n benodol mai dim ond gan ddefnyddio'r mathau o ddata a amlinellwyd yn y cynnig y gellir cyflawni hyn.

*Mae'n hanfodol y caiff proses safoni gadarn ei rhoi ar waith i sicrhau y caiff graddau cymwysterau teg eu dyfarnu i ddysgwyr ledled Cymru. Yr unig ffordd ddibynadwy o gyflawni hyn yw safoni'r graddau asesu canolfannau a gyflwynir gan athrawon gan ystyried tystiolaeth hanesyddol perfformiad canolfannau a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr, pan fo tystiolaeth o'r fath ar gael.*

Nododd rhai ymatebwyr eu bod o'r farn bod manteision penodol i'r model safoni arfaethedig, yn cynnwys y bydd:

1. yn helpu i sicrhau cysondeb ar draws canolfannau yn ogystal ag ar draws adrannau o fewn canolfannau. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn arbennig o bwysig lleihau effaith hyn oherwydd y pwysau y mae rhai athrawon yn eu hwyneb gan uwch arweinwyr i gyflawni graddau penodol neu'r duedd naturiol i athrawon fod yn hael wrth ddyrannu graddau amcangyfrifedig.

*Mae tuedd naturiol i fod yn awyddus i'ch disgyblion wneud yn dda ac mae llawer o athrawon yn wynebu pwysau i gael canlyniadau da. Oherwydd hyn, bydd rhai yn gorliwio eu canlyniadau felly bydd yn rhaid i chi gyfyngu ar y canlyniadau er mwyn bod yn deg.*

2. diogelu athrawon rhag cael eu herio'n bersonol gan ddysgwyr neu eu rhieni sy'n anfodlon ar y deilliannau;
3. cynnig ffordd gadarn o gadarnhau graddau asesu canolfannau o ran cywirdeb a dibynadwyedd, a fydd yn lleihau'r risg o duedd neu ddiffyg gwybodaeth gan athrawon ac yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael deilliannau teg;
4. helpu i sicrhau na chaiff dysgwyr eu cosbi am beidio â chael y cyfle i gwblhau asesiadau y flwyddyn hon drwy sicrhau bod data asesu canolfannau yn seiliedig ar ddeilliannau tebygol mewn arholiadau, yn hytrach na pherfformiad ar adeg cau'r ysgolion.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn arbennig o bryderus ynghylch y posibilrwydd y byddai tuedd yn erbyn grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys y rheini o gefndiroedd economiadd-gymdeithasol is, yn effeithio ar ddata aseu canolfannau Nododd yr ymatebwyr hyn eu bod yn falch bod model safoni ystadegol yn cael ei ddefnyddio am eu bod o'r farn y byddai'n gallu nodi tuedd o'r fath a gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.

Nodwyd hefyd bod math o safoni yn digwydd bob blwyddyn ac felly y dylai dull gweithredu tebyg gael ei ddefnyddio y flwyddyn hon.

### 2.9.3 Nodweddion y data a fydd yn debygol o gyfrannu at y model safoni ystadegol

Nododd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno'n benodol â'r defnydd o fathau penodol o ddata a fydd yn debygol o gyfrannu at y model safoni ystadegol yr haf hwn:

1. *Data asesu canolfannau* – pwysleisiodd y rheini a gytunodd yn benodol y dylid cynnwys data asesu canolfannau yn y model o fanteision canfyddedig y math hwn o ddata a archwiliwyd yn Nod 1.
2. *Data ar gyrhaeddiad blaenorol* – roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno'n benodol â'r defnydd o ddata ar gyrhaeddiad blaenorol o'r farn y byddai'n cynnig dangosydd da o berfformiad tebygol yn arholiadau'r haf hwn oherwydd y byddai'r asesiad wedi cael ei gynnal dan amodau arholiad, ac mae'n debygol y byddai dysgwyr wedi paratoi mwy ar gyfer yr arholiadau hyn nag ar gyfer asesiadau mewnol. Ceir trafodaeth bellach ar fanteision canfyddedig data ar gyrhaeddiad blaenorol yn Nod 5.
3. *Data hanesyddol canolfannau* – teimlwyd ar gyfer y mwyafrif o'r canolfannau bod yr amrywiad mewn deilliannau bob blwyddyn yn fach ac felly gall canlyniadau hanesyddol ar gyfer dysgwyr gynnig dangosydd da o'r deilliannau a fyddai wedi bod yn y ganolfan honno y flwyddyn hon. Teimlwyd os oedd canolfan wedi goramcangyfrif neu wedi tanamcangyfrif graddau yn gyson, y gallai proses o gymharu â data hanesyddol canolfannau nodi hyn, yn enwedig pan gânt eu defnyddio ar y cyd â data ar gyrhaeddiad blaenorol.

## 2.10 Pryderon ynghylch y cynnig hwn

### 2.10.1 Pryderon ynghylch y defnydd o ddata hanesyddol canolfannau

Yr agwedd ar y model safoni a ysgogodd y nifer mwyaf o bryderon oedd y defnydd o ddata hanesyddol canolfannau. Ymysg yr ymatebwyr a gododd bryderon roedd ymdeimlad cyffredinol y dylai deilliannau dysgwr fod yn seiliedig ar ei berfformiad blaenorol a'i berfformiad presennol, ac nid ar berfformiad cohort blaenorol o ddysgwyr yn ei ganolfan.

#### *Amrywiad rhwng cohortau mewn canolfan*

Y pryder a nodwyd fwyaf oedd y gall cryfder cohort mewn canolfan amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Nodwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i ganolfannau bach, pynciau TGAU dewisol a sawl Safon Uwch, lle gall perfformiad pob dysgwr unigol effeithio'n sylweddol ar ddeilliannau cyffredinol. Nodwyd efallai na fyddai gan rai pynciau lle ceir nifer bach iawn o ddysgwyr, fel cerddoriaeth, ddigon o ddata i nodi tueddiadau'n ddibynadwy ar gyfer y pwnc hwnnw yn eu canolfan.

*Mae gennym gohortau gwahanol iawn o ddisgyblion yn dewis rhai pynciau o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn amlwg iawn ar gyfer TGAU Cerddoriaeth ond mae hefyd yn wir ar gyfer rhai cyrsiau UG a Safon Uwch lle ceir niferoedd bach o ymgeiswyr. Mae'n bwysig osgoi disgwyl cromlin ddosbarthu arferol ar gyfer canlyniadau ysgolion, gan edrych ar bob disgybl unigol yn lle hynny.*

Nododd ymatebwyr y gall y gwahaniaethau mewn cohortau ar draws y blynyddoedd fod yn amlwg iawn mewn lleoliadau amgen, fel Unedau Cyfeirio Disgyblion, lleoliadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned neu ysgolion arbennig. Nodwyd y gellid effeithio'n benodol ar ddysgwyr ag ADY pe na fyddai amrywiad rhwng cohortau yn cael ei ystyried ar gyfer y lleoliadau hyn. O ganlyniad, awgrymwyd y gall fod angen model safoni amgen ar gyfer y lleoliadau hyn, sy'n edrych ar fathau gwahanol o dystiolaeth.

Nododd nifer o ymatebwyr fod eu canolfan yn disgwyl cael canlyniadau gwell o lawer y flwyddyn hon. Rhoddodd rhai o'r ymatebwyr hyn enghreifftiau o berfformiad eu cohort Blwyddyn 11 presennol mewn arholiadau naill ai ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 fel tystiolaeth o safonau gwell yn eu canolfan, a rhoddodd eraill enghreifftiau o welliannau sylweddol a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn eu canolfan neu adran. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y gallai peidio â chaniatáu gwelliant o'r fath y flwyddyn hon fod yn annheg i rai dysgwyr.

Nododd rhai o'r ymatebwyr fod dysgwyr wedi cael cymorth ychwanegol gan diwtor y tu allan i'w canolfan ac o ganlyniad, eu bod yn disgwyl cael perfformiad gwell na chyfartaledd eu canolfan mewn blynyddoedd diweddar. Nid oedd yr ymatebwyr hyn o'r farn ei bod yn deg i'w canlyniadau ddibynnu ar yr hyn yr oedd cohortau blaenorol wedi'i gyflawni.

#### *Newidiadau mewn arferion addysgu neu arweinyddiaeth mewn canolfan*

Nododd rhai o'r ymatebwyr fod eu canolfan yn disgwyl cael canlyniadau gwell o lawer y flwyddyn hon oherwydd newidiadau mewn arferion addysgu. Ymysg y newidiadau a drafodwyd roedd:

1. cyflwyno Cyfnod Allweddol 4 sy'n cwmpasu tair blynedd;
2. datblygu adnoddau addysgu newydd yn seiliedig ar adborth gan y bwrdd arholi mewn cyfresi arholiadau blaenorol;
3. newid eu dull gweithredu mewn perthynas ag asesiad diarholiad;
4. datblygu ymyriadau wedi'u targedu'n well;
5. newid mewn staff addysgu, fel pennaeth adran newydd.

Roedd ymatebwyr yn bryderus ei bod yn bosibl na fyddai'r gwelliannau disgwyliedig o ganlyniad i'r newidiadau hyn yn cael eu cyflawni bellach.

Nododd rhai o'r ymatebwyr bod naill ai'r consortia addysg rhanbarthol, Estyn neu Lywodraeth Cymru wedi nodi bod angen gwelliant yn eu canolfan, ac o ganlyniad, ei bod wedi gwneud newidiadau sylweddol, yn cynnwys penodi pennaeth newydd neu weithio mwy mewn cydweithrediad â chanolfannau eraill. Nodwyd gyda chymorth allanol o'r fath neu newidiadau mewn arweinyddiaeth, ei bod yn rhesymol disgwyl y gallai canolfan wneud gwelliannau sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr.

*Felly, mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng canolfannau sy'n rhoi graddau wedi'u chwyddo, a'r canolfannau hynny sydd ar y trywydd cywir i weld gwelliant sylweddol mewn canlyniadau [...] Ar gyfer ysgolion sydd wedi gwneud cynnydd ardderchog eleni, mae risg y bydd myfyrwyr diwyd dan anfantais sylweddol drwy beidio â sefyll arholiadau cyhoeddus heb unrhyw fai arnyn nhw.*

Roedd ymatebwyr yn pryderu na fyddai gwelliannau mor gyflym yn cael eu canfod gan ddata hanesyddol canolfannau na data ar gyrhaeddiad blaenorol, ac o ganlyniad, na fyddai eu dysgwyr yn cael y graddau yr oeddent yn ei haeddu.

Ymysg y rhesymau eraill a roddwyd dros pam roedd rhai canolfannau yn disgwyl cael deilliannau gwell yr haf hwn roedd bod eu canolfan newydd symud i adeilad newydd a oedd wedi helpu i ysgogi dysgwyr drwy roi cyfleoedd dysgu newydd a difyr iddynt, neu fod eu canolfan wedi uno â chanolfan arall yn ddiweddar ac o ganlyniad ei bod wedi gallu rhannu adnoddau ac arbenigedd.

### *Newidiadau yn y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer cymhwysterau mewn canolfan*

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig ystyried proffil y dysgwyr sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer pob cymhwyster ym mhob canolfan yr haf hwn. Nododd ymatebwyr y gallai'r amrywiadau canlynol mewn patrymau cofrestru fod wedi effeithio ar ganlyniadau ar lefel canolfan:

1. newidiadau yn y gofynion cofrestru ar gyfer rhai pynciau fel bod dysgwyr nad oedd disgwyl iddynt gael gradd C o leiaf mewn cymhwyster penodol wedi cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster arall;
2. mae newidiadau mewn arferion cofrestru o ganlyniad i ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i fesurau perfformiad mewn blynyddoedd diweddar yn golygu bod gallu'r cohort sy'n cofrestru bob haf wedi amrywio. Nododd rhai canolfannau eu bod bellach yn cofrestru eu dysgwyr llai abl yn gynnar felly eu bod yn disgwyl y byddai cyfrannau uwch o'u dysgwyr sy'n cofrestru yr haf hwn yn cael gradd 'C' o leiaf. I'r gwrthwyneb, roedd canolfannau nad ydynt yn cofrestru dysgwyr yn gynnar yn pryderu y gallent fod dan anfantais am fod canolfannau eraill yn cofrestru eu dysgwyr mwy abl yn gynnar ac o ganlyniad, roeddent o'r farn bod canran benodol o'r graddau uwch ar gyfer y flwyddyn hon eisoes wedi cael eu dyfarnu;
3. mae nifer yr ymgeiswyr preifat sy'n cofrestru drwy ganolfan yn amrywio bob blwyddyn.

### *Sylwadau eraill ar y defnydd o ddata hanesyddol canolfannau*

Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai defnyddio data hanesyddol canolfannau olygu bod dysgwyr mewn ysgolion â pherfformiad is dan anfantais oherwydd eu bod o'r farn y byddai nifer y dysgwyr sy'n gallu cael graddau uchel yn llai na'r nifer mewn ysgolion â pherfformiad uwch. Roedd pryderon y gallai hyn rwystro symudedd cymdeithasol oherwydd efallai na fyddai'r dysgwyr hyn yn gallu symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch, a allai effeithio ar eu cyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd.

Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu y gallai canolfannau oedd yn rhagweld tuedd ar i lawr mewn deilliannau yr haf hwn chwyddo graddau asesu eu canolfan heb gael eu herio. Gofynnwyd am eglurder ar ffyrdd o nodi'r canolfannau hyn.

Gofynnodd nifer bach o'r ymatebwyr am eglurder ar y ffordd y caiff graddau eu cyfrifo yn y sefyllfaoedd canlynol:

1. canolfannau newydd neu'r rhai sydd wedi cael eu huno ac sydd â demograffeg gwahanol yn eu cohort;

2. canolfannau lle gwelwyd amrywiadau sylweddol yn eu canlyniadau bob blwyddyn yn hanesyddol, naill ai fel canolfan gyfan neu o fewn rhai o'u hadrannau;
3. dysgwyr sydd wedi symud canolfannau yn ddiweddar neu sydd wedi cael eu haddysgu drwy un canolfan ond sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer eu harholiadau drwy ganolfan arall.

### *Awgrymiadau ar gyfer y defnydd o ddata hanesyddol canolfannau*

Awgrymwyd bod peidio â chwilio am ffordd lle gellid ystyried newidiadau disgwylidig mewn perfformiad canolfan yn annheg ar ddysgwyr ac yn ergyd i'r rheini sydd wedi gweithio'n galed i gyflwyno newid o'r fath.

Er mwyn goresgyn rhai o'r pryderon hyn, awgrymwyd y dylai canolfannau allu cyflwyno tystiolaeth ategol i gyfiawnhau eu graddau cyn iddynt gael eu haddasu gan y model safoni. Awgrymwyd y gallai'r dystiolaeth hon gynnwys eu data monitro, adroddiadau hunanwrthuso neu adroddiadau Estyn. Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai arholwyr nad ydynt yn marcio papurau arholiadau yr haf hwn adolygu'r dystiolaeth hon ac y gallai hyn gael ei ariannu drwy'r ffioedd cofrestru y mae canolfannau a/neu ddysgwyr eisoes wedi'u talu.

*Lle mae ysgolion yn nodi dosbarthiad graddau tebygol sy'n wahanol iawn i'r hyn a luniwyd gan unrhyw ddeilliannau a fodelwyd yn ystadegol, yna gellid gofyn i'r ysgolion hynny ddarparu'r sail dystiolaeth cyn dyfarnu graddau. Byddai hyn yn dileu'r angen i'r ganolfan apelio ar ôl i'r canlyniadau gael eu rhyddhau ac, felly, gall gael effaith gadarnhaol ar lesiant dysgwyr yn yr achosion hynny.*

Ymysg yr awgrymiadau amgen roedd:

1. galluogi goddefiant o hyd at 15% ar ganlyniadau ar lefel canolfan i gyfrif am newidiadau yng nghryfder cohortau ac effaith arferion addysgu newydd neu newidiadau mewn arweinyddiaeth;
2. archwilio tueddiadau ym mherfformiad canolfannau dros dair neu bum mlynedd o leiaf;
3. blaenoriaethu graddau asesu canolfannau (a data ar gyrhaeddiad blaenorol mewn rhai achosion) yn y model safoni;
4. galluogi'r deilliannau i fod ychydig yn uwch nag mewn blynyddoedd eraill er mwyn cyfrif am y sefyllfa unigryw;
5. defnyddio data ar gyrhaeddiad blaenorol ar gyfer y cohort presennol i nodi amrywiad yng nghryfder y cohort.

### 2.10.2 Pryderon ynghylch data asesu canolfannau

Manteisiodd nifer o ymatebwyr ar y cyfle i fynegi eu pryderon ynghylch y dystiolaeth y gall athrawon ei defnyddio i lywio data asesu eu canolfan. Er mwyn osgoi ailadrodd ac er mwyn helpu i greu darlun llawn o'r pryderon gyda phob math o dystiolaeth, mae'r sylwadau hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn y sylwadau ar Nod 1.



### 2.10.3 Pryderon ynghylch y defnydd o data ar gyrhaeddiad blaenorol

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn deall bod data ar gyrhaeddiad blaenorol yn cynnwys deilliannau'r dysgwyr mewn ffug arholiadau neu brofion dosbarth. Gan fod y sylwadau hyn eisoes wedi cael eu harchwilio yn y sylwadau ar Nod 1, ni chânt eu hailadrodd yma. Hefyd, er mwyn osgoi ailadrodd â Nod 5, caiff safbwyntiau ymatebwyr ar y defnydd o gyrhaeddiad blaenorol mewn cymwysterau blaenorol neu unedau o gymwysterau eu harchwilio o dan y nod hwnnw. Felly, bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar sylwadau yn ymwneud â'r defnydd o Ddata Profion Cenedlaethol neu Raddau Asesu Athrawon a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 a sylwadau cyffredinol a wnaed am ddefnyddio unrhyw fath o ddata cyrhaeddiad o flwyddyn flaenorol.

#### *Pryderon ynghylch defnyddio data Profion Cenedlaethol i ragweld deilliannau TGAU*

Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd Data Profion Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2, Data Profion Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 3 a graddau Asesu Athrawon, a gaiff eu casglu gan Lywodraeth Cymru, yn ddull effeithiol o ragweld deilliannau TGAU am mai profion diagnostig ydynt sydd ond yn asesu amrywiaeth gyfyngedig o sgiliau. Nodwyd hefyd nad yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn paratoi ar gyfer y profion hyn nac yn ystyried eu bod yn bwysig.

*Nid ar gyfer hyn y cynlluniwyd y profion cenedlaethol. Maent yn ffurfiannol eu natur ac yn profi amrywiaeth allweddol ond cyfyngedig o sgiliau o gymharu â TGAU. Yn wahanol i TGAU, ni fwriadwyd i ddisgyblion baratoi nac adolygu ar eu cyfer ac felly nid ydynt yn asesu gallu disgyblion i astudio a pharatoi.*

Nodwyd y byddai'r profion hyn ond yn gallu dynodi perfformiad posibl mewn rhifedd a darllen. O ganlyniad, awgrymodd ymatebwyr ei bod yn annhebygol iawn y byddant yn ddull effeithiol o ragweld perfformiad mewn pynciau creadigol neu ymarferol. Nodwyd hefyd na fydd y data hyn ar gael ar gyfer pob dysgwr oherwydd y bydd rhai wedi ymuno ag ysgolion neu golegau yng Nghymru ers i'r profion gael eu cwblhau, ac ni fydd pob canolfan yn eu cwblhau ar bob cyfle. Yn yr un modd, mae'n annhebygol y bydd y wybodaeth hon am ddysgwyr ar gael mewn ysgolion annibynnol.

Ymysg y pryderon ychwanegol roedd nad oedd canlyniadau'r asesiadau hyn yn cael eu dilysu'n allanol. Awgrymwyd er bod profion Cyfnod Allweddol 2 yn aml yn goramcangyfrif potensial dysgwr, y gall deilliannau Cyfnod Allweddol 3 danamcangyfrif potensial oherwydd teimlwyd y gallai fod gan rai canolfannau nod i gadw'r deilliannau'n isel fel y gallant ddangos lefel uwch o welliant yn Nghyfnod Allweddol 4. Roedd ymatebwyr o'r farn y gellid dangos tystiolaeth o hyn drwy'r ffaith bod llawer o ddysgwyr yn cyflawni y tu hwnt i'r disgwyl o ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

*Mae data a luniwyd yn fewnol nad ydynt wedi cael eu dilysu'n allanol (e.e. gweithio ar lefelau, data diwedd cyfnodau allweddol) yn agored i farn broffesiynol, ond yn anffodus mae hefyd yn agored i gael ei haddasu. Lle y defnyddiwyd y data hyn yn hanesyddol i feincnodi perfformiad ysgol, yn aml caiff ei 'thylino' i sicrhau bod y canlyniadau'n aros o fewn ystod 'dderbyniol'. Mae hefyd adegau lle gellir gostwng cyflawniadau disgyblion*

*er mwyn sicrhau bod disgwyliadau FFT [Ymddiriedolaeth Teulu Fischer] yn fwy cyflawnadwy. Os na ellir gwarantu dilysrwydd a dibynadwyedd data o'r fath, ni ddylai fod yn rhan o unrhyw fodel safoni.*

Nododd ymatebwyr hefyd fod rhai dysgwyr yn addasu'n dda i ofynion astudio ar gyfer TGAU, a bod dysgwyr eraill yn cymryd mwy o amser i addasu. O ganlyniad, efallai na fydd y deilliannau o'r profion hyn yn rhagweld deilliannau TGAU mewn modd dibynadwy, yn enwedig mewn asesiadau uned ym Mlwyddyn 10. Awgrymwyd oni ellir profi mewn modd dibynadwy y gall y data hyn ragweld deilliannau TGAU yn gywir, na ellir eu defnyddio'n hyderus.

Teimlwyd y byddai defnyddio data Profion Cenedlaethol i safoni graddau asesu canolfannau yn tanseilio gweithwyr addysg proffesiynol am fod eu barn yn cael ei haddasu yn seiliedig ar ddata yr oeddent yn ystod eu bod yn llai trylwyr.

#### *Pryderon cyffredinol ynghylch defnyddio data cyrhaeddiad o flwyddyn astudio flaenorol*

Trafododd ymatebwyr nifer o resymau pam ei bod yn bosibl nad yw data cyrhaeddiad o flwyddyn astudio flaenorol yn ddull dibynadwy o ragweld y cyrhaeddiad tebygol mewn asesiadau roedd dysgwyr ar fin eu sefyll yr haf hwn. Roedd y sylwadau a roddwyd gan ymatebwyr yn awgrymu bod sawl un a gododd y pryderon hyn yn meddwl mai'r cynnig oedd y byddai deilliannau unigolyn yn seiliedig ar ei gyrhaeddiad blaenorol ei hun, yn hytrach na chyrhaeddiad blaenorol y ganran gyfan.

Ymysg y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr i egluro pam ei bod yn bosibl nad yw data ar gyrhaeddiad blaenorol yn ddull dibynadwy o ragweld deilliannau yr haf hwn roedd y canlynol:

1. mae rhai dysgwyr yn aeddfedu'n hwyrach na dysgwyr eraill felly gall data ar gyrhaeddiad blaenorol danamcangyfrif eu potensial yr haf hwn;
2. gall newidiadau mewn arferion addysgu a staff mewn canolfan helpu dysgwyr i wella'n gyflymach na'r disgwyl;
3. efallai na fydd dysgwyr ag ADY wedi cael y cymorth priodol mewn asesiadau blaenorol;
4. yn aml, mae dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn gwneud cynnydd cyflymach wrth i'w gafael ar yr iaith wella a gallant wneud gwelliannau cyflymach na'r hyn y byddai data ar gyrhaeddiad blaenorol yn ei ragweld;
5. roedd salwch neu amgylchiadau personol wedi effeithio ar rai dysgwyr mewn asesiadau blaenorol, ac roedd disgwyl iddynt eu goresgyn y flwyddyn hon;
6. gall dysgwyr mewn lleoliadau amgen, fel Unedau Cyfeirio Disgyblion fod wedi colli diddordeb mewn lleoliad ysgol brif ffrwd ac wedi tangyflawni mewn asesiadau blaenorol ond bod eu lleoliad presennol yn fwy addas iddynt ac felly bod eu perfformiad wedi gwella.

O ganlyniad i'r pryderon hyn, nododd rhai ymatebwyr mai dim ond deilliannau yn yr uned a ddyfarnwyd eisoes ac sy'n cyfrannu at y cymhwyster sy'n cael ei raddio yr haf hwn y dylid eu cynnwys. Roedd eraill o'r farn y byddai data ar gyrhaeddiad blaenorol o flwyddyn yn ôl yn briodol.

#### 2.10.4 Dim data ar gael

Codwyd rhai pryderon ynghylch sut y byddai'r model yn cyfrif am achosion lle nad oes llawer o ddata hanesyddol ar gael.

Codwyd y pryderon hyn yn bennaf mewn perthynas â chymwysterau sydd ond wedi cael eu dyfarnu unwaith neu ddwy o'r blaen. Nodwyd bod cymwysterau TGAU CBAC wedi cael eu diwygio'n ddiweddar ac na fyddai data ar fwy na thair blynedd o gyrhaeddiad blaenorol ar gael. Teimlwyd y byddai llai na thair blynedd o ddata yn golygu bod unrhyw fodel safoni ystadegol yn annibynadwy gan na fyddai'n gallu nodi tueddiadau.

Hefyd, nodwyd bod rhai canolfannau yn bwriadu cofrestru dysgwyr mewn pynciau am y tro cyntaf y flwyddyn hon felly na fydd unrhyw ddata ar gyrhaeddiad blaenorol ar gael ar gyfer y pynciau hynny ar lefel canolfan.

Nodwyd hefyd fod rhai dysgwyr wedi ymuno â chanolfannau yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf ac o'r herwydd, nad oes llawer o ddata ar gyrhaeddiad blaenorol ar gael ar eu cyfer. Nodwyd y byddai hyn yn effeithio ar rai canolfannau a grwpiau o ddysgwyr yn fwy nag eraill. Ymysg y grwpiau o ddysgwyr y nodwyd bod hyn yn effeithio arnynt fwyaf roedd dysgwyr sy'n oedolion, dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr sy'n ffoaduriaid. Gofynnwyd am eglurder ar sut y byddai graddau'r dysgwyr hyn yn cael eu cyfrifo.

#### 2.10.5 Pryderon ynghylch safoni

Mynegodd ymatebwyr eu pryderon ynghylch defnyddio model safoni ystadegol yn y broses o gyfrifo graddau yr haf hwn. Roedd ymatebwyr o'r farn na all model o'r fath drin dysgwyr fel unigolion, ond ei fod yn hytrach yn eu grwpio gyda'i gilydd er mwyn cyd-fynd â norm ystadegol. Teimlwyd er y gall y dull hwn ragweld deilliannau ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr y bydd rhai dysgwyr ar eu hennill ac eraill ar eu colled. Awgrymwyd am fod y cymwysterau sy'n cael eu dyfarnu yn rhai arwyddocaol ac yn cael effaith sylweddol ar ddyfodol unigolyn, bod y risg y bydd dysgwyr yn cael graddau is na'r hyn y byddent wedi'i gyflawni mewn arholiadau yn rhy uchel. O ganlyniad, nodwyd y gall fod angen i ddeilliannau cenedlaethol a deilliannau canolfannau fod yn wahanol i rai blynyddoedd eraill i sicrhau tegwch.

Nododd rhai ymatebwyr bod eu canolfan wedi defnyddio data ar gyrhaeddiad blaenorol a data hanesyddol canolfannau yn y gorffennol i ragweld deilliannau cymwysterau ar gyfer eu dysgwyr. Gwelwyd eu bod bob amser yn anghywir ar gyfer rhai dysgwyr, ac o'r herwydd, nid oedd y dull gweithredu hwn wedi'u hargyhoeddi.

Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu y gall defnyddio model safoni ystadegol annog athrawon i chwyddo graddau asesu eu canolfan am eu bod yn poeni gormod y byddai'r model yn eu gostwng yn annheg.

### 2.10.6 Ymddiriedaeth mewn barn athrawon

Oherwydd eu pryderon ynghylch y ffaith bod modelau safoni yn defnyddio data ar gyrhaeddiad blaenorol neu ddata hanesyddol canolfannau, roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig ymddiried mewn barn athrawon. Nododd yr ymatebwyr hyn fod athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda a'u bod yn gallu ystyried agwedd y dysgwr at ddysgu, y modd y mae dysgwr wedi ymateb i raglen ymyriadau wedi'i thargedu, ac unrhyw amgylchiadau personol a all fod wedi effeithio ar ei berfformiad blaenorol wrth lunio eu barn. Nodwyd hefyd fod athrawon wedi arfer deall y modd y mae dysgwyr gwahanol yn perfformio mewn mathau gwahanol o asesiadau a'u bod yn gallu ystyried hyn wrth lunio eu barn.

Mewn perthynas â'r dybiaeth y gall rhai canolfannau chwyddo eu graddau asesu, nododd ymatebwyr nad oes gan athrawon lawer o gymhelliant i chwyddo eu deilliannau am na fydd mesurau perfformiad ysgolion yn cael eu cyhoeddi eleni. Nodwyd y byddai chwyddo deilliannau TGAU yn arwain at ganlyniadau negyddol i lawer o athrawon am na fyddent am addysgu dysgwyr nad ydynt yn ddigon galluog ar lefel Safon Uwch.

Nid oedd ymatebwyr o'r farn bod yr ymchwil y cyfeirir ati yn y ddogfen ymgynghori sy'n awgrymu bod athrawon yn hael wrth ragweld graddau ar ffurflenni cais prifysgolion yn berthnasol am fod hon yn dasg wahanol gyda dull gweithredu gwahanol. Nodwyd hefyd gan fod mwy o brifysgolion yn gwneud cynigion diamod, fod rhai dysgwyr yn colli cymhelliant, felly bod eu deilliannau Safon Uwch terfynol yn is na'r disgwyl. Awgrymwyd bod ymchwil o'r fath yn cwestiynu proffesiynoldeb athrawon i roi gradd asesu canolfan, a bod hynny'n ddiangen ac yn tansilio'r broses.

Nododd rhai o'r ymatebwyr mai data asesu canolfannau fyddai'r unig fath o dystiolaeth a fyddai'n ystyried nodweddiad a chyflawniadau pob dysgwr unigol, yn hytrach na chyrhaeddiad cohortau eraill na dysgwyr eraill o fewn eu cohort. O'r herwydd, awgrymwyd naill ai y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddata asesu canolfannau yn y model safoni, neu na ddylid safoni fel rhan o'r broses, gan ddyfarnu graddau asesu canolfannau i ddysgwyr. Mewn rhai achosion, awgrymwyd y gellid defnyddio'r model safoni i nodi anomaleddau mewn data asesu canolfannau, ond bod y rhain yn cael eu trafod â chanolfan, yn hytrach na bod y model yn effeithio ar y deilliannau.

### 2.10.7 Angen rhagor o fanylion

Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr neu'n anghytuno â'r cynnig am fod angen mwy o fanylion yn y model safoni ystadegol i lunio barn hyddysg. Nodwyd bod yn rhaid i'r model fod yn dryloyw gydag eglurhad amlwg i bawb ei ddeall.

Ymysg yr agweddau ar y model y gofynnodd ymatebwyr yn benodol am ragor o wybodaeth arnynt roedd:

1. sut y bydd y drefn restrol a gyflwynir gan ganolfannau yn rhyngweithio â'r model;
2. faint o bwyslais a roddir ar bob math o dystiolaeth ac o ganlyniad, y graddau y gellir newid graddau asesu canolfannau;
3. eglurder ar pa ddata ar gyrhaeddiad blaenorol a gaiff eu cynnwys ar gyfer pob math o gymhwyster a'r graddau y profwyd eu bod yn rhagweld deilliannau cymwysterau;

4. sut y bydd y model yn sicrhau trylwyredd ar gyfer setiau data lle mae'r niferoedd cofrestru yn fach neu lle mae'r canolfannau yn gymharol newydd;
5. pa ddata a gaiff eu hystyried er mwyn nodi newidiadau mewn cohort canolfan, fel nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nifer y dysgwyr ag ADY neu nifer y dysgwyr yr ystyrir eu bod yn fwy abl a thalentog;
6. sut y bydd y model yn cyfrif am fylchau mewn data lle mae gan ganolfan gyfradd symudedd uchel neu lle na chaiff pob dysgwr yn y cohort hwnnw ei gofrestru ar gyfer cymhwyster penodol;
7. sut y byddai'r model yn cyfrif am amrywiad mewn deilliannau mewn cymhwyster. Fel enghraifft, nodwyd bod deilliannau TGAU Saesneg Iaith wedi amrywio'n sylweddol ar gyfer rhai canolfannau mewn blynyddoedd diweddar.

Er mwyn sicrhau tryloywder, awgrymwyd hefyd y dylid cyhoeddi manylion ar pa fodelau amgen a ystyriwyd a pham iddynt gael eu diystyru. Awgrymwyd hefyd y dylai Cymwysterau Cymru a CBAC gynnwys athrawon a dysgwyr yn y penderfyniad ar pa fodel i'w ddefnyddio.

#### 2.10.8 Sylwadau eraill

Awgrymodd llawer o'r sylwadau ysgrifenedig fod ymatebwyr wedi ystyried manteision a rhinweddau pob math o dystiolaeth y gellid ei ddefnyddio mewn model safoni ystadegol ar wahân. Dim ond rhai ymatebwyr a nododd eu bod wedi ystyried sut y gellid defnyddio'r wybodaeth gyda'i gilydd er mwyn rhoi sail dystiolaeth gryfach, er enghraifft, sut y gellid defnyddio data ar gyrhaeddiad blaenorol i nodi cohort cryfach na'r arfer mewn canolfan.

### 2.11 Awgrymiadau ychwanegol a ddarparwyd gan ymatebwyr

Rhoddodd ymatebwyr nifer o awgrymiadau ar y modd y gellid lleddfu eu pryderon. Lle roedd yr awgrymiadau hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â phryder benodol, maent wedi'u hamlinellu yn y testun uchod.

Yn ogystal, mynegodd nifer o ymatebwyr eu barn ar pa fath o dystiolaeth y dylid ei blaenoriaethu yn y model safoni ystadegol. Er bod y safbwyntiau'n amrywiol, roedd ymdeimlad cyffredinol bod ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth uwch i dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r unigolyn, sef data asesu canolfannau a data ar gyrhaeddiad blaenorol dysgwr.

Un awgrym arall oedd os nad oedd dysgwyr yn fodlon ar y radd a ddyfernir iddynt yn dilyn proses safoni, y dylent allu sefyll arholiad yn nhymor yr hydref. Nodwyd y byddai hyn yn eu galluogi i symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf neu i gyflogaeth yn gynt ac y byddai hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu a gaiff ei fabwysiadu yn Lloegr.

Un awgrym arall oedd y dylai athrawon gael y canlyniadau'n gynt nag arfer i'w galluogi i herio deilliannau sy'n annheg yn eu barn nhw cyn i'r canlyniadau gael eu rhyddhau i ddysgwyr. Awgrymwyd y bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar nifer yr apeliadau.


## Nod 4: Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr o dan anfantais, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Ar gyfer Nod 4, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ar b'un a ddylem sicrhau na fydd y dull gweithredu ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr o dan anfantais, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### 2.12 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 5**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,599



O'r 3,599 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 87.1% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf a dim ond 2.5% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd 712 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

### 2.13 Cefnogaeth i'r cynnig

Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r nod hwn ar y cyfan, roeddent yn falch bod anfantais bosibl wedi cael ei chydabod ac yn gobeithio y bydd y nod yn gyflawnadwy. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn ei fod yn nod amlwg gan gwestiynu sut y gellid anghytuno ag ef.

#### 2.13.1 Ni ddylai unrhyw ddysgwr fod dan anfantais

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn fod y nod hwn yn bwysig er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddysgwr dan anfantais yn sgil y dull gweithredu i ddyfarnu cymwysterau yn nhymor yr haf 2020, fel unigolion ac fel grwpiau o ddysgwyr. Nodwyd ei bod yn bwysig ystyried amgylchiadau a demograffeg er mwyn sicrhau tegwch i bawb. Roedd sylwadau rhai ymatebwyr yn canolbwyntio ar sicrhau nad yw'r pandemig yn golygu bod cohort dysgwyr y flwyddyn hon dan anfantais o gymharu â chohortau eraill, a nododd eraill bwysigrwydd sicrhau nad yw cohort y flwyddyn hon dan anfantais o gymharu â dysgwyr eraill yn yr un grŵp blwyddyn.

Gan adlewyrchu ar sylwadau a wnaed yn Nod 1, ategodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gael gradd deg sy'n adlewyrchu'r gwaith caled a wnaed ac a fydd yn ei helpu i symud ymlaen i'w gam dysgu nesaf neu i mewn i gyflogaeth. Nodwyd gan rai o'r ymatebwyr fod hyn yn hanfodol i lesiant y dysgwyr hyn ac i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd cyfartal yn ddiweddarach yn ei fywyd.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn fod hwn yn nod ar gyfer cymwysterau bob blwyddyn ac y dylid ei gadw y flwyddyn hon er mwyn helpu i gynnal hyder a chredadwyedd y cyhoedd yn y cymwysterau a'r system gymwysterau.

### 2.13.2 Dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig

Roedd yr ymatebwyr a gyfeiriodd yn benodol at ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig yn cytuno ei bod yn bwysig i'r dysgwyr hyn gael eu nodi, a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw'r broses yn golygu eu bod dan anfantais. Nodwyd hefyd fod dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig yn agored i niwed mewn rhai achosion, a'u bod yn gorfod goresgyn rhwystrau eraill i ddysgu a chynnydd, felly mae'n bwysig nad yw'r broses ar gyfer dyfarnu cymwysterau yr haf hwn yn ychwanegu anfantais ychwanegol.

Manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle i nodi grwpiau o ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig yr oeddent o'r farn y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r nod hwn. Ymhlith y grwpiau hyn roedd:

1. **Dysgwyr ag ADY, yn arbennig y rheini sydd wedi cael diagnosis yn ddiweddar ac nad ydynt wedi cael cymorth priodol mewn asesiadau blaenorol o bosibl.** Roedd ymatebwyr yn pryderu y gall fod gan athrawon ddiffyg dealltwriaeth o anghenion y dysgwyr hyn a'r effaith y gall eu nam ei chael ar asesiadau mewnol, yr oeddent o'r farn y gallent effeithio ar eu penderfyniadau o ran cyrhaeddiad. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd y dylai canolfannau geisio cyngor gan y staff cymorth arbenigol sy'n gweithio gyda'r dysgwyr hyn yn eu canolfan. Awgrymwyd hefyd y dylai'r model addasu'r ffocws a roddir ar gyrhaeddiad blaenorol ar gyfer y dysgwyr hyn mewn rhai cymwysterau.
2. **Dysgwyr sydd â threfniadau mynediad, fel amser ychwanegol neu ysgrifennydd –** Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai fod achosion lle nad oedd trefniadau o'r fath ar gael i ddysgwyr ar gyfer ffug arholiadau neu asesiadau mewnol eraill. Awgrymwyd y dylai canolfannau nodi'r dysgwyr hyn a sicrhau eu bod wedi ystyried hyn wrth lunio eu barn.
3. **Dysgwyr sy'n oedolion –** awgrymwyd bod graddau cyfartalog a ddyfernir i ddysgwyr sy'n oedolion yn aml yn uwch na'r rhai a ddyfernir i ddysgwyr o dan 19 oed. Gan nad oes cyrhaeddiad blaenorol ar gael ar gyfer nifer o'r dysgwyr hyn, awgrymwyd y gallai fod angen dull gweithredu gwahanol ar eu cyfer.
4. **Bechgyn –** roedd canfyddiad bod bechgyn yn aeddfedu'n hwyrach na merched ar y cyfan, felly y gallai'r ffaith na allant ddangos eu gallu mewn arholiadau terfynol, a gynhelir ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd gael effaith anghymesur arnynt.
5. **Dysgwyr o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) –** Trafododd ymatebwyr achosion lle roedd dysgwyr o gymunedau BAME wedi rhagori'n sylweddol ar eu graddau disgwylidig yn eu harholiadau terfynol ac roeddent yn pryderu y gellid tanamcangyfrif y dysgwyr hyn mewn data asesu canolfannau. Nododd rhai ymatebwyr hefyd ymchwil sy'n awgrymu bod dysgwyr o gymunedau BAME yn aml yn cael graddau disgwylidig is na dysgwyr eraill, a allai fod o ganlyniad i duedd anymwybodol yn eu barn nhw. Roedd pryderon os oedd

dysgwyr o'r cymunedau hyn yn cael eu tanwobrwyo, y gallai hyn gael effaith ar raglenni i ehangu eu cyfranogiad mewn addysg uwch.

#### 2.13.4 Dull gweithredu teg

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn fod y dull gweithredu a amlinellwyd ar gyfer sicrhau nad yw grwpiau o ddysgwyr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig, dan anfantais yn deg neu mai dyna'r dull gweithredu tecaf yn yr amgylchiadau.

Nodwyd bod yn rhaid i'r broses ar gyfer dyfarnu graddau yr haf hwn gydymffurfio ag Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a hawliau dynol plant y mae ganddynt hawl iddynt o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Un o'r hawliau hyn yw cydraddoldeb a diffyg gwahaniaethu. Felly, ystyriwyd bod y nod hwn yn hanfodol gan fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, sicrhau cyfleoedd cyfartal gwell a meithrin cydberthnasau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Nododd ymatebwyr ei bod yn bwysig diogelu pob dysgwr rhag tuedd bosibl gan athrawon ac roeddent yn falch y byddai data asesu canolfannau yn cael eu gwirio er mwyn nodi tuedd bosibl. Nodwyd y gall dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig fod yn agored i duedd ymwybodol neu anymwybodol gan athrawon, a allai effeithio ar eu deilliannau. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu heb y nod hwn, y byddai'n anodd dileu tuedd o ddull gweithredu sy'n dibynnu ar farn broffesiynol.

Er mwyn sicrhau bod data asesu canolfannau yn deg i bob dysgwr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig, gwnaed nifer o awgrymiadau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

1. ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno sampl ar hap o waith i CBAC i'w gymedroli'n allanol;
2. datblygu canllawiau neu fodiwl hyfforddiant ar-lein i gefnogi athrawon a Phenaethiaid Canolfannau i ddileu tuedd ymwybodol ac anymwybodol wrth lunio barn;
3. galluogi canolfannau i gyflwyno tystiolaeth ansoddol gefnogol pan fo graddau asesu canolfannau yn gwyro oddi wrth y radd a gyfrifwyd gan y model. Awgrymwyd bod hyn yn hanfodol o ystyried na fydd y model yn gallu mesur unrhyw anfantais nac addasu'r drefn restrol;
4. annog canolfannau i werthuso eu dull gweithredu o lunio eu barn a chyfrif am duedd bosibl cyn cyflwyno eu data i CBAC;
5. gofyn am ddata wedi'u diweddarau ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig gan ganolfannau a'u defnyddio yn y model safoni i fynd i'r afael ag anghysonderau mewn graddau asesu canolfannau;
6. annog canolfannau i nodi trefn restrol dysgwyr yn seiliedig ar waith dienw;



7. atgoffa canolfannau am eu dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rhoi canllawiau iddynt ar sut i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
8. ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau wneud datganiad cydraddoldeb yn nodi eu bod wedi ystyried cydraddoldebau ac yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
9. cynghori canolfannau i ddiystyru perfformiad ers i'r ysgolion gau oherwydd gallai diffyg cymorth neu adnoddau yn y cartref effeithio ar hyn a allai effeithio'n andwyol ar grwpiau penodol o ddysgwyr.

Awgrymwyd hefyd ar ôl dyfarnu graddau ar gyfer dysgwyr yr haf hwn, y dylai Cymwysterau Cymru gyhoeddi adroddiad yn gwerthuso'r graddau amcangyfrifedig, gan roi sylw penodol i unrhyw wahaniaethau â'r cyfartaledd ar gyfer dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig.

Cytunodd rhai o'r ymatebwyr yn benodol na ddylid newid y farn a gyflwynwyd gan ganolfannau oni fydd tystiolaeth sylweddol mewn data o flynyddoedd blaenorol sy'n awgrymu bod rhai dysgwyr wedi cael eu graddio'n anghywir. Nodwyd y byddai unrhyw ymgais i newid y drefn restrol a gyflwynwyd gan ganolfannau er mwyn cyfrif am duedd systematig yn achosi problem am nad yw'n bosibl cael meini prawf clir a chyson ar gyfer gwneud unrhyw newid, ac felly gallai gwneud hyn gynyddu anfantais. Cytunodd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig na chaiff y drefn restrol ei newid ond gofynnwyd a fyddai hyn yn gyflawnadwy gan sicrhau hefyd na fydd unrhyw ddysgwr dan anfantais. Awgrymwyd hefyd y dylid ymchwilio i unrhyw dystiolaeth o duedd ar sail adrannol gan fod unrhyw duedd yn ei hanfod yn debygol o ddod gan athrawon unigol yn hytrach na chanolfan gyfan.

Gan na chaiff y drefn restrol a gyflwynir gan ganolfannau ei newid, nodwyd ei bod yn hanfodol bod y model safoni yn ystyried tuedd bosibl yn nata asesu canolfannau. Nodwyd y bydd angen i'r model gael ei rannu'n glir â rhanddeiliaid fel y gallant ddeall pa ddull gweithredu a gymerir a sut y bydd yn sicrhau tegwch i bob dysgwr.

## **2.14 Pryderon a godwyd ynghylch y cynnig**

### **2.14.1 Tegwch i ddysgwyr nad oes ganddynt nodweddion gwarchoddedig**

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu ynghylch y nod am eu bod o'r farn ei bod yn bwysig na fydd unrhyw ddysgwr unigol dan anfantais ac felly roeddent yn ansicr ynghylch y ffocws ar grwpiau o ddysgwyr a'r rheini â nodweddion gwarchoddedig. Awgrymodd ymatebwyr y dylai'r nod ganolbwyntio ar bob dysgwr, a all gynnwys dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig. Nododd rhai o'r ymatebwyr ei bod hefyd yn bwysig na fydd dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig dan anfantais oherwydd y broses. Nodwyd pryderon oherwydd, drwy sicrhau na fydd dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig dan anfantais, y gall y dull gweithredu olygu bod dysgwyr eraill dan anfantais, yn enwedig y rheini sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu ond nad oes ganddynt nodwedd warchoddedig.

Nododd rhai o'r ymatebwyr grwpiau o ddysgwyr nad oes ganddynt nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth Cydraddoldebau (y soniwyd am rai ohonynt eisoes

mewn ymateb i gwestiynau blaenorol) y teimlwyd y gallai'r broses ar gyfer cyfrifo graddau yr haf hwn olygu eu bod dan anfantais. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

1. **dysgwyr a oedd yn debygol o berfformio'n well yn eu harholiadau terfynol o gymharu â'u perfformiad blaenorol mewn ffug arholiadau neu waith dosbarth.** Fel yr amlinellir yn Nod 1, awgrymwyd y gallai hyn gynnwys y rheini sy'n aeddfedu'n hwyrach, sy'n gweithio'n well yn annibynnol neu sydd wedi bod yn gweithio gyda thiwtor preifat mewn misoedd diweddar;
2. **dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, yn enwedig y rheini sy'n fwy abl.** Teimlwyd bod y dysgwyr hyn yn fwy tebygol o gael eu tanwobrwyo mewn data asesu canolfannau o gymharu â dysgwyr o gefndiroedd llai difreintiedig;
3. **dysgwyr sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol** a oedd yn gwella eu gafael ar yr iaith yn gyflym ac o ganlyniad, a oedd yn gwella eu dealltwriaeth o amrywiaeth o bynciau yn sylweddol;
4. **gofalwyr ifanc**, yn cynnwys y rheini sydd wedi bod yn helpu i ofalu am frawd neu chwaer anabl yn yr ysgol hyd nes i fesurau cymorth priodol gael eu rhoi ar waith;
5. dysgwyr y mae eu perfformiad mewn asesiadau blaenorol wedi bod yn is na'r disgwyl am amrywiaeth o **resymau personol**, fel salwch neu brofedigaeth;
6. **dysgwyr mewn canolfannau a oedd yn disgwyl deilliannau gwell** y flwyddyn hon am fod ganddynt gohort anarferol o gryf neu newid mewn arweinyddiaeth er enghraifft;
7. **dysgwyr mewn canolfannau bach** sy'n gweld amrywiadau sylweddol mewn deilliannau bob blwyddyn. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd y gall fod angen lleihau dylanwad data hanesyddol canolfannau yn y model safoni ystadegol;
8. **dysgwyr a oedd ar fin ailsefyll arholiadau yr haf hwn**, yn enwedig y rheini sydd wedi'u cofrestru fel ymgeiswyr preifat;
9. **dysgwyr sydd wedi cael eu graddio gan athrawon sydd â phrofiad cyfyngedig** neu sydd ag awdurdod cyfyngedig mewn canolfan, ac y mae'n bosibl na chaiff eu barn ei hystyried yn briodol;
10. **dysgwyr nad yw eu hathrawon yn eu ffafrio na'u hadnabod cymaint;**
11. **dysgwyr sy'n fwy abl** ac sy'n dibynnu ar raddau er mwyn symud ymlaen i'r brifysgol – codwyd pryderon nad yw'r dull gweithredu yn cydnabod potensial y dysgwyr hyn i berfformio y tu hwnt i'r disgwyliad cyfartalog ar gyfer eu canolfan o bosibl;
12. **dysgwyr yr ystyrir eu bod yn agos at gyflawni gradd 'C'** na fyddant yn gallu dangos eu potesial ac a all golli allan.

Nododd rhai o'r ymatebwyr y gall rhai dysgwyr uniaethu â mwy nag un o'r grwpiau hyn, ac o'r herwydd, y gallant wynebu sawl anfantais. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn ei bod yn hanfodol bod hyn yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar y model safoni terfynol.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod y cohort o ddysgwyr a oedd ar fin sefyll yr arholiadau hyn yr haf hwn dan anfantais yn gyffredinol am fod yr arholiadau wedi cael eu canslo. Tueddodd yr ymatebwyr hyn i ailadrodd pryderon a archwiliwyd yn Nod 2 ynghylch cymharu dysgwyr ar draws grwpiau blwyddyn.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y bydd pob dysgwr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â'r dysgwyr hynny yn Lloegr a fydd wedi cael y cyfle i sefyll arholiadau ym mis Tachwedd os byddant yn anfodlon ar eu canlyniadau.

#### 2.14.2 Ymddiriedaeth mewn data asesu canolfannau

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn hyderus na fydd y farn a luniwyd gan ganolfannau yn golygu bod unrhyw ddysgwyr dan anfantais, ac o ganlyniad, cwestiynwyd yr angen am safoni. Nododd yr ymatebwyr hyn ei bod yn bwysig ymddiried yn y farn a gyflwynir gan ganolfannau, a fydd wedi cael ei hystyried gan weithwyr proffesiynol, yn seiliedig ar dystiolaeth o waith a gwblhawyd eisoes ac wedi'i chymedroli'n fewnol er mwyn cyfyngu ar y risg o duedd. Nodwyd bod gan athrawon brofiad o raddio dysgwyr a'u bod yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod pob grŵp o ddysgwyr yn cael ei drin yn gyfartal ac yn gallu ystyried sut y bydd dysgwyr yn perfformio mewn sefyllfaoedd arholiad. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at y ffaith y bydd athrawon yn trin eu dysgwyr fel unigolion ac yn seilio eu graddau asesu canolfannau ar dystiolaeth, yn hytrach nag ar nodweddion gwarchoddedig, ac o ganlyniad, y byddent yn disgwyl i farn fod yn gywir.

*Mae ysgolion yn darparu graddau asesu canolfan y mae athrawon y disgyblion hyn wedi penderfynu arnynt yn ofalus. Mae pob athro wedi treulio sawl awr yn gwneud y penderfyniadau hyn gan ein bod i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw'r rhain a dylai adrannau fod wedi treulio amser yn casglu dystiolaeth i gefnogi'r graddau hyn. Os yw'r graddau hyn yn gywir bydd nodweddion pob disgybl unigol wedi cael eu hystyried a bydd y radd asesu yn seiliedig ar allu'r disgybl hwnnw (a thystiolaeth i gefnogi hynny) yn hytrach na rhyw neu ethnigrwydd y disgybl. Dylai graddau fod yn seiliedig ar allu'r disgybl nid ar nodweddion gwarchoddedig.*

Nodwyd hefyd fod athrawon yn deall anghenion ychwanegol y dysgwyr gan eu bod yn gwneud cais am ystyriaeth arbennig ar gyfer arholiadau yn rheolaidd ac felly gallant ystyried hyn hefyd wrth amcangyfrif graddau. Nodwyd hefyd fod y canllawiau a roddwyd i ganolfannau yn amlwg yn atgoffa canolfannau i ystyried sut y byddai dysgwyr sy'n gymwys i gael ystyriaeth arbennig yn perfformio mewn sefyllfa arholiadau, a ystyriwyd yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

#### 2.14.3 Geiriad y nod

Mynegodd rhai o'r ymaebwyr bryderon ynghylch y geiriad a ddefnyddiwyd yn y nod. Ymhlith y pryderon hyn roedd y canlynol:

1. 'Cyn belled ag y bo modd' – ystyriwyd efallai nad yw'r geiriad hwn yn ddigon cryf i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth Cydraddoldebau. Nodwyd bod gan Cymwysterau Cymru a CBAC Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i sicrhau nad yw grwpiau o ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig dan anfantais a chafwyd pryderon nad yw'r nod yn sicrhau y caiff hyn ei gyflawni gyda'r geiriad fel ag y mae. Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn pryderu o ganlyniad, efallai y bydd angen rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith i sicrhau na fydd y dysgwyr hyn dan anfantais o

gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nodwyd hefyd fod angen rhagor o wybodaeth ar y modd y caiff y nod ei gyflawni i sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd hon.

2. Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch ystyr '[nodweddion gwarchoddedig](#)' a effeithiodd ar ddealltwriaeth pobl o'r nod. Awgrymwyd bod angen egluro hyn yn y nod ei hun.
3. '[nodi materion difrifol](#)' – defnyddiwyd y geiriad hwn yn y ddogfen ymgynghori i egluro'r defnydd a wneir o ddata ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig ond teimlwyd bod hyn yn rhy amwys a bod angen ei egluro.
4. '[cyflawniad blaenorol](#)' – nododd rhai o'r ymatebwyr fod angen egluro'r term hwn er mwyn sicrhau bod pawb yn deall pa gyrhaeddiad roedd yn cyfeirio ato.

Nododd ymatebwyr hefyd fod Nodau 2 a 3 yn cwmpasu llawer o fwriad y nod hwn, ac felly ystyriwyd ei bod braidd yn 'rhyfedd' amlygu hyn fel nod ar wahân.

#### 2.14.4 Y defnydd o ddata

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr pa ddata fyddai'n cael eu defnyddio i nodi anomaleddau mewn deilliannau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr a sut y byddai'r data hyn yn cael eu caffael. Awgrymwyd y dylid cadarnhau data ar gyfer cohort y flwyddyn hon gyda chanolfannau oherwydd y gall dysgwyr mewn grwpiau penodol newid yn gymharol gyflym, ac felly gallai fod bylchau yn y data. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch materion diogelu data.

Codwyd rhai pryderon hefyd ynghylch y defnydd a wneir o ddata i gymharu deilliannau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr â blynyddoedd blaenorol ar lefel canolfan. Ar gyfer llawer o ganolfannau, mae nifer y dysgwyr â nodweddion penodol yn fach ac felly gall deilliannau amrywio'n sylweddol bob blwyddyn. Gofynnwyd hefyd sut y gellid nodi anomaleddau o'r fath mewn canolfannau newydd.

#### 2.14.5 Sylwadau eraill

Nid oedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y dull gweithredu yn deg nac yn gadarn ond ni wnaethant ymhelaethu ar hynny rhyw lawer os o gwbl er mwyn egluro pam, ac roedd eraill o'r farn bod y nod yn glodwiw ond gofynnwyd a fyddai'n bosibl ei gyflawni mewn gwirionedd.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen rhagor o fanylion ar sut y byddai dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu nodi a sut y byddai'r model yn lleihau unrhyw duedd a nodir ym marn canolfan, er mwyn ei helpu i lunio barn hyddysg. Teimlwyd hefyd y dylai CBAC gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar bob model safoni posibl ac ystyried hyn wrth benderfynu ar y model terfynol.

Mewn cysylltiad â'r cwestiynau yn yr adran nesaf ar y broses apelio arfaethedig, roedd ymatebwyr o'r farn y gallai peidio â galluogi dysgwyr unigol i apelio effeithio'n benodol ar y rheini â nodweddion gwarchoddedig y gallai eu graddau fod yn agored i duedd neu ddiffyg dealltwriaeth ynghylch sut y gallent berfformio mewn arholiad. Awgrymwyd y gallai galluogi dysgwyr i nodi eu hunain fel targedau tuedd posibl a chadarnhau eu data fod yn rhan ddefnyddiol o'r broses er mwyn sicrhau barn gywir ac felly atal apeliadau.


**Nod 5 - Bydd y prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob math o gymhwyster yn galluogi'r nifer mwyaf o ddysgwyr i gael graddau yn seiliedig ar ddull cyffredin. Bydd y prosesau yn defnyddio canlyniadau o gymwysterau ac unedau a gwblhawyd eisoes ac a ddyfarnwyd i ddysgwyr, lle y bo hynny ar gael.**

Ar gyfer Nod 5, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ar ddefnyddio canlyniadau o unrhyw gymwysterau ac unedau a gwblhawyd eisoes ac a ddyfarnwyd wrth gyfrifo graddau yr haf hwn, a ph'un a oedd yn briodol y gall y dystiolaeth a ddefnyddir i gyfrifo graddau felly amrywio ar draws mathau o gymwysterau.

**2.15 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?**

**Ffigur 6**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,585



Atebodd 3,585 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Fel y dangosir yn ffigur 6 isod, roedd 69.7% o'r ymatebwyr hyn naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig a dim ond 7.0% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Rhoddodd 1,177 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb. Mae'r sylwadau ysgrifenedig yn awgrymu bod nifer o'r ymatebwyr yn meddwl bod y cynnig yn nodi y byddai cyrhaeddiad mewn cymwysterau ac unedau blaenorol yn cael ei ystyried ar sail unigol ar gyfer deilliannau dysgwr ei hun y flwyddyn hon, yn hytrach nag ar sail cohort. Dylid cofio hyn wrth fyfrio ar y sylwadau yn yr adran hon.

Er bod y nod hwn yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad mewn unedau neu gymwysterau, ailbwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr eu pryderon ynghylch y defnydd o ffug arholiadau a gwaith dosbarth yn y model safoni. Roedd y pryderon a godwyd yn adlewyrchu'r rheini a amlinellwyd mewn ymateb i Nod 1.

**2.16 Cefnogaeth i'r cynnig**

**2.16.1 Gallai cyrhaeddiad mewn cymwysterau neu unedau a ddyfarnwyd eisoes fod yn ddangosydd da o ddeilliannau tebygol y flwyddyn hon**

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod hyn yn ddull geithredu teg am fod canlyniadau a gafwyd mewn cymwysterau neu unedau a gwblhawyd ac a ddyfarnwyd eisoes yn ddangosydd da o berfformiad dysgwyr dan amodau arholiad neu dan amodau a reolir. Nodwyd hefyd gan fod y gwaith hwn wedi cael ei farcio neu ei gymedroli gan CBAC, y bydd yn helpu i leihau unrhyw duedd a all fodoli yn nata asesu canolfannau ac yn helpu i gynnal

credadwyedd a hyder yn y system cymwysterau. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn o ganlyniad i hyn, mai'r dystiolaeth hon fydd y dystiolaeth gryfaf a mwyaf dibynadwy ac y dylid rhoi blaenoriaeth iddi yn y model safoni.

*Dyma'r syniad cryfaf gan ei fod yn profi'r hyn y gall pob unigolyn ei gyflawni dan amodau arholiad a dyma'r portread mwyaf dibynadwy.*

Nododd rhai o'r ymatebwyr fod defnyddio canlyniadau a gafwyd mewn unedau neu gymwysterau a ddyfarnwyd eisoes hefyd yn dangos yr hyn y gall dysgwyr ei gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, a oedd yn lleddfu rhai pryderon ynghylch y ffaith bod graddau yr haf hwn yn seiliedig ar waith a gwblhawyd hyd at fis Mawrth 2020 heb ystyried cynnydd a wnaed yn nhymor yr haf.

Cafwyd cefnogaeth benodol i ddefnyddio graddau a gafwyd mewn unedau sy'n cyfrannu at ddyfarnu'r cymhwyster yr haf hwn, fel arholiadau modiwlwr mewn TGAU Gwyddoniaeth, neu UG. Teimlwyd y byddai'r canlyniadau hyn yn ddangosydd da o allu dysgwr yn y pwnc hwnnw a gan y byddent yn cyfrannu tuag at y radd derfynol mewn amgylchiadau arferol, ystyriwyd ei bod ond yn deg eu bod yn cael eu defnyddio i lywio deilliannau y flwyddyn hon. Nodwyd hefyd gan fod dysgwyr wedi gweithio'n galed tuag at y deilliannau uned hyn, na fyddai'n deg eu diystyru.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r deilliannau hyn gael eu defnyddio fel sail ar gyfer cyfrifo graddau yn eu pwnc, yn arbennig lle mae dysgwyr eisoes wedi cwblhau cyfran sylweddol o'r cwrs, fel TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Gwyddoniaeth. Yn yr achos hwn, awgrymwyd na ddylai graddau terfynol fod yn is na'r graddau uned a ddyfarnwyd eisoes. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y byddai'n fuddiol ystyried y marciau a ddyfarnwyd yn yr unedau hyn i ganfod pa mor gyfforddus y cyflawnodd dysgwr y radd honno. Teimlwyd y gallai hyn leihau anfantaes bosibl i'r rheini a gollodd allan ar radd uwch o drwch blewyn. Roedd cefnogaeth benodol i'r defnydd o'r canlyniadau hyn lle mae dysgwyr ar draws pob canolfan wedi cwblhau'r unedau.

Cafwyd barn gymysg ynghylch defnyddioldeb deilliannau TGAU i ragweld deilliannau UG neu Safon Uwch. Nododd y rheini a oedd o'r farn y gallent fod yn ddangosydd defnyddiol gan fod yr arholiadau hyn yn cael eu cwblhau dan amodau arholiad a bod y deilliannau'n cael eu safoni gan CBAC, eu bod yn ddangosydd mwy dibynadwy o berfformiad tebygol yn yr haf o gymharu ag asesiadau mewnol. Trafodir pryderon ymatebwyr ynghylch defnyddio deilliannau TGAU i lywio canlyniadau UG neu Safon Uwch yn adran 2.17.2.

Cydnabu rhai o'r ymatebwyr fanteision cynnwys cyrhaeddiad mewn cymwysterau ac unedau a ddyfarnwyd eisoes, yn arbennig pan gânt eu hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth arall, fel graddau asesu canolfannau, asesiad diarholiad a gwblhawyd, p'un a oedd dysgwr ar fin ailsefyll uned a chynnydd dysgwyr ers eu hasesiad(au) blaenorol. Roeddent yn tueddu i nodi y dylid ystyried cymaint o dystiolaeth â phosibl yn y broses, a bod data cyrhaeddiad o'r fath yn rhan hanfodol o'r sail dystiolaeth honno. Nododd rhai o'r ymatebwyr fanteision edrych ar ddata ar gyrhaeddiad blaenorol i nodi anomaleddau yn nata asesu canolfannau.

## 2.16.2 Mae'n deg bod tystiolaeth yn amrywio ar draws cymwysterau

Nododd rhai o'r ymatebwyr yn benodol ei bod yn deg bod y dystiolaeth yn amrywio ar draws mathau o gymwysterau a phynciau. Nodwyd bod tystiolaeth ar gyfer pynciau bob amser yn amrywio oherwydd natur y pwnc a'r modd y caiff ei arholi, ac yn hynny o beth, mae'r dull gweithredu'n debyg i'r ffordd arferol o ddyfarnu cymwysterau. Ystyriwyd hefyd ei bod yn synhwyrol defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i gael darlun cyflawn o allu dysgwr.

*Mae'r dystiolaeth bob amser yn mynd i fod yn wahanol ar gyfer pob cymhwyster oherwydd natur y pynciau. Mae ond yn deg bod canlyniadau a geir o unrhyw uned y mae'r dysgwr eisoes wedi'i gofrestru ar ei chyfer yn cael eu defnyddio i helpu i bennu ei ganlyniad.*

Ystyriwyd ei bod yn bwysicach i rai ymatebwyr lle y defnyddir data ar gyrhaeddiad blaenorol, bod yn rhaid eu defnyddio'n gyson o fewn y pwnc hwnnw ac felly mai dim ond pan fydd pob dysgwr a gofrestrwyd ar gyfer cymhwyster wedi cwblhau'r un unedau neu gymwysterau yn flaenorol y dylid eu defnyddio. Awgrymwyd y gallai Cymwysterau Cymru gadarnhau'r amrywiad yn y dystiolaeth ar gyfer mathau gwahanol o gymwysterau er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddysgwyr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig, dan anfantais yn anfwriadol.

## 2.17 Pryderon ynghylch y cynnig

Rhoddwyd yr ystyriaethau a archwiliwyd yn yr adran hon gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r nod ond a oedd yn ochelgar, a'r rheini a oedd yn anghytuno neu'n ansicr. Rhoddodd rhai o'r ymatebwyr sylwadau cyffredinol ar y defnydd o ddata ar gyrhaeddiad blaenorol sydd eisoes wedi cael ei drafod mewn perthynas â Nod 3. Er mwyn osgoi ailadrodd, ni thrafodir y rhain eto yma.

### 2.17.1 Gall ymgeiswyr sy'n ailsefyll fod dan anfantais

Y pryder a fynegwyd amlaf oedd ynghylch p'un a fyddai cyrhaeddiad blaenorol yn cael ei ddefnyddio pan oedd dysgwr wedi'i gofrestru i ailsefyll uned yr haf hwn. Nodwyd bod dysgwyr yn aml yn gwella eu gradd pan fyddant yn ailsefyll uned, gyda rhai ymatebwyr yn ailgyfrif adegau pan maent wedi gwella eu gradd yn sylweddol wrth ailsefyll yn flaenorol.

Rhoddwyd sawl rheswm pam ei bod yn debygol y byddai graddau ymgeiswyr sy'n ailsefyll yn debygol o wella, yn cynnwys:

1. yn aml yr unedau a gymerir ym Mlwyddyn 10 yw'r tro cyntaf i ddysgwr sefyll arholiad allanol ac felly, gall y profiad o'r arholiad effeithio ar ei radd;
2. gall gymryd amser i rai dysgwyr addasu i'r arddull dysgu sy'n ofynnol ar gyfer cyrsiau Safon Uwch felly mae deilliannau UG yn is na'r hyn y bydd dysgwyr yn ei ddisgwyl;
3. mae gan ddysgwyr etheg gwaith gwell yn yr ail flwyddyn astudio neu yn sgil perfformiad siomedig;
4. gall dysgwyr fod wedi cael cymorth ychwanegol wedi'i deilwra, weithiau gan diwtor preifat;

5. mae gan ddysgwyr flwyddyn arall o brofiad a dealltwriaeth o'r pwnc;
6. gall dysgwyr fod wedi cael athro gwahanol a'i fod wedi ymgysylltu mwy ag ef;
7. mae dysgwyr wedi cael cyfle i fyfyrion ar yr arholiad, nodi ei feysydd gwannach a mireinio ei dechneg adolygu;
8. mae dewis ailsefyll arholiad yn dangos ymroddiad ac ymrwymiad i astudio sy'n awgrymu y bydd dysgwyr wedi'u cymell i astudio mwy er mwyn gwella eu gradd.

Nodwyd y gall ystyried perfformiad blaenorol mewn uned haenog fod yn arbennig o annheg oherwydd os bydd dysgwr wedi cael ei gofrestru ar gyfer yr haen anghywir gall ei ganlyniad fod wedi bod yn is o lawer na'r hyn y byddai wedi'i gael ar bapur ar y lefel briodol.

Awgrymwyd lle roedd dysgwyr ar fin ailsefyll uned, na ddylid cynnwys eu perfformiad yn yr unedau hyn yn y model safoni.

*Lle mae dysgwyr wedi'u cofrestru i ailsefyll unedau blaenorol ac y gallant fod wedi gwneud cynnydd sylweddol (yn enwedig myfyrwyr Safon Uwch sy'n ailsefyll unedau UG), dylid diystyru'r canlyniad gwreiddiol o blaid asesiad athro o'r hyn y byddai wedi'i gyflawni wrth ailsefyll.*

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu pe byddai cyrhaeddiad blaenorol mewn uned a oedd ar fin cael ei ailsefyll yn cael ei gynnwys yn y model safoni, ei bod yn annhebygol y byddai'r deilliannau ar gyfer y dysgwyr hynny yn adlewyrchiad teg o'u gallu presennol. Roedd ymatebwyr o'r farn yn yr achosion hyn y dylid dibynnu ar ddata asesu canolfannau oherwydd y bydd athrawon yn gallu cyfrif am berfformiad gwell dros y flwyddyn flaenorol. Teimlwyd y byddai defnyddio cyrhaeddiad blaenorol yn yr unedau hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar y cyfleoedd i wneud cynnydd ac ar lesiant dysgwyr sydd wedi gweithio'n galed i wella eu graddau.

I'r gwrthwyneb, roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y gall peidio ag ystyried yr unedau hyn yn y model safoni ar gyfer dysgwyr a oedd ar fin eu hailsefyll yn unig olygu bod gan y dysgwyr hynny fantais dros ddysgwyr eraill am fod cynnydd naturiol yn digwydd yn aml yn yr ail flwyddyn astudio, ac felly, mae'n annhebygol y byddai'r deilliannau ar gyfer dysgwyr eraill wedi gwella hefyd yr haf hwn.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu os caiff graddau a gyflawnwyd yn flaenorol mewn unedau UG a oedd ar fin cael eu hailsefyll yr haf hwn eu cynnwys yn y model safoni, y bydd dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â dysgwyr yn Lloegr. Nid yw dysgwyr yn sefyll arholiadau UG yn Lloegr felly ni all perfformiad gwael mewn arholiad UG ddod â gradd Safon Uwch dysgwr i lawr. Roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai hyn gael effaith ar ddysgwyr o Gymru sy'n cystadlu am leoedd prifysgol neu gyflogaeth â dysgwyr o Loegr.

Awgrymwyd os bydd y model safoni yn nodi amrywiad rhwng gradd asesu canolfannau a'r radd a gyfrifwyd, yna dylai canolfannau allu cyflwyno gwaith dysgwr i CBAC i ddangos y gwelliant a ragwelir. Mewn achosion lle mae dysgwr wedi gweithio gyda thiwtor preifat i wella ei ddealltwriaeth o uned, awgrymwyd y dylai'r tiwtoriaid preifat gysylltu â chanolfannau i drafod datblygiad y dysgwr ers yr asesiad blaenorol.



Awgrymwyd hefyd y dylai Cymwysterau Cymru archwilio data hanesyddol er mwyn pennu gwelliant cyfartalog dysgwyr sy'n ailsefyll arholiadau ac ystyried hyn yn y model.

Ar bwynt gwahanol, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid ad-dalu ffioedd cofrestru ar gyfer ailsefyll arholiadau i'r dysgwyr gan na fyddant yn gallu sefyll yr arholiadau hyn i wella eu gradd.

### 2.17.2 Rhaid cyfrif am y cynnydd ers yr asesiad cymhwyster blaenorol

Nododd nifer o ymatebwyr fod llawer o ddysgwyr yn perfformio'n well ar lefel Safon Uwch nag ar lefel UG. Roedd llawer o'r rhesymau a roddwyd dros hyn yn adlewyrchu'r rheini a drafodwyd yn Nod 3 neu mewn perthynas â'r ymgeiswyr sy'n ailsefyll uchod. Ymhlith y pwyntiau ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr roedd:

1. mae dysgwyr yn fwy cyfarwydd â'r arddull dysgu a'r cwestiynau arholiadau a gallant deilwra eu gwaith paratoi i ganolbwyntio ar feysydd oedd yn heriol iddynt ar lefel UG;
2. gall dysgwyr fod â mwy o gymhelliant yn yr ail flwyddyn astudio am eu bod wedi cael cynnig cyflogaeth neu le mewn prifysgol;
3. mae dysgwyr wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r pwnc ymhellach a gallant ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth yn eu hatebion mewn arholiadau;
4. mae llawer o ddysgwyr yn canolbwyntio ar lai o bynciau ar lefel Safon Uwch ac fel arfer maent yn fwy gwasgaredig fel arfer.

Rhoddyd rhesymau tebyg hefyd i egluro pam mae deilliannau unedau Blwyddyn 10 yn aml yn is na chanlyniadau TGAU terfynol, ynghyd â'r ffaith mai arholiadau unedau Blwyddyn 10 yw profiad cyntaf dysgwyr o arholiad allanol yn aml a gall y profiad eu helpu i baratoi'n well a chwblhau arholiadau ym Mlwyddyn 11.

O ganlyniad i'r pryderon a amlinellir uchod, awgrymwyd y dylid rhoi gradd derfynol sydd o leiaf yn cyfateb i'r rheini y byddent wedi'u cael mewn asesiadau allanol yn eu blwyddyn astudio flaenorol i ddysgwyr Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13. Awgrymodd eraill y dylai data ar gyrhaeddiad blaenorol fod yn gyfyngedig i ddeilliannau o'r flwyddyn academaidd hon, neu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyrhaeddiad o'r ail flwyddyn astudio yn y model nag ar gyrhaeddiad yn y flwyddyn astudio gyntaf.

Am resymau tebyg i'r rhai a amlinellwyd uchod, nododd rhai ymatebwyr ei bod yn annhebygol y bydd deilliannau TGAU yn ddangosydd da o ddeilliannau UG neu Safon Uwch. Cafwyd pryderon penodol ynghylch defnyddio perfformiad cyfartalog ar lefel TGAU i gyfrifo canlyniadau UG neu Safon Uwch gan fod gan y rhan fwyaf o ddysgwyr bynciau y maent yn rhagori ynddynt o gymharu ag eraill. Yn gyffredinol, bydd dysgwyr yn astudio pynciau y maent yn cyflawni'n well ynddynt ac yn eu mwynhau fwy ar lefel Safon Uwch ac felly, gall perfformiad cyfartalog ar lefel TGAU ragweld graddau is na'r hyn y gallant ei gyflawni. Nodwyd hefyd y gall yr arddull dysgu annibynnol a geir ar lefel Safon Uwch fod yn fwy addas i rai dysgwyr ac o ganlyniad, maent yn rhagori ar y cam hwn o'u haddysg.

### 2.17.3 Gwahaniaethau rhwng unedau o fewn cymwysterau

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn mai dim ond yn yr un pwnc ag y cofrestrwyd ar ei gyfer y flwyddyn hon y dylid ystyried cyrhaeddiad mewn cymwysterau blaenorol. Nodwyd fod rhai dysgwyr yn rhagori mewn rhai pynciau neu fath o bynciau, ond yn cael trafferth mewn eraill. Er enghraifft, byddai'n annheg i radd dysgwr sy'n rhagori mewn pynciau creadigol, fel Celf, fod yn seiliedig ar bwnc sy'n fwy heriol iddo, fel Gwyddoniaeth.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr eraill o'r farn y gallai cyrhaeddiad mewn pynciau tebyg fod yn ddefnyddiol. Er enghraifft, gall gradd mewn TGAU Mathemateg-Rhifedd fod yn ddangosydd da o gyrhaeddiad mewn TGAU Mathemateg. Cafwyd safbwyntiau amrywiol ar debygrwydd TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, gyda rhai o'r ymatebwyr yn awgrymu y gallai cyrhaeddiad mewn un helpu i gyfrifo cyrhaeddiad yn y llall, a rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y sgiliau a asesir yn rhy wahanol i'w cymharu.

*Hefyd, lle nad yw dysgwr wedi cymryd dim/rhai o'r unedau ar gyfer pwnc penodol, gall fod yn synhwyrol edrych ar raddau a gafwyd o bynciau tebyg sydd wedi'u cwblhau'n llwyr. Er enghraifft, os yw dysgwr wedi cwblhau Llenyddiaeth Saesneg yn llwyr ac wedi cael ei radd (e.e. gradd X), ond nad yw wedi cwblhau pob uned Saesneg Iaith, gellid ystyried bod y radd X a gafodd mewn Llenyddiaeth Saesneg yn ffordd dda o ddangos y radd y gallai'r dysgwr fod wedi'i chael ar ôl cwblhau pob uned Saesneg Iaith. Gellid cymhwyso hyn i Fathemateg a Mathemateg-Rhifedd hefyd.*

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch defnyddio canlyniadau unedau a ddyfarnwyd eisoes am fod gan unedau amcanion asesu gwahanol a bod sgiliau gwahanol yn cael eu hasesu yn aml. Un enghraifft a roddwyd oedd mewn TGAU Saesneg Iaith lle caiff yr asesiad llafar ei gwblhau'n gyntaf yn aml gan brofi sgil wahanol i'r arholiadau ysgrifenedig.

Nodwyd hefyd mewn rhai cymwysterau, efallai na fydd dysgwr wedi cwblhau ei uned gryfaf. Er enghraifft, yn y Dystysgrif Her Sgiliau, awgrymwyd oherwydd y gall dysgwyr ddewis pwnc sydd o ddiddordeb iddynt, eu bod yn aml yn rhagori yn y Project unigol, sydd hefyd yn cael ei gwblhau olaf yn aml. Awgrymodd eraill mai dim ond os bydd y dysgwr eisoes wedi cwblhau mwy na swm penodol o'r cymhwyster hwnnw y dylid ystyried cyrhaeddiad blaenorol mewn unedau.

Awgrymwyd hefyd mewn achosion lle mae athrawon gwahanol yn addysgu unedau gwahanol cymhwyster, y gallai ansawdd yr addysgu gael effaith ar y radd. Nodwyd yn benodol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau, bod rhai dysgwyr yn cael athro gwahanol ar gyfer pob un o'r heriau.

Nododd rhai o'r ymatebwyr mai dim ond os bydd pob dysgwr a gofrestrwyd eisoes wedi cwblhau'r unedau y dylid ystyried cyrhaeddiad blaenorol mewn unedau. Teimlai ymatebwyr ei bod yn hollbwysig bod cymwysterau ar gyfer pob dysgwr yn cael eu dyfarnu ar sail yr un dystiolaeth. Roedd pryderon hefyd y gall perfformiad gwael mewn arholiad blaenorol nad yw dysgwyr eraill yn y cohort wedi cofrestru ar ei gyfer effeithio ar rai dysgwyr. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd y dylai Cymwysterau Cymru archwilio'r modd y mae graddau dysgwyr wedi

gwella'n gyffredinol o unedau a safwyd yn gynnar i'w deilliannau terfynol mewn blynyddoedd blaenorol.

*Gall y dystiolaeth amrywio ar draws cymwysterau gwahanol, fodd bynnag, dylid lleihau hyn wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer yr un cymwysterau o ganolfannau gwahanol oherwydd bydd hyn yn creu amrywiadau wrth ddyfarnu'r graddau a all effeithio ar rai myfyrwyr yn gadanharol ac yn negyddol yn dibynnu ar y cynnydd a wnaed gan eu canolfan ar y gwaith a gwblhawyd.*

#### 2.17.4 Asesiad diarholiad

Er bod y nod yn cyfeirio at unedau a gwblhawyd ac a ddyfarnwyd, trafododd nifer o ymatebwyr gynnwys asesiad diarholiad a gwblhawyd gan ddysgwyr y flwyddyn hon, ac felly nad yw wedi cael ei ddyfarnu eto. Gan adlewyrchu sylwadau a amlinellir yn Nod 1 ynghylch p'un a ddylid defnyddio asesiad diarholiad i lywio graddau asesu canolfannau, mynegodd ymatebwyr hefyd safbwyntiau cymysg ar b'un a ddylai deilliannau asesiad diarholiad a gwblhawyd y flwyddyn hon gyfrannu at y dystiolaeth a ystyrir yn y model safoni.

Nododd yr ymatebwyr a oedd o'r farn y dylid cynnwys asesiad diarholiad a gwblhawyd y flwyddyn hon yn y broses o gyfrifo graddau fod dysgwyr wedi treulio llawer o amser ac ymdrech yn cwblhau'r gwaith a'i fod yn aml wedi'i gwblhau mewn amodau a reolir, fel y nodir gan CBAC. O ganlyniad, teimlwyd bod y gwaith yn ddangosydd da o'u gallu yn y pwnc hwnnw. Nodwyd hefyd fod rhai pynciau yn cael eu hasesu drwy asesiad diarholiad yn bennaf ac felly ei bod yn deg bod perfformiad yn yr elfennau hyn yn cael ei ystyried. Yn olaf, awgrymwyd y gellid defnyddio gwelliannau mewn asesiad diarholiad mewn canolfan i roi tystiolaeth o welliannau cyffredinol mewn deilliannau.

I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr eraill yn pryderu ynghylch cynnwys asesiad diarholiad a gwblhawyd y flwyddyn hon. Nododd ymatebwyr yr ystyrir bod yr uned asesiad diarholiad yn eu pwnc yn arbennig o anodd ac mai dyna'r elfen y mae llawer o ddysgwyr yn perfformio waethaf ynddi. Ar gyfer pynciau eraill, yn aml yr uned asesiad diarholiad yw rhai o'r unedau lle mae'r dysgwyr yn perfformio orau a gallai hyn olygu bod graddau'n cael eu chwyddo. Nodwyd hefyd y gall y ffordd y caiff asesiad diarholiad ei gwblhau amrywio ar draws canolfannau, a lle caiff ei farcio'n fewnol, nad yw wedi cael ei gymedroli'n allanol. O ganlyniad, gallai cysondeb deilliannau amrywio ar draws canolfannau.

Ymysg y pryderon eraill a godwyd ynghylch y defnydd o asesiad diarholiad a gwblhawyd y flwyddyn hon roedd:

1. ar gyfer rhai pynciau, hon fydd yr unig uned a gwblhawyd ac o ganlyniad, gallai ei chynnwys olygu bod dysgwyr sy'n perfformio'n well mewn arholiadau nag mewn asesiad diarholiad fod dan anfantais;
2. mae rhai dysgwyr wedi cwblhau eu hasesiad diarholiad gartref ers i'r ysgolion gau ac efallai nad oedd yr holl adnoddau gofynnol ar gael iddynt;
3. ni fydd pob dysgwr wedi ei gwblhau ac mae'n annheg ei ystyried ar gyfer rhai dysgwyr ond nid i eraill;

4. nid yw rhai pynciau yn cynnwys asesiad diarholiad, felly nid yw'n bosibl cael dull gweithredu cyson ar draws cymwysterau.

### 2.17.5 Prinder data ar gyrhaeddiad blaenorol

Gofynnodd rhai ymatebwyr sut y byddai'r dull gweithredu hwn yn effeithio ar ddysgwyr na ddyfarnwyd unrhyw unedau na chymwysterau iddynt eto, neu yr oedd eu cymwysterau blaenorol yn mynd yn ôl sawl blwyddyn ac felly eu bod yn llai perthnasol i'w perfformiad presennol. Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y byddai'r model yn graddio'r dysgwyr hyn, a chodwyd pryderon y gallai'r dysgwyr hynny sydd wedi dilyn cyrsiau TGAU llinol fod dan anfantais am na fydd ganddynt lawer o gyrhaeddiad blaenorol mewn cymwysterau.

Gofynnwyd hefyd sut y byddai'r dull gweithredu yn effeithio ar ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau UG mewn pynciau na wnaethant gwblhau TGAU ynddo, neu sy'n astudio cyrsiau Safon Uwch mewn blwyddyn ac felly nad oes ganddynt radd UG. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr pa gymwysterau fyddai'n cael eu hystyried yn yr achosion hyn. Er enghraifft, ai dim ond cyrhaeddiad ar lefel TGAU neu UG fyddai hyn, neu a fyddai cyrhaeddiad mewn cymwysterau galwedigaethol hefyd yn cael ei ystyried.

### 2.17.6 Blaenoriaethu data asesu canolfannau

Oherwydd y pryderon a amlinellwyd yn yr adran hon, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r model safoni naill ai flaenoriaethu data asesu canolfannau neu ddibynnu arnynt yn llwyr wrth gyfrifo graddau yr haf hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r rhesymau a roddwyd dros hyn yn adlewyrchu'r rhesymau a amlinellwyd mewn ymateb i Nod 3, ond nododd rhai ymatebwyr hefyd gan y bydd athrawon yn ystyried cyrhaeddiad blaenorol wrth lunio eu barn, y byddai ei gynnwys yn y model safoni yn golygu ei fod yn cael ei ystyried ddwywaith.

*Fy mhryder i yn hyn o beth yw os byddwch yn gofyn i'r gweithwyr addysgu proffesiynol nodi eu barn ar y radd y byddai pob un o'u disgyblion wedi'i chael, yna byddant yn ystyried unedau/cymwysterau blaenorol ac ati eu hunain – os byddwch wedyn yn derbyn eu barn ac yn defnyddio fformiwla arall ati neu'n ceisio ychwanegu unedau blaenorol at y farn honno eto, y byddwch yn gwanhau eu barn a fydd yn effeithio'n andwyol ar y disgyblion.*

Nododd rhai o'r ymatebwyr pan fydd trefn restrol canolfan a cyrhaeddiad blaenorol dysgwr yn gwrthdaro, ei bod yn hollbwysig rhoi blaenoriaeth i gynnal y drefn restrol oherwydd y bydd yn seiliedig ar farn canolfan ynghylch y cynnydd a wnaed gan y dysgwr ers yr asesiadau blaenorol.

### 2.17.7 Sylwadau eraill

Dehonglodd rhai o'r ymatebwyr bod y nod hwn yn cynnig mai cyrhaeddiad blaenorol fyddai'r unig fath o ddata a gaiff eu hystyried wrth gyfrifo graddau yr haf hwn. Nododd yr ymatebwyr hyn y byddai hyn yn annheg am na fyddai'n ystyried unrhyw waith y mae'r dysgwyr wedi gweithio'n galed i'w gwblhau y flwyddyn hon.

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am eglurder ar pa gyrhaeddiad blaenorol a ddefnyddir ar gyfer pa gymwysterau, a pha bwyslais a roddir arno yn y model safoni. Awgrymwyd y dylid esbonio hyn yn glir i bob canolfan.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn meddwl bod cyrhaeddiad blaenorol yn golygu y byddai graddau amcangyfrifedig, fel y rhai a geir gan ganolfannau profi ac asesu masnachol, yn rhan o'r model safoni. Heriodd yr ymatebwyr hyn y defnydd o'r data hwn am na chaiff ei ddefnyddio'n gyson ar draws canolfannau ac nid yw wedi cael i brofi i sicrhau ei fod yn gywir at ddibenion cyfrifo deilliannau terfynol cymwysterau.


### 3 Cyflwyno proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020

Ni fydd modd i ddysgwyr sy'n anfodlon â'u canlyniadau yr haf hwn apelio yn erbyn y farn broffesiynol a wnaed gan eu canolfan, nac ychwaith y weithdrefn a ddefnyddiwyd gan eu canolfan i gyrraedd y farn hon.

3.1 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

#### Ffigur 7

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,476



O'r 3,476 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 32.8% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ac roedd 45.8% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Darparodd 1,637 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i esbonio eu hymateb.

#### 3.2 Cefnogaeth i'r cynnig

##### 3.2.1 Mae'r cynnig yn diogelu ymreolaeth a didueddrwydd athrawon

Roedd yr ymatebwyr yn credu y byddai caniatáu apelïadau yn erbyn barn broffesiynol athrawon yn creu'r risg y byddai athrawon dan bwysau, neu'n teimlo dan bwysau mewn perthynas â'u penderfyniad. Byddai hyn yn eu hatal rhag bod yn wrthrychol yn y lle cyntaf, ond gallai hefyd olygu eu bod yn rhoi gradd uwch anhaeddiannol i ddysgwr o ganlyniad i'w apêl. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai athrawon yn agored i bwysau eleni am na fyddent, i gychwyn, yn cael eu diogelu gan y prosesau a fyddai ar waith wrth farcio arholiadau neu asesiadau di-arholiad ac, yn ail, nid oes safon gyffredin na meincnod cyffredin y gellir gwerthuso barn broffesiynol athrawon yn eu herbyn.

Hefyd, cododd yr ymatebwyr bryderon y gallai apelïadau arwain at wrthdaro rhwng teuluoedd dysgwyr a chanolfannau gan niweidio'r berthynas athro-dysgwr. Mynegwyd pryder y bydd y risg hwn yn gwneud athrawon yn llai gwrthrychol ac y bydd hefyd yn rhoi baich emosiynol arnynt, a hwythau eisoes o dan straen y sefyllfa anarferol o ddarparu data er mwyn helpu i gyfrifo graddau'r haf hwn. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau y gallai peidio â chaniatáu apelïadau gynyddu'r tensiynau rhwng canolfannau a rhieni.

*Yn seiliedig ar nifer y rhieni sydd eisoes yn cysylltu ag ysgolion er mwyn ceisio sicrhau bod eu plant yn cael y graddau a fydd yn eu helpu i gymryd y camau nesaf, byddwn yn*

*dweud bod hyn yn risg o bosibl os na chaiff ei rheoli'n ofalus – mae'n bosibl mai dileu'r broses apelio yw'r unig ffordd y gellir atal hyn.*

*Mae [caniatáu i ddysgwyr apelio] yn broblem oherwydd y goblygiadau i iechyd meddwl athrawon, y baich o graffu a honiadau yn ystod adeg mor ansicr, a gall ddechrau sgwrs am ddiffyg ffydd mewn athro.*

### 3.2.2 Mae'r cynnig yn sicrhau effeithlonrwydd ac yn atal unrhyw darfu

Roedd yr ymatebwyr yn credu y byddai dysgwyr yn gorlwytho canolfannau ag apelïadau pe caniateir iddynt apelio. Awgrymwyd y bydd angen i ganolfannau a CBAC dreulio cryn dipyn o amser ac adnoddau yn ymchwilio i'r apelïadau a fydd, yn y pen draw, yn effeithio ar ganolfannau ac yn tarfu ar yr addysgu yn y flwyddyn academaidd newydd.

*Byddai'n bwysau annioddefol ar ysgolion ar adeg pan fyddwn yn ceisio adfer normalrwydd.*

### 3.2.3 Mae caniatáu apelïadau yn anymarferol

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y bydd apelïadau yn erbyn barn broffesiynol yn anodd iawn ei arfer yn effeithiol, os nad yn amhosibl.

Yn gyntaf, dywedodd yr ymatebwyr nad oedd unrhyw feincnod na set o safonau yn cael eu defnyddio y gellid gwerthuso barn broffesiynol athrawon yn eu herbyn. Yr unig beth y gallai apêl ei chyflawni fyddai cywiro gwallau data, ac mae'r cynnig ehangach yn cynnwys hyn yn barod. Roedd yr ymatebwyr yn credu y bydd archwilio apêl, mewn gwirionedd, yn golygu craffu ar yr un dystiolaeth eto ac ailddatgan y farn.

Yn ail, dywedodd yr ymatebwyr y byddai dysgwyr yn ei chael hi'n anodd profi'r apelïadau am mai'r canolfannau fydd yn cadw'r data. At hynny, ni all dysgwyr unigol wybod yn deg pa wybodaeth gyd-destunol a ystyriwyd i gyrraedd y penderfyniadau a wnaed am raddau, neu'r system raddio a ddefnyddiwyd gan ei ganolfan.

*Nid wyf yn siŵr pa dystiolaeth y gellid ei chasglu gan ddisgybl/rhiant i wneud achos am apêl, oni fydd graddau'n wahanol iawn i'r rheini a gyflwynwyd mewn adroddiadau rheolaidd fel y'u rhagwelwyd.*

*Yn y sefyllfa bresennol, byddai'n rhy anodd barnu ar sail tystiolaeth a gyflwynir o wahanol bynciau neu ganolfannau, ac felly, byddai ymchwilio i radd unigol yn ddiwerth.*

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gallai apêl gan ddysgwyr a oedd wedi gwneud cais am lle mewn prifysgol ohirio dyfarnu eu graddau a'u hatal rhag cael lle mewn prifysgol.

### 3.2.4 Ymddiried ym marn broffesiynol athrawon

Teimlai'r ymatebwyr, yn y sefyllfa eithriadol eleni, mai athrawon oedd yn y sefyllfa orau bosibl i wneud asesiad teg a dibynadwy o'r hyn y byddai eu dysgwyr wedi ei gyflawni. Bydd gan ganolfannau brosesau gwirio a chydbwyso cywir ar waith cyn iddynt gymeradwyo'r graddau. Felly, roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai rhanddeiliaid ymddiried yn hygyrdded a phroffesiynoldeb yr athrawon i wneud y penderfyniadau gorau posibl.

*Mae llawer o waith wedi cael ei wneud er mwyn dyfarnu gradd i'r myfyrwyr hyn gan ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael. Mae angen parchu proffesiynoldeb athrawon ym mhob rhan o'r wlad. Mae graddau asesu canolfan yn ganlyniad system dryloyw a chadarn, ac mae'n cynrychioli'r hyn sy'n gywir a theg ym marn athrawon ac ysgolion. Felly, ni ddylid caniatáu'r cyfle i apelio yn erbyn barn broffesiynol y ganolfan.*

### 3.3 Pryderon am y cynnig

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno a esboniodd eu hatebion yn cynnwys rhesymau amrywiol dros ganiatáu i ddysgwyr apelio yn erbyn barn broffesiynol athrawon. Cyn amlinellu'r rhesymau hynny, mae'n ddefnyddiol disgrifio sut y gwnaethant ddadlau y gellid rhoi apêl ar waith.

Roedd yr ymatebwyr yn credu y dylid rhoi proses apelio ffurfiol ar waith gyda chanllawiau clir i'r rhai hynny sy'n apelio. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai apelïadau fod am ddim ac y dylai canolfannau ddogfennu'r holl dystiolaeth a ddefnyddir, fel y byddai'n bosibl i ddysgwyr herio'u barn broffesiynol. Er mwyn sicrhau bod athrawon yn ddiduedd, roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu na fyddai angen yr holl wybodaeth ar ddysgwyr o bosibl. Yn yr un modd, er mwyn lleihau'r pwysau ar ganolfannau a CBAC, awgrymwyd y gallai dysgwyr gael trafodaeth gychwynnol anffurfiol â'r ganolfan ac ond apelio os na fyddant yn fodlon.

Amlinellodd yr ymatebwyr sawl dull o roi proses apelio ar waith:

- Hawl i apelio i'r ganolfan yn unig. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gallai athrawon adolygu'r apelïadau, tra bod eraill yn awgrymu y dylai rhywun allanol, neu o leiaf panel o athrawon o'r ganolfan a chymedrolwyr allanol, archwilio'r apelïadau.
- Dull fesul cam lle y dylid cysylltu â'r ganolfan yn gyntaf. Os na fydd dysgwyr yn fodlon, gallent apelio i CBAC ar ôl hynny i adolygu pob agwedd, gan gynnwys tegwch y farn broffesiynol.
- Hawl i apelio i CBAC a ddylai adolygu pob agwedd, gan gynnwys tegwch y farn broffesiynol.

Wrth ateb y cwestiwn hwn, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at yr apelïadau yn erbyn y farn broffesiynol, a gwnaeth eraill sylwadau am yr apelïadau yn erbyn y graddau terfynol. Yn dibynnu ar eu perthnasedd, cafodd y sylwadau olaf hyn eu cynnwys yn y canfyddiadau o dan y cwestiwn hwn neu'r cwestiynau dilynol. Lle nad oedd yn glir p'un a oedd ymatebydd yn



cyfeirio at y cwestiwn hwn neu'n edrych ar safbwynt ehangach (y rhan fwyaf o'r achosion), ystyriwyd bod y sylwadau yn cyfeirio at y cwestiwn hwn.

## **Pam y dylid caniatáu apeliadau**

### **3.3.1 Dylai dysgwyr gael yr hawl i apelio**

Y rheswm mwyaf cyffredin, o bell ffordd, a roddodd yr ymatebwyr dros fod yn erbyn y cynnig oedd bod apeliadau yn rhan gynhenid o'n cymdeithas ddemocrataidd ac yn rhan hanfodol o gyfiawnder naturiol. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai peidio â chaniatáu i ddysgwyr apelio hefyd yn torri Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n sicrhau bod gan blant yr hawl i gymryd rhan a mynegi eu barn ar faterion sy'n bwysig iddynt. Nodwyd bod y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, wrth sôn am roi'r hawliau hyn ar waith, yn nodi y dylid darparu system unioni a chwyno ddiogel a hygyrch i bobl ifanc, a'r awdurdod i farnu honiadau a wneir gan oedolion. (Sylw Rhif.20 (2016) paragraff 23.)

Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod peidio â chael apelio yn annheg i bobl ifanc gan y byddent wedi'u heithrio o broses penderfynu a oedd yn gysylltiedig â nhw. Awgrymwyd y byddai system apelio a oedd yn syml ac yn glir yn diogelu hawl teuluoedd o gefndiroedd dan fwy o anfantais i gydraddoldeb a dim gwahaniaethu gan y byddai'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn gallu ei defnyddio.

Nodwyd hefyd bod y cyfarwyddyd a roddwyd i Cymwysterau Cymru gan Lywodraeth Cymru yn nodi fod camau cyfeirio ar gael i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn credu y dilynwyd y broses yn gywir wrth ddyfarnu eu graddau.

### **3.3.2 Gall barn athrawon roi amcangyfrif rhy isel o'r graddau go iawn**

Roedd yr ymatebwyr yn poeni y gall athrawon roi amcangyfrif rhy isel o raddau'r dysgwyr. Er enghraifft, ystyriwyd y byddai athrawon yn amharod i ymrwymo i ragfynegi A\*, er y byddent yn ei ragfynegi fel arall. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn poeni y byddai graddau asesu canolfannau yn is am nad oedd gwerthusiad athrawon a pherfformiad dosbarth bob amser yn gynrychioliadau dibynadwy o'r ffordd y bydd dysgwr yn perfformio yn ystod arholiadau. Rhoddwyd dau reswm dros eu pryder.

- 1. Mae profion ffurfiannol a pherfformiad yn y dosbarth yn wahanol i berfformiad mewn arholiadau**

Pryd bynnag y bydd dysgwyr yn llunio eu gwaith ysgol, bydd wedi cael ei wneud ar y sail na fyddai byth yn cael ei ddefnyddio i bennu eu gradd. Awgrymwyd bod gwaith dosbarth ac arholiadau ffug yn gyfle i nodi gwendidau a gwella, ac nid er mwyn dangos perfformiad. Felly, nid oes cymaint o adolygu ac ymdrech yn mynd i mewn i'r gwaith hwn, o gymharu â pharatoadau ar gyfer arholiadau. O ganlyniad, anaml iawn y bydd gwaith dosbarth yn adlewyrchu gwir botensial dysgwyr.

*Ni lwyddais yn y rhan fwyaf o fy arholiadau TGAU ffug, ond llwyddais i gael gradd uwch na C ym mhob un o fy nghymwysterau TGAU.*

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod amodau arholiadau yn fwy ffafriol nag amodau ystafell ddosbarth i berfformio'n well. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn poeni y gall athrawon fod wedi marcio arholiadau ffug gan ddefnyddio dull asesu ffurfiannol (e.e. marcio mwy llym ar gyfer cyflawnwyr uwch er mwyn eu cymell) ac felly fe'u gwelwyd yn llai dibynadwy a safonol o gymharu â dulliau marcio arholiadau. Roedd pryder hefyd y gall athrawon fod yn llai systematig wrth farcio gwaith dosbarth o gymharu â marcio arholiadau.

## 2. Gall athrawon fod yn anymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod barn broffesiynol yn dibynnu'n fawr ar athrawon yn adnabod pob un o'u dysgwyr yn dda iawn. Felly, roeddent o'r farn y gall dysgwyr fod o dan anfantais os nad oedd gan yr athrawon ddarlun cyfredol a chywir o alluoedd y dysgwyr. Nododd yr ymatebwyr sefyllfaoedd amrywiol lle roeddent o'r farn y gallai hyn ddigwydd:

- Dysgwyr neu athrawon sydd wedi ymuno â'r ysgol yn ddiweddar
- Dysgwyr neu athrawon sydd wedi bod yn absennol am gyfnodau estynedig neu ganolfan sydd â throsiant athrawon uchel
- Athro sydd â gormod o ddysgwyr i'w hadnabod i gyd yn dda
- Efallai na fydd gan rai pynciau ddigon o dystiolaeth i gyfrifo gradd ddibynadwy
- Efallai na fydd dysgwyr wedi gallu datgan amodau neu amgylchiadau arbennig a fyddai wedi effeithio ar eu perfformiad mewn asesiadau mewnol gan nad oedd system ar waith i'w datgan a'u hystyried fel sydd ar gyfer arholiadau. Awgrymwyd y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn drwy gynnwys arbenigwyr wrth lunio'r farn broffesiynol (e.e. gwahodd Athrawon Cymwys ar gyfer Plant Byddar yn achos plant byddar)
- Nid yw tiwtora preifat ac astudiaethau ychwanegol i wella perfformiad yn hysbys nac yn cael eu hystyried.

*Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i fyfyrwyr sy'n dioddef, neu sydd wedi dioddef gydag unrhyw broblemau iechyd meddwl, gan y bydd hwn yn effeithio ar eu dysgu. Os oedd myfyrwyr yn sefyll arholiadau, gallent gael llythyr meddygol yn rhoi tystiolaeth o unrhyw faterion, er mwyn ei gyflwyno i'r bwrdd arholi am ystyriaeth arbennig. (...) Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r myfyriwr yn dibynnu ar ymwybyddiaeth athro bob pwnc o unrhyw anawsterau sydd ganddo o bosibl.*

*Caiff fy mab ei farnu'n rhy aml ar ei anallu i ysgrifennu, sy'n broblem gorfforol o ganlyniad i gydsymud gwael iawn [a achosir gan ddyspraxia]. Mae ar ei orau mewn arholiadau gydag ysgrifennydd.*

*Rwyf ym mlwyddyn 10 ac ar fin cael gradd yr haf hwn ar gyfer fy nghymhwyster busnes. Nid oedd unrhyw waith cwrs nac unedau blaenorol i'w cwblhau. Rwy'n poeni na fyddaf yn cael y radd yr oeddwn yn gweithio arni oherwydd diffyg tystiolaeth.*

Mewn perthynas â thystiolaeth a ddefnyddir i lywio barn, nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn fodlon nad oedd marcio neu gymedroli gwaith cwrs yn allanol, a fyddai wedi sicrhau bod graddau'r dysgwyr yn fwy dibynadwy nag asesiad athrawon, wedi cael ei gynnal.

### 3.3.3 Tuedd athrawon

Roedd yr ymatebwyr o'r farn nad oedd gan y system arfaethedig ddigon o ddulliau diogelu yn erbyn tuedd athrawon, yn wahanol i arholiadau ac asesiadau di-arholiad. Er y cydnabuwyd y dylid diogelu athrawon rhag pwysau gormodol gan ddysgwyr, teimlwyd y dylid diogelu dysgwyr hefyd rhag tuedd athrawon.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gallai rhai athrawon, er enghraifft, fod yn hoff o ddysgwyr penodol neu beidio â hoffi dysgwyr penodol, boed hynny'n fwriadol neu'n anymwybodol. Roedd rhai o'r ymatebwyr eraill yn poeni y gallai rhai athrawon neu ganolfannau, hyd yn oed, fod yn fwy llym neu hael nag eraill. Yn yr achos hwn, gallai grwpiau o ddysgwyr fod o dan anfantais yn dibynnu ar y ganolfan y maent yn ei mynychu neu'r athro unigol sy'n rhoi'r farn.

*Bydd gwrthdaro o ran personoliaethau bob amser rhwng athrawon a myfyrwyr penodol. Gall hyn effeithio ar y radd y dyfernir iddynt. Bydd hyn yn glir i'r myfyriwr a dylid rhoi'r hawl i apelio iddo*

*Yn fy mhrofiad i, rhoddir mwy o ganmoliaeth i fyfyrwyr llafar na'r rhai hynny sy'n dawel ac sy'n bwrw ati. Yn aml, amcangyfrifir graddau is i ferched na'r hyn yr ânt ymlaen i'w gyflawni mewn pynciau STEM, ac amcangyfrifir graddau uwch i fechgyn na'r hyn yr ânt ymlaen i'w gyflawni mewn pynciau STEM.*

### 3.3.4 Mae apelïadau yn rhan hanfodol o'r broses ddyfarnu

Mae'r hawl i apelio bob amser wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses ddyfarnu. Roedd yr ymatebwyr o'r farn na ddylai'r system ddyfarnu arfaethedig fod yn eithriad i'r rheol hon. Ni esboniwyd hyn fel mater o ddilyn traddodiad, ond fel mater o degwch. Teimlwyd y byddai gwrthod yr hawl i apelio yn rhoi dysgwyr a oedd wedi cael eu graddau yn ystod y blynyddoedd diwethaf dan anfantais gan eu bod wedi cael y cyfle i ofyn am adolygiad.

### 3.3.5 Atebolrwydd

Er bod rhai o'r ymatebwyr o'r farn ei fod yn ddealladwy bod athrawon, o dan y cynnig presennol, yn teimlo'n rhydd rhag pwysau diangen wrth bennu'r graddau a'r drefn restrol, roedd yr ymatebwyr yn dal i fod o'r farn ei fod yn annerbyniol bod barn athrawon yn cael ei heithrio rhag cael ei hadolygu. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai peidio â defnyddio'r broses apelio yn arwain at ddiffyg atebolrwydd a thryloywder.

Felly, awgrymwyd y byddai'r posibilrwydd o graffu ar apeliadau yn annog canolfannau i fod mor ddiwyd â phosibl. Byddai gwahardd hyn yn agor y ffordd i gamdriniaeth, ac ystyriwyd ei fod yn awdurdodol ac yn unbenaethol.

*Rydym yn weision cyhoeddus a dylem fod yn atebol i'r cyhoedd. Dylai gweithwyr addysg proffesiynol deimlo'n hyderus bod y graddau y maent yn eu dyfarnu yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth.*

*Y canolfannau, mewn gwirionedd, yw'r barnwr, y rheithgor a'r gweithredwr.*

*Nid yw cymeradwyaeth gan bennaeth canolfan, mewn gwirionedd, yn llawer mwy na dangos ychydig o arwydd o archwilio.*

### 3.3.6 Mae apeliadau yn sicrhau cywirdeb graddau

Roedd yr ymatebwyr o'r farn, er y byddai'r farn yn gywir yn y rhan fwyaf o achosion, y byddai yna siawns bob amser y byddai athrawon yn gwneud camgymeriadau. Ystyriwyd y byddai hyn yn fwy tebygol, o ystyried bod y dull arfaethedig yn newydd ac yn cael ei ystyried yn oddrychol gan ei fod yn dibynnu ar farn yr athrawon. Felly, gwnaethant awgrymu y dylid rhoi proses ddilysu gadarn ar waith a ddylai gynnwys y cyfle i apelio.

### **Effaith peidio â chaniatáu apeliadau**

#### 3.3.7 Risg gynyddol o heriau cyfreithiol

Roedd yr ymatebwyr yn poeni y byddai peidio â chaniatáu apêl yn arwain at ddysgwyr yn defnyddio llwybrau cyfreithiol i herio barn broffesiynol fel ceisiadau a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gweithdrefn gwyno ysgolion, yr adolygiad barnwrol a cheisiadau data personol y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Os bydd yr her gyfreithiol yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn cael mynediad i'r farn broffesiynol. Byddai hyn yn achosi risg debyg i ymreolaeth athrawon fel apêl.

Roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn y gallai heriau cyfreithiol fod wedi cael ymateb negyddol ledled y wlad gan y byddent yn datgelu'r gwahaniaethau anorfod rhwng canolfannau wrth lunio'r farn. Teimlwyd hefyd y gall heriau cyfreithiol adael canolfannau yn agored i ymgyfreitha camymddwyn, hyd yn oed pan fo canolfannau wedi gweithredu yn unol â'u barn broffesiynol.

Er bod rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai gwarantau cyfreithiol i atal heriau cyfreithiol fodoli, awgrymodd eraill y byddai proses apelio syml yn llai gwrthdrawol a niweidiol na her gyfreithiol.

### 3.3.8 Hyder is yn y cymwysterau a ddyfernir

Mae'n rhaid i arweinwyr, prifysgolion, cyflogeion a rhanddeiliaid eraill deimlo'n hyderus bod y graddau wedi cael eu pennu'n deg ac yn gywir. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y caiff camgymeriadau eu gwneud a bydd methiant i apelio'r farn broffesiynol neu'r radd derfynol yn achosi risg o danseilio ymddiriedaeth yn y system a'r cymwysterau a ddyfernir.

*Nid yw'r dull hwn o asesu wedi cael ei brofi ac mae'n bwysig bod dysgwyr yn teimlo y gwrandewir ar eu pryderon er mwyn cynnal hyder yn y system. Bydd ceisio cyfyngu ar hyn, waeth pa mor dda yw'r bwriadau, yn tansilio hyder bod yr asesiad yn gadarn, yn atebol ac yn deg.*

### 3.3.9 Canfyddiadau'r cyhoedd bod buddiannau dysgwyr wedi'u diystyru

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y rhesymau dros beidio â gadael i ddysgwyr apelio yn ymddangos fel petaent yn canolbwyntio ar ddiogelu athrawon, yn hytrach na chyflawni canlyniad teg a thryloyw i'r dysgwyr. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yna risg y gellid credu bod pryderon athrawon yn bwysicach i'r system nag anghenion dysgwyr, os mai dyma yw canfyddiadau'r cyhoedd. Mae'r risg hyd yn oed yn fwy o ystyried, fel yr ystyriwyd gan yr ymatebwyr, y gallai system apelio sicrhau lefel benodol o ddiogelwch i athrawon o hyd. Awgrymwyd hefyd nad oedd ofn llwyth gwaith yn rheswm derbyniol dros atal apeladau.

### 3.3.10 Effaith negyddol ar lesiant iechyd meddwl

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y bydd atal dysgwyr rhag apelio neu eu hatal rhag cyfrannu tystiolaeth o leiaf, a chael esboniad am y ffordd y gwnaed y dyfarniadau yn ychwanegu at eu gorbryder a'u baich emosiynol yn barod.

*Yn bersonol, rwy'n ei chael hi'n anodd delio â'r ffaith nad oes gennyf reolaeth dros y mater o gwbl.*

*Bydd myfyrwyr yn teimlo'r straen a byddant yn teimlo'n isel, heb os, os na fyddant yn cael herio'r graddau a ddyfarnwyd iddynt mewn unrhyw ffordd.*

## **Awgrymiadau amgen a ddarparwyd gan yr ymatebwyr**

### 3.4.1 Galluogi dysgwyr i sefyll arholiadau

Galluogi dysgwyr i sefyll arholiadau oedd yr awgrym a ffafriwyd fwyaf gan yr ymatebwyr. Roeddent yn ei weld fel opsiwn amgen i'r cynnig presennol neu fel cam dilynol i broses apelio. Yn yr ail achos hwn, roedd nifer yn dadlau y dylai dysgwyr gadw eu gradd uwch.

Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylid cynnig y cyfle i sefyll arholiadau cyn gynted ag y bo'n ddiogel (mis Medi – mis Hydref o bosibl), naill ai drwy drefnu cyfres arholiadau arbennig yn ystod yr hydref neu'r gaeaf, neu drwy ymestyn cyfres arholiadau mis Tachwedd neu fis Ionawr. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal arholiadau cyn i bandemig COVID-19 ddod i ben drwy gadw pellter cymdeithasol neu drwy drefnu arholiadau llyfr agored fel y gwnaeth rhai prifysgolion. Ystyriwyd y byddai'r awgrym hwn yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 gan y bydd angen i'r dysgwyr hyn benderfynu ar eu camau nesaf yn fuan.

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffafrio arholiadau gan eu bod o'r farn mai canlyniadau arholiadau oedd yr unig gynrychiolaeth gywir o'u galluedd. At hynny, roedd rhai yn credu y byddai dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â dysgwyr yn Lloegr gan fod Lloegr yn caniatáu i ddysgwyr sefyll arholiadau os byddant yn anhapus â'u canlyniadau. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais, naill ai am na fydd gan y graddau a ddyfernir yng Nghymru yr un hygredded â'r rhai hynny a ddyfernir yn Lloegr, neu oherwydd y gallai dysgwyr yn Lloegr ailsefyll er mwyn gwella eu graddau, sy'n gwella eu siawns o gael lle mewn prifysgol (gan gymryd bod y penderfyniadau derbyn yn digwydd ar ôl yr arholiadau ailsefyll). At hynny, bydd angen i ddysgwyr yng Nghymru, o dan y dull awgrymedig, aros blwyddyn cyn ailsefyll arholiad.

Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai anfantais i alluogi arholiadau hwyr gan y byddai'r dysgwyr yn eu sefyll sawl mis ar ôl cael eu gwrs olaf. Awgrymwyd y byddai hyn yn ei gwneud hi'n anoddach paratoi ar gyfer yr arholiadau, yn enwedig gyda'r angen i astudio ar gyfer pynciau eraill.

### 3.4.2 Rhoi gwybod i ddysgwyr am y dystiolaeth a ddefnyddiwyd a chaniatáu iddynt awgrymu tystiolaeth ychwanegol

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai canolfannau o leiaf roi gwybod i ddysgwyr am y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r farn broffesiynol. Roeddent o'r farn y bydd hyn yn cynnig cyfle i gynnwys y dysgwyr mewn ffordd adeiladol, yn cyflwyno mwy o dryloywder, a gallai leihau'r angen i gyflwyno apêl.

Nid oedd yr ymatebwyr o'r farn bod y syniad hwn yn ddadleuol gan eu bod yn credu y byddai nifer o ganolfannau wedi rhannu'r graddau disgwylidig â dysgwyr yn barod. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai didueddrwydd athrawon yn cael ei ddiogelu'n ddigonol gan nad yw'r awgrym hwn yn gofyn am ddatgeliad llawn.

Aeth sawl ymatebydd gam ymhellach ac awgrymu y dylid caniatáu i ddysgwyr awgrymu tystiolaeth y dylid ei hystyried gan y canolfannau. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn o'r farn y dylai dysgwyr awgrymu'r dystiolaeth a luniwyd hyd at y pwynt lle caewyd yr ysgolion yn unig. Roeddent o'r farn y gallai'r gwaith a wnaed ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i rym fod yn annibynadwy am nad oedd modd ei ddilysu fel gwaith y dysgwyr neu am ei fod yn bosibl nad oedd modd i'r dysgwyr gwblhau'r tasgau yn gywir (am fod COVID-19 wedi effeithio ar

aelod o'r teulu, er enghraifft). Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y gallai dysgwyr awgrymu unrhyw wybodaeth berthnasol gan y byddai hyn yn cynyddu'r cyfle i gael barn gywir.

### 3.4.3 Galluogi hawl cyfyngedig i apelio

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai caniatáu apelïadau yn erbyn barn athrawon yn creu'r posibilrwydd o nifer o apelïadau a'r angen i wneud llawer o waith. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gellid rheoli hyn drwy gyfyngu ar yr hawl i apelio neu drwy ei ganiatáu mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig. Roedd y sefyllfaoedd a awgrymwyd fel a ganlyn:

- Caniatáu i ddysgwyr apelio yn erbyn un neu rai graddau/dyfarniadau yn unig.
- Caniatáu i ddysgwyr apelio yn erbyn y graddau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen i'w camau/opsïynau dewisedig nesaf.
- Caniatáu i ddysgwyr apelio yn erbyn y graddau methu neu'r graddau sy'n sylweddol is na'r canlyniadau targed (e.e. dysgwr yn ennill gradd A yn yr arholiad ffug ond dyfernir gradd C iddo).
- Caniatáu i ddysgwyr apelio os gallant gyfiawnhau a dangos tystiolaeth o ymdrech neu ddysgu ychwanegol (e.e. gwersi preifat a gwersi ychwanegol).
- Caniatáu apêl os bydd y ganolfan/athro yn ei chefnogi.
- Caniatáu i ddysgwyr sydd wedi colli ysgol oherwydd amgylchiadau personol eithriadol (e.e. salwch) apelio.
- Caniatáu i ddysgwyr sydd â chyflyrau penodol (e.e. plant sydd ar y sbectrwm awtistig, plant byddar) apelio.

Roedd y mwyafrif o'r rheini a gyflwynodd yr awgrymiadau hyn yn cytuno y byddai dysgwyr ond yn cael gwneud apêl o'r fath os caiff ei chefnogi â thystiolaeth ategol (e.e. llythyr gan diwtor), ac na ddylid cael gwneud apêl dim ond am fod y dysgwr yn siomedig ynghylch y radd a ddyfarnwyd.

### 3.4.4 Darparu canllawiau i sicrhau cysondeb ymysg canolfannau

Er bod yr ymatebwyr yn derbyn na allai'r canolfannau ddefnyddio'r un math o dystiolaeth i lunio eu barn, roeddent yn poeni y byddai gwahaniaethau mawr yn y dulliau a ddefnyddir gan y canolfannau.

Er mwyn sicrhau dull teg i'r holl ddysgwyr, roeddent o'r farn y dylid cyflwyno rhywfaint o ganllawiau ar y dystiolaeth y dylid ei defnyddio a'r pwysoliad a roddir i bob math o dystiolaeth.

*Byddai'n dda petai Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi'r rheolau a'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth raddio dysgwyr, at ddibenion tryloywder a hyder.*


Roedd rhai o'r farn bod angen cymedroli ar draws pob canolfan er mwyn sicrhau nad oes tuedd leol a bod y canlyniadau yn rhesymol o gymharu â thueddiadau hanesyddol.

Bydd modd i ganolfannau apelio i CBAC ar y sail ei fod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo gradd, os bydd y graddau amcangyfrifedig a gynhyrchwyd gan y model safoni ystadegol wedi'u dyrannu neu eu cyfathrebu'n anghywir a/neu os bu unrhyw fethiant gweithdrefnol arall ar ran CBAC.

### 3.5 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 8**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,387



O'r 3,387 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 84.8% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ac roedd 3.2% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Darparodd 695 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i esbonio eu hymateb.

### 3.6 Cefnogaeth i'r cynnig

Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig ei fod yn cynnwys cynllun da a dadl dda. Roeddent o'r farn bod caniatáu i'r ganolfannau apelio yn cynyddu'r [hyder yng nghywirdeb](#) y graddau. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod y dyfarnu yn fwy [tryloyw](#), [atebol a theg](#). Ystyriwyd bod yr agwedd ddiwethaf yn arbennig o bwysig, o ystyried na fyddai dysgwyr yn cael apelio, a dylai apêl gan eu canolfan sicrhau bod unrhyw gamgymeriad posibl yn cael ei gywiro.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig am eu bod o'r farn bod [canolfannau mewn sefyllfa well i apelio](#) na dysgwyr. Yn eu barn nhw, byddai caniatáu apeliadau gan ganolfannau yn unig yn lleihau nifer yr apeliadau diangen. Datblygwyd y syniad hwn ymhellach gan yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn nesaf, felly mae mwy o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn y canfyddiadau o dan y cwestiwn hwnnw.

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cytuno â'r sail dros apelio a awgrymwyd. Roeddent o'r farn na ellid adolygu unrhyw agwedd arall mewn modd defnyddiol mewn apêl yn y sefyllfa bresennol. Roeddent hefyd o'r farn y bydd cyfyngu'r apeliadau i dri sail yn unig yn cynyddu [effeithiolrwydd](#) y broses gyfan ymhellach.

*Bydd y dull hwn yn caniatáu i weithwyr proffesiynol herio'r canlyniadau'n briodol gan fod yn ymwybodol o'r modelu ystadegol a ddefnyddir ac wrth wneud hynny, sicrhau mwy o hyder yn y system.*



### 3.7 Pryderon am y cynnig

Mynegodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno eu pryder y byddai canolfannau yn defnyddio'r cynnig i lawnsio apeliadau 'sy'n bachu cyfleoedd' ac apeliadau 'ar hap'. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn gorlethu CBAC. Roedd pryderon hefyd y gallai'r broses fod yn agored i gamymarfer oherwydd gallai canolfannau newid eu graddau neu eu trefn restrol cychwynol a chyflwyno apêl yn honni eu bod wedi gwneud camgymeriad data.

Er mwyn osgoi achosion o wneud camddefnydd o'r broses apelio, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr na ddylid caniatáu i'r canolfannau apelio ar sail cyflwyno'r data anghywir. Fel arall, awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r canolfannau gadw at ofynion sicrhau ansawdd llym neu y dylai CBAC ofyn am dystiolaeth sylweddol pan fydd canolfannau'n honni eu bod wedi gwneud camgymeriad data.

*Mae angen i ganolfannau sicrhau eu bod yn gwirio data dwy neu dair gwaith wrth eu dadansoddi er mwyn cyfrifo'r radd. Eu cyfrifoldeb nhw yw hyn. Ni ddylai fod unrhyw apêl o ran yr agwedd hon.*

Roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno am eu bod o'r farn bod cynnig posibilrwydd o gael apêl ar sail mor gyfyngedig yn gam gwag o ystyried na ellid herio barn broffesiynol y canolfannau. Teimlwyd y byddai dysgwyr yn gofyn i ganolfannau am adolygiadau na fyddai modd eu datrys gan ddefyddio'r dull gweithredu arfaethedig.

### 3.8 Awgrymiadau amgen a ddarparwyd gan yr ymatebwyr

#### 3.8.1 Herio canlyniadau'r model ystadegol

O ganlyniad i'r pryderon a drafodwyd mewn perthynas â'r model safoni ystadegol o dan Nod 3, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai dysgwyr allu apelio'r radd derfynol a gyfrifir

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai fod achosion lle na fyddai data hanesyddol canolfannau yn addas i bob dysgwr neu bob math o ganolfan am na fyddai'n cofnodi gwelliant anarferol yn ystod y flwyddyn gyfredol neu am na fyddai'n ystyried bod cohortau yn wahanol i flynyddoedd blaenorol mewn ffyrdd eraill. Gallai enghraifft o hyn fod yn ddsbarth lle ceir nifer anarferol o bobl o allu tebyg eleni. Fodd bynnag, ar ôl eu rancio, mae'n debygol y dyfernir graddau gwahanol iddynt.

Roedd pryder hefyd y gallai rhai canolfannau chwyddo eu graddau asesu canolfannau yn fwriadol, a fyddai'n golygu bod y model ystadegol yn gostwng graddau canolfannau eraill.

Fel ateb posibl i'r problemau hyn, ailbwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr na ddylid defnyddio unrhyw fodel ystadegol, ac y dylai'r graddau a gyfrifir fod yn seiliedig ar farn athrawon yn unig. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai CBAC gasglu data ar ganolfannau sydd â cohortau sy'n wahanol iawn eleni (e.e. wedi gwella mwy na'r disgwyl) ac yn eu defnyddio fel rhan o'r modelu ystadegol.

Credai'r ymatebwyr fod canolfannau mewn sefyllfa well i ystyried yr amryw ffactorau perthnasol (e.e. nodweddion plant sy'n elwa ar brydau ysgol am ddim neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol). Felly, dylai canolfannau allu cyflwyno tystiolaeth pan fyddant o'r farn y gallai'r model ystadegol roi grwpiau penodol dan anfantais, neu ei fod wedi gwneud hynny.

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y defnydd o'r model ystadegol o'r farn y dylid **ymestyn y sail ar gyfer apeliadau** i gynnwys archwiliad o'r achosion lle roedd y graddau a gyfrifir yn is o lawer na graddau asesu canolfannau, hyd yn oed os na fu unrhyw gamgymeriad data. Roedd hyn yn eu tyb nhw yn warant yn erbyn y posibilrwydd na fyddai'r model ystadegol yn perfformio yn unol â'r bwriad. Aeth rhai o'r ymatebwyr yn bellach gan awgrymu y dylid gallu apelio pryd bynnag y caiff graddau asesu canolfannau eu newid.

Awgrymodd ymatebwyr y byddai **creu panel annibynnol** yn ffordd ddilys o ddatrys apeliadau o'r fath. Cynigir y byddai'r panel hwn yn archwilio'r dystiolaeth a'r cyflwyniadau gan ganolfannau a'u cymharu â'r graddau a ddyfernir. Os bydd y panel yn dod o hyd i wahaniaethau annerbyniol, dylai eu cywiro.

*Rhaid i ganolfannau gael cyfle i apelio neu gwestiynu canlyniad yr ymddengys ei fod yn wallus. Gallai hyn gael ei ymestyn i set gyfan o ganlyniadau mewn amgylchiadau tebyg i fy rhai i, lle byddem yn disgwyl yn rhesymol gael set lawer gwell o ganlyniadau eleni ond nad adlewyrchwyd hyn yn y canlyniadau gwirioneddol.*

*Mae ein blwyddyn 11 eleni wedi cyflawni canlyniadau eithriadol o dda hyd yma ac wedi dangos eu bod yn gohort sy'n perfformio'n arbennig o uchel. Lle y gellir darparu tystiolaeth o sefyllfa o'r fath, dylid addasu'r canlyniad cyffredinol disgwyliedig yn unol â hynny.*

*Nid yw CBAC yn adnabod disgyblion yn unigol na'r hyn y maent yn gallu'i wneud. Nid yw ystadegau'n dangos y darlun llawn ac felly maent yn debygol o arwain at gamgymeriadau mewn rhai achosion, yn wahanol i athrawon sy'n adnabod disgyblion yn dda iawn.*

### 3.8.2 Argymhellion eraill

- Yn hytrach na'r awgrym y dylai dysgwyr allu apelio yn erbyn y graddau a ddyfernir, neu yn ogystal â hyn, argymhellodd rhai o'r ymatebwyr y dylai CBAC **roi gwybod i ganolfannau pa feini prawf y bydd y model ystadegol yn eu defnyddio** i gynhyrchu'r canlyniadau. Teimlai'r ymatebwyr y bydd hyn yn sicrhau tryloywder, yn cynyddu hyder yn y graddau a ddyfernir ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi gwallau. Teimlent hefyd y gallai atal canolfannau rhag gwneud apeliadau disail. Ar yr un pryd, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn na ellid gwneud apeliadau effeithiol heb wybod sut y mae'r model ystadegol yn gweithio.
- Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, awgrymodd ymatebwyr y dylid **cynnwys dysgwyr yn fwy yn y broses**. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylid caniatáu i ddysgwyr apelio ar y cyd â chanolfannau neu y dylent fod â hawl i ofyn i'r

ganolfan apelio ar eu rhan. Awgrymodd ymatebwyr eraill mai dim ond os yw canolfannau yn argymhell eu bod yn gwneud hynny neu'n rhoi caniatâd iddynt wneud hynny y dylai dysgwyr allu apelio. I'r gwrthwyneb, awgrymwyd hefyd na ddylai canolfannau apelio yn erbyn y canlyniadau os yw'r dysgwyr yn fodlon ar eu graddau, oherwydd gallai hyn, yn eu tyb nhw, arwain at effeithiau emosiynol negyddol pe bai'r graddau'n cael eu gostwng.

- Credai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig bod canolfannau'n cael gwybod ymlaen llaw os oedd problem gyda graddau, ymhell cyn i'r graddau gael eu cyhoeddi i'r dysgwyr. Awgrymwyd, yn ddelfrydol, y dylai'r weithdrefn apelio gael ei chynnal cyn i unrhyw raddau gael eu cyhoeddi i'r dysgwyr. Nodwyd y byddai hyn yn atal ailgyhoeddi'r data a'r canlyniadau unigol ond byddai hefyd yn osgoi effeithio'n negyddol ar ddysgwyr y caiff eu graddau eu gostwng.
- Teimlai rhai o'r ymatebwyr, o ystyried yr amgylchiadau digyngsail eleni, [na ddylai fod unrhyw broses apelio](#). Fodd bynnag, dylai canolfannau allu cael atebion i gwestiynau am y graddau a ddyfernir gan ddefnyddio'r sianeli cyfathrebu â CBAC sy'n bodoli eisoes. Yn gysylltiedig â hyn, roedd awgrym pe bai CBAC yn dod o hyd i gamgymeriad, y dylent ei unioni heb fod angen proses apelio.
- Ni ddylai canolfannau allu apelio os bydd eu graddau asesu canolfannau yn 'uwch o lawer' na'r graddau y cafodd eu dysgwyr yn y gorffennol.
- Dylai'r broses apelio fod yn rhad ac am ddim.

### 3.8.3 Arsylwadau a chwestiynau

Wrth wneud sylwadau ar y cynnig, mynegodd ymatebwyr rai pryderon a chodi cwestiynau penodol amdano.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad oeddent yn deall y cwestiwn, neu nad oedd yn ddigon clir a gwnaethant ofyn am ganllawiau cliriach a manylach. Roedd yr ymatebwyr yn cwestiynu beth oedd 'data anghywir' (e.e. a yw hyn yn cyfeirio at gyflawniad blaenorol mewn arholiadau yn unig). Nid oedd ymatebwyr yn sicr pa fath o dystiolaeth y byddai ei angen arnynt er mwyn herio'r graddau a ddyfernir neu ba dystiolaeth fyddai ei hangen arnynt er mwyn dangos bod y data'n anghywir. Roedd pryderon y gallai'r diffyg egurder hwn olygu y byddai CBAC yn wynebu llawer o apeliadau ar amrywiaeth o faterion.

Gofynnodd ymatebwyr a oedd disgwyl i ganolfannau apelio os oeddent yn cael graddau uwch na'r disgwyl. A ddylent ystyried bod hyn yn dangos eu bod yn anghywir wrth frasmcangyfrif graddau, hynny yw eu bod wedi 'dyfalu'n besimistaidd', neu a ddylent dynnu sylw at hyn fel camgymeriad posibl?

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod y cynnig hwn yn anghywir yn ei hanfod. Byddai caniatáu i ganolfannau apelio am eu bod wedi cyflwyno'r data anghywir yn golygu bod canolfannau'n cydnabod eu bod wedi camymddwyn/camweinyddu. Awgrymwyd, mewn achosion o'r fath, y dylid cynnal ymchwiliad i'r canolfannau yn hytrach na chaniatáu iddynt apelio. Roedd rhai o'r farn pe bai canolfannau'n cydnabod eu bod wedi cyflwyno data anghywir, y byddai hynny'n bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd unrhyw ddata a gyflwynwyd gan y canolfannau hyn.

Teimlai'r ymatebwyr y gallai rhai canolfannau fod yn fwy parod i siarad ar ran eu dysgwyr na chanolfannau eraill. O'r herwydd, teimlid y byddai'r cynnig at ei gilydd yn rhoi dysgwyr o

ganolfannau heb ddigon o staff neu ganolfannau mewn ardaloedd difreintiedig yn gymdeithasol dan anfantais.

Roedd pryder y byddai'r apeliadau olaf i gael eu trafod yn llai tebygol o gael eu harchwilio'n iawn gan y byddai CBAC yn gyndyn o wneud mwy o newidiadau erbyn hynny oherwydd y byddai hynny'n cael 'gormod o effaith ar y model safonol'.


Roedd rhai o'r ymatebwyr wedi camddeall y cynnig, gan gredu ei fod yn rhoi'r hawl i apelio yn erbyn y graddau, a chodwyd cwestiynau o'r safbwynt hwn. Er enghraifft, gofynnodd ymatebwyr a fyddai ymgeiswyr yn cael cynnig gwersi gyda thiwtoriaid preifat fel tystiolaeth i gyfiawnhau dyrchafu eu graddau.

### Ar gyfer canlyniadau a roddir yr haf hwn, dylem ddisgwyl i CBAC ystyried dim ond apeliadau a gyflwynir gan ganolfannau, ac nid y rhai hynny a gyflwynir gan ddysgwyr unigol.

I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 9**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,370



O'r 3,370 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 40.1% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ac roedd 36.4% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. darparodd 1,208 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i esbonio eu hymateb.

### 3.10 Cefnogaeth i'r cynnig

#### 3.10.1 Sicrhau effeithlonrwydd

Nododd ymatebwyr, yn wahanol i sefyllfa arholiad lle ceir papur y gellir ei ailfarcio yn erbyn meini prawf llym, byddai'n anodd iawn dangos eleni a yw'r gradd a ddyfarnwyd yn adlewyrchiad teg o berfformiad dysgwr. Ar wahân i ofyn am adolygiad o'r gwallau gweithdrefnol neu'r gwallau data, teimlai'r ymatebwyr na fyddai unrhyw beth arall y gallai dysgwyr apelio yn ei erbyn yn rhesymol. At hyn, teimlent y byddai dysgwyr yn ei chael hi'n anodd gwneud apeliadau â chynsail iddynt hyd yn oed yn yr achosion hyn, am na fyddai data gan ganolfannau ar gael iddynt am eu bod yn gyfrinachol.

Felly, teimlid, pe bai dysgwyr yn cael apelio, y byddent yn llethu CBAC ag apeliadau digynsail. Byddai gorfod ymchwilio i'r apeliadau hyn yn rhoi straen ar adnoddau ac yn gohirio'r broses ddyfarnu.

*Dylai'r hawl i apelio fod mor deg a thryloyw â phosibl. Fodd bynnag, ni fydd gan ddysgwyr unigol ddigon o gyd-destun na thystiolaeth i lansio apêl gredadwy, felly rhaid i'r canolfannau fod yn gyfrifol am wneud hynny.*

*Gan nad oes modd apelio yn erbyn y weithdrefn, dim ond apelio yn erbyn achos lle mae'r weithdrefn wedi'i chymhwyso'n anghywir, byddai caniatáu apeliadau gan ddysgwyr nad ydynt yn ymwybodol o natur gymhleth y weithdrefn yn gwneud dim ond arwain at lawer o apeliadau ofer, ac felly, yn gwastraffu amser ac arian.*

Pwynt arall a godwyd gan ymatebwyr oedd y byddai gan ganolfannau fynediad at yr holl ddata a ddefnyddiwyd i gyfrifo graddau asesu canolfannau. Awgrymwyd felly mai'r canolfannau fyddai yn y sefyllfa orau i nodi unrhyw wallau a phenderfynu p'un a ddylid apelio ai peidio.

Pe bai dysgwyr o ganolfan yn apelio'n unigol, gallai hyn effeithio ar drefn restrol y ganolfan ac, felly, effeithio ar ymgeiswyr eraill yn y cohort. O ganlyniad, teimlwyd y byddai'n fwy buddiol yn nhermau effeithlonrwydd pe bai penderfyniadau am apeliadau yn cael eu gwneud gan y ganolfan ac nid gan yr unigolyn.

*Mae'r broses o ddyfarnu graddau ei hun ar gyfer y flwyddyn hon yn seiliedig ar fodelu ystadegol, wedi'i ategu gan ffynonellau tystiolaeth. O ganlyniad, rhaid i unrhyw apêl ddefnyddio'r un broses lle edrychir ar grwpiau o ddysgwyr, yn hytrach nag unigolion. Er enghraifft, os yw perfformiad ymhlith dysgwyr BAME yn is nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol, dylai'r sefydliad apelio yn seiliedig ar y dystiolaeth ystadegol. Bydd caniatáu i unigolion apelio yn symud oddi wrth y fethodoleg o safoni cenedlaethol.*

Er mwyn symleiddio'r broses ymhellach, teimlai'r ymatebwyr y dylai'r cynnig ddatgan yn glir p'un a oes disgwyl i'r canolfannau gynnal proses apelio fewnol lle gallai dysgwyr gyflwyno eu ceisiadau am apeliadau. Os felly, awgrymwyd y dylid rhoi canllawiau clir ar sut i roi'r cam apelio mewnol hwn ar waith.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn dadlau y dylid cynnal apeliadau mewnol. Roeddent o'r farn y byddai'n fuddiol o safbwynt tryloywder a rhoi llais i ddysgwyr. Byddai hyn hefyd yn fforwm defnyddiol ar gyfer egluro i ddysgwyr pam na ellid rhoi eu cais gerbron CBAC, a ddylai leihau anfodhad dysgwyr.

### 3.10.2 Sicrhau tegwch

Credai'r ymatebwyr y byddai angen dull gweithredu mwy soffistiedig ar gyfer apeliadau eleni. Felly, byddai caniatáu i ddysgwyr apelio yn rhoi mantais i deuluoedd mwy addysgiedig neu gefnog a fyddai, yn nhyb yr ymatebwyr, â mwy o wybodaeth ac amser i gefnogi apêl. Ar y llaw arall, byddai dysgwyr dan anfantais cymdeithasol dan anfantais pellach.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod sicrhau y gallai dysgwyr apelio yn hollbwysig er mwyn sicrhau tegwch.

### 3.10.3 Rhesymau eraill dros gytuno

Ymhlith y rhesymau eraill a nodwyd gan ymatebwyr dros gefnogi'r cynnig, roedd y canlynol:

- Bydd yn anodd iawn ymdrin ag apeliadau gan ddysgwyr heb ddatgelu gwybodaeth am y farn broffesiynol a roddwyd. Felly, mae'r cynnig yn gyson â'r rhesymau dros yr argymhelliad i beidio â chaniatáu i ddysgwyr apelio yn erbyn y farn broffesiynol a roddir.
- Mae'n dderbyniol i beidio â chaniatáu i ddysgwyr apelio, o ystyried y cyfyngiadau amser a'r camau cadarn a gymerwyd i sicrhau bod athrawon yn rhoi barn gywir a phroffesiynol am gyrhaeddiad tebygol dysgwr mewn arholiadau yr haf hwn.
- Mae penderfyniadau canolfannau yn adlewyrchiad gwrthrychol a theg o gynnydd dysgwyr. Bydd caniatáu i ddysgwyr unigol apelio ar y sail nad ydynt yn cytuno â'r graddau yn tanseilio'r ymddiriedaeth yn y proffesiwn.
- Mae'r apeliadau wedi cael eu gwneud drwy'r canolfannau erioed. Nid oes angen dybryd i newid i weithdrefn eleni. I'r gwrthwyneb, mae gan y canolfannau fynediad at holl ddata'r dysgwyr a gallant apelio pan fyddant o'r farn y gwnaed camgymeriad.

### 3.11 Pryderon am y cynnig

Ailbwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y rhesymau canlynol a drafodwyd o dan y cynnig dros beidio â chaniatáu i ddysgwyr apelio yn erbyn barn athrawon (cwestiwn 9 yn yr ymgynghoriad): yr hawl i apelio a'r buddion a ddaw yn sgil apeliadau, fel tryloywder ac atebolrwydd; penderfyniadau athrawon yn seiliedig ar duedd; dysgwyr yn perfformio'n well yn ystod arholiadau; risgiau her gyfreithiol; effaith emosiynol negyddol ar ddysgwyr; apeliadau yn rhan draddodiadol o'r broses ddyfarnu; y cynnig yn rhoi gormod o bwyslais ar ddiogelu canolfannau a byrddau arholi; yr apêl yn gyfle i unioni unrhyw gamgymeriadau; a mwy o ymddiriedaeth yn y system os caniateir apeliadau. Ailbwysleisiodd ymatebwyr hefyd awgrymiadau a wnaed o dan C9, fel caniatáu arholiadau a chaniatáu apeliadau o dan amodau penodol.

Mae cynnwys sylwadau lle rhoddwyd y rhesymau hyn yn debyg i'r hyn sydd eisoes wedi'i ddisgrifio o dan C9, felly dim ond pwyntiau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o'r cwestiwn hwn.

#### 3.11.1 Hawl i apelio

Yn ogystal â'r sylwadau a wnaed o dan C9 mewn perthynas â'r hawl i apelio, awgrymodd ymatebwyr os gwrthodir yr hawl i ddysgwyr apelio ar y cam hwn, byddai'n golygu na fyddai gan ddysgwyr unrhyw gyfle i herio'u gradd.

*Rwy'n teimlo'n anobeithiol ac wedi fy niystyrru yn wyneb hyn. Mae'n teimlo fel nad oes unrhyw beth rhagweithiol y gallaf i'n bersonol ei wneud er mwyn gwneud unrhyw wahaniaeth i radd anghywir yn y broses hon.*

*Mae angen i unigolion gael rhyw hawl i apelio. Fel y mae, rydych yn tynnu unrhyw hawl i apelio, ac ni ellir cyfiawnhau hyn.*

Awgrymwyd bod barn athrawon yn arwydd gwell o allu dysgwyr na'r canlyniadau a bennir gan y model ystadegol. Felly, rhaid i ddysgwyr gael yr hawl i apelio'r broses hon os nad ydynt yn cytuno â'r canlyniadau.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r hawl i apelio yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddeall y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo eu graddau asesu canolfannau. Bydd hyn wedyn yn sicrhau y gallant herio unrhyw benderfyniadau ar sail camymddwyn, os byddant yn teimlo bod hynny wedi digwydd.

Mewn perthynas â'r dull apelio, ailbwysleisiodd ymatebwyr y dylai dysgwyr gael yr hawl i apelio drwy eu canolfan ac, os nad ydynt yn fodlon ar y canlyniad, apelio i CBAC neu gael y cyfle i apelio'n uniongyrchol i CBAC. Yn yr ail achos hwn, awgrymwyd y dylai CBAC ddatrys yr apeliadau neu ddewis y rheiny maent o'r farn eu bod yn dderbyniol a'u hanfon i'r canolfannau er mwyn iddynt benderfynu arnynt.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid caniatáu i ddysgwyr apelio ar unrhyw sail. Ychwanegodd rhai o'r ymatebwyr hefyd y dylai dysgwyr allu apelio'r farn broffesiynol hefyd ar y cam hwn.

### 3.11.2 Gallai canolfannau fod yn gyndyn i apelio

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai canolfannau yn gyndyn i apelio oherwydd y canlynol:

- gallai hynny olygu cwestiynu'r graddau asesu canolfannau a gyflwynwyd gan eu canolfan;
- gallai canolfannau fod â thuedd tuag at ddysgwyr penodol;
- gallai canolfannau fod eisiau cuddio eu camgymeriadau;
- byddai canolfannau eisiau osgoi trafferth neu heb amser i apelio;
- gallai canolfannau anghytuno'n anghyfiawn ynghylch yr angen am apêl (e.e. ystyried bod gradd 'pasio' yn ddigon i ddysgwr).

Felly, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau y dylai dysgwyr allu apelio'n annibynnol. Gwnaethant awgrymu y bydd mantais ychwanegol i hyn sef osgoi sefyllfaoedd lle bydd dysgwyr dan anfantais am fod eu canolfannau wedi penderfynu peidio ag apelio, tra byddai canolfannau eraill wedi apelio mewn sefyllfaoedd tebyg o bosibl.

Awgrymwyd hefyd, hyd yn oed pe bai canolfannau yn cytuno i apelio, y gallent fod yn gyndyn o gyflwyno'r achos o'r safbwynt sy'n briodol ym marn y dysgwr.

### 3.11.3 Barn broffesiynol heb ei gwirio

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai peidio â chaniatáu i ddysgwyr apelio yn golygu na fyddai penderfyniadau canolfannau'n cael eu gwirio. Teimlent fod hyn yn groes i egwyddorion atebolrwydd ac yn dileu'r posibilrwydd o unioni penderfyniad a allai fod yn

anghywir oherwydd y byddai canolfannau efallai yn gyndyn o apelio yn erbyn eu hunain.

### 3.12 Awgrymiadau amgen a ddarparwyd gan yr ymatebwyr

Fel y soniwyd yn gynharach, gwnaeth ymatebwyr awgrymiadau tebyg ar gyfer C9. Er enghraifft, gwnaethant ofyn i ddysgwyr gael sefyll arholiad neu fod apelïadau gan ddysgwyr yn cael eu derbyn mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. amgylchiadau personol andwyol nas datgelwyd i'r ganolfan, apelïadau a gefnogir gan y ganolfan/pennaeth).

Ar wahân i'r awgrymiadau tebyg hyn, cafwyd yr awgrymiadau ychwanegol canlynol gan ymatebwyr:

- Argymhellir bod Cymwysterau Cymru yn ystyried sylwadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<sup>6</sup> mewn ymateb i ymgynghoriad Ofqual, a oedd, ymhlith ethau eraill yn datgan "in the event that learners are not happy with the outcome of their assessment and awarded grade, they must have a meaningful and timely route of appeal".
- Dylai trydydd parti, ar wahân i'r canolfannau a CBAC, fod yn rhan o'r broses o ddatrys yr apelïadau. Byddai hyn yn atal CBAC rhag cael ei orlethu gan apelïadau.
- Dylai dysgwyr allu apelio i CBAC ond dylai apelïadau a gyflwynir gan ganolfannau gael blaenoriaeth.
- Er mwyn annog pobl i beidio â gwneud apelïadau diangen, dylai canolfannau dalu am unrhyw apelïadau a wneir. Os byddant yn llwyddiannus, dylent gael eu had-dalu.
- Mae paragraff 2.67 o'r ddogfen ymgynghori yn sôn am ddatgelu i ganolfan wybodaeth y gall fod ei hangen arni er mwyn penderfynu p'un a oes angen apelio. Argymhellwyd na ddylid codi tâl ar ganolfannau am y wybodaeth hon ac y dylai CBAC ymdrechu i ddarparu gwybodaeth fanwl ac amserol. Argymhellwyd hefyd y dylai CBAC ddarparu'r wybodaeth hon i bob canolfan fel mater o drefn er mwyn iddynt allu penderfynu p'un a ddylent apelio ai peidio.
- Dylai canolfannau apelio ar ran dysgwyr a addysgwyd mewn ysgol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rheini a gafodd eu haddysgu gartref neu eu haddysgu y tu allan i ysgol apelio yn unigol.

---

<sup>6</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) Response to Ofqual consultation on specified general qualifications <https://www.equalityhumanrights.com/en/our-work/news/predicted-grading-during-covid-19-could-limit-young-peoples-futures>




Os bydd proses apelio yn nodi gwall a fyddai'n arwain at radd is i ddysgwyr heblaw'r rhai hynny y cyfeiriwyd atynt yn yr apêl, yna ni ddylai CBAC ostwng y graddau hyn.

### 3.13 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 10**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,293



O'r 3,293 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 69.8% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ac roedd 12.0% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. darparodd 744 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i esbonio eu hymateb.

### 3.14 Cefnogaeth i'r cynnig

#### 3.14.1 Sicrhau tegwch

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig o'r farn y byddai gostwng graddau dysgwyr nad oedent yn rhan o'r apêl yn annheg o dan y trefniadau presennol. Teimlent y byddai gostwng graddau'r dysgwyr hyn a oedd yn fodlon ar y graddau yn eu cosbi'n annheg am y byddai'r graddau'n cael eu gostwng oherwydd camgymeriadau nad oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn gyson â'r arfer mewn blynyddoedd blaenorol lle na fyddai byrddau arholi yn gostwng marciau dysgwyr eraill. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn sicrhau nad oedd cohort eleni dan anfantais o gymharu â chohortau yn y gorffennol.

#### 3.14.2 Atal effaith emosiynol negyddol ar ddysgwyr

Soniodd ymatebwyr y byddai dysgwyr wedi wynebu straen ac ansicrwydd sylweddol eleni yn barod. Roeddent yn dadlau y byddai gostwng graddau dysgwyr yn dilyn apêl nad oeddent yn rhan ohoni ond yn achosi mwy o straen a phryder i'r dysgwyr hyn. Gwnaethant awgrymu y gallai hyn fod yn arbennig o wir pan fyddai'r graddau newydd yn effeithio ar gynlluniau dysgwyr, er enghraifft, drwy eu hatal rhag ennill lle mewn prifysgol.

*Mae hyn yn oedran bregus [i ddysgwyr]: ar hyn o bryd, gallai cael newyddion drwg ar ôl cael yr hyn roeddent yn meddwl ei fod yn newyddion da fod yn ormod i rai pobl ifanc ei oddef.*

*Mae'r pandemig hwn, yn fy marn i, yn achosi llawer o straen i fyfyrwyr gan fod cymaint o ansicrwydd. Os daw camgymeriad i'r amlwg yn ddiweddarachgwel fyddai ei*

*anwybyddu er mwyn diogelu iechyd meddwl/llesiant myfyrwyr a'u hymddiriedaeth yn y system addysg yn yr ystod argyfwng hwn.*

### 3.14.3 Sicrhau ffordd ddilys o ddatrys apeliadau

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig am eu bod o'r farn y byddai'n sicrhau bod y broses apelio'n fwy effeithlon. Roeddent o'r farn na fyddai'n bosibl gostwng graddau dysgwyr eraill heb ganiatâd i edrych eto ar eu data. Byddai cael eu caniatâd yn anodd a byddai angen amser i wneud hyn. Ar y llaw arall, awgrymwyd y byddai newid graddau heb ganiatâd yn gadael CBAC yn agored i heriau cyfreithiol gan ddysgwyr. Ym mhob achos, nododd ymatebwyr y byddai'r broses ddyfarnu yn mynd yn hirfaith.

Roedd pryderon hefyd, pe bai graddau'n cael eu gostwng, y byddai dysgwyr am apelio yn erbyn y radd newydd. Gallai'r apeliadau hyn gynyddu fel caseg eira, a byddai CBAC yn wynebu cyfnod estynedig o addasu'r graddau.

Ar nodyn gwahanol, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r posibilrwydd o ostwng graddau dysgwyr sy'n apelio hefyd yn sicrhau effeithlonrwydd. Credent pe bai'r graddau ond yn gallu aros yr un peth neu wella ar ôl apêl, y byddai risg y byddai llawer o ddysgwyr yn apelio heb unrhyw reswm heblaw ceisio gwella'u gradd.

### 3.14.4 Sicrhau y bydd canolfannau'n apelio

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai gostwng graddau dysgwyr eraill yn gwneud canolfannau'n gyndyn o apelio. Byddai hyn yn digwydd naill ai oherwydd bod canolfannau am ddiogelu dysgwyr eraill, neu hyd yn oed eisiau diogelu'r dysgwyr y byddai canolfannau'n apelio ar eu rhan. Byddai'r ail achos hwn yn debygol o ddigwydd mewn cymunedau bach lle y gallai fod yn anodd cadw'r rhai sy'n apelio'n anhysbys. Pe bai graddau dysgwyr eraill yn cael eu gostwng, awgrymwyd y gallai'r dysgwyr hyn ystyried bod y dysgwyr a apeliodd ar fai am eu graddau is.

Felly, credai'r ymatebwyr fod y cynnig yn sicrhau y bydd canolfannau'n teimlo'n rhydd i apelio pan fyddant o'r farn bod ganddynt rheswm dilys dros wneud hynny.

### 3.14.5 Sicrhau ymddiriedaeth yn y system

Teimlai rhai o'r ymatebwyr y gallai gostwng graddau dysgwyr eraill anfon y neges anghywir am ansawdd gwaith canolfannau a thanseilio ymddiriedaeth yn y system.

## 3.15 Pryderon am y cynnig

### 3.15.1 Mae'r cynnig yn annheg

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno o'r farn bod cywiro pob camgymeriad yn fater o degwch a chyfiawnder naturiol.

*Pe bai'n digwydd i mi, ni fyddwn eisiau i'm graddau gael eu gostwng (a byddai hynny'n peri gofid mawr i mi) ond mae'n annheg ac felly fe ddylai gael ei gywiro.*

*Dylai pob myfyriwr gael ei farcio'n deg. Yn anffodus, os bydd hyn yn golygu bod graddau myfyrwyr yn newid o ganlyniad i gamgymeriad ar ran CBAC, yna mae'n rhaid eu newid.*

### 3.15.2 Mae cywirdeb yn dal i fod yn bwysig

Roedd yr ymatebwyr o'r farn mai cywirdeb y radd oedd yr agwedd bwysicaf wrth ddyfarnu. Felly, gwnaethant ddadlau pe bai apêl yn canfod bod graddau dysgwyr eraill yn uwch nag y dylent fod, rhaid gostwng y graddau hynny hyd yn oed os yw hynny'n ymddangos yn annheg i'r dysgwyr hynny. At hynny, teimlai rhai o'r ymatebwyr pe byddai camgymeriadau'n dod i'r amlwg mewn cysylltiad â rhai dysgwyr, byddai angen adolygu graddau pob dysgwr. Roedd rhai yn dadlau y dylid gwneud hyn o leiaf pan oedd y camgymeriadau'n sylweddol.

*Dylai'r graddau a ddyfernir fod mor gywir â phosibl, felly os daw camgymeriad i'r amlwg ni ddylid ei anwybyddu.*

*O safbwynt moesol, ni ddylai hyn ddigwydd gan ei fod yn tansellio egwyddorion sylfaenol o ran graddau sy'n seiliedig ar ansawdd gwaith a chywirdeb atebion a'r ffordd y caiff dysgu ei gymhwyso.*

Credai'r ymatebwyr fod sicrhau cywirdeb yn fwy na mater o egwyddor, ond hefyd yn fater o helpu dysgwyr yr oedd eu graddau'n uwch nag y dylent fod. Os na chaiff eu graddau eu gostwng, gallai fod achosion lle y bydd dysgwyr yn ennill lleoedd ar gyrsiau Safon Uwch neu Brifysgol gan gredu bod y radd y maent wedi'i chyflawni yn dangos y byddent yn gallu ymdopi â galwadau'r cwrs. Roedd pryder na fyddent o bosibl yn gallu ymdopi â'u hastudiaethau ac o ganlyniad, y gallai hyn gael effaith emosiynol negyddol ar y dysgwyr hyn. Pe byddai'r cynnig yn sefyll, awgrymwyd y dylai dysgwyr gael gwybod bod eu graddau'n uwch nag y dylent fod, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

*Dylai pob myfyriwr gael y radd gywir wedi'i dyfarnu yn unol â'i alluoedd, ac nid gradd uwch na'r hyn y gallant ymdopi â hi mewn addysg bellach, gan y byddent yn cael anawsterau yn eu hastudiaethau pellach.*

### 3.15.3 Erydu hyder y cyhoedd

Awgrymodd ymatebwyr y byddai gadael camgymeriadau heb eu cywiro yn cynnal anhysondebau o ran graddau. Roeddent yn awgrymu y byddai hyn yn erydu hyder y cyhoedd yn y graddau a ddyfernir; felly, dylai pob camgymeriad gael ei gywiro. Ar yr un pryd, teimlai'r ymatebwyr hyn y dylai CBAC egluro i'r rhieni a'r dysgwyr pam y cafodd y graddau eu gostwng.

Credir hefyd y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn annog mwy o apeliadau a fyddai'n cyfleu neges i'r cyhoedd nad yw'r system yn gweithio'n iawn.

## 3.16 Awgrymiadau amgen a ddarparwyd gan yr ymatebwyr

### 3.16.1 Dull hyblyg o ostwng y graddau

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r penderfyniad ynghylch a ddylid gostwng graddau dysgwyr eraill gael ei wneud fesul achos.

Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr hyn y dylai maint y newid gael ei ystyried. Roedd rhai o'r farn na ddylid gostwng graddau oni bai bod y newid yn ddjarwyddocad. Diffiniwyd hyn fel newid nad yw'n cael effaith ddifrifol (e.e. atal dysgwyr rhag mynd i brifysgol) neu, yn y rhan fwyaf o achosion, gan newid o un radd yn unig. Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr eraill o'r farn na ddylid gostwng graddau oni bai bod y gwahaniaeth rhwng y graddau'n fawr. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn o'r farn nad oedd gostwng y radd pan oedd y newid yn fach yn rhesymol, gan y byddai lwfans ansicrwydd yn berthnasol i'r canlyniad, ac felly na ddylai gwahaniaeth bach ysgogi newid.

*Byddai'n ddibwrpas gostwng graddau sy'n agos iawn at ei gilydd (e.e. C i D), ond lle bo'r camgymeriadau'n fwy amlwg (B i G), dylid cymhwyso'r radd is.*

*Dylid ond ei gostwng os yw'r dystiolaeth yn gryf iawn e.e. newid o fwy nag 1 radd.*

*Yn fy marn i, dylai myfyrwyr ond gael y radd is os yw'r gwahaniaeth yn y graddau yn sylweddol, ond os yw'r gwahaniaeth ond yn un radd, yna dylai'r ymgeisydd gael y radd uwch.*

Awgrymwyd hefyd y dylid ond newid y radd os yw'r gwall yn effeithio ar raddau pob dysgwr o ganolfan, neu os oes rheswm da dros wneud hyn (e.e. bu ymyrraeth yn y broses rancio).

### 3.16.2 Awgrymiadau eraill

Dyma rai o'r awgrymiadau eraill:

- Dosbarthu graddau i ganolfannau ymhell cyn y dyddiad dyfarnu (e.e. tair wythnos). Os bydd unrhyw anghytuno, dylai hyn gael ei ddatrys rhwng CBAC a'r canolfannau. Drwy wneud hyn, y gobaith yw na fyddai angen cywiro graddau dysgwyr eraill ar ôl i'r graddau gael eu cyhoeddi.
- Esbonio'n glir i ganolfannau y byddai unrhyw newidiadau dilynol lluosog y byddent yn ei wneud i'w data yn destun ymchwiliad camymddwyn/camweinyddu. Gwnaed yr awgrym hwn am fod pryderon y byddai'r cynnig yn ei gwneud yn haws i ganolfannau geisio gwella rhai graddau'n anonest drwy ddweud eu bod wedi gwneud camgymeriad, gan wybod y byddai'r graddau wedi'u diogelu. Neu gallai CBAC gyhoeddi y byddent yn ystyried pob achos yn ei rinwedd ei hyn wrth benderfynu a ddylai graddau gael eu gostwng.

- Peidio â gostwng unrhyw raddau o gwbl, yn enwedig gan y byddai'n anodd penderfynu ar apeliadau heb sgoriau UMS a thystiolaeth safonedig.
- Dyfarnu cyfartaledd y ddwy radd.

### 3.17 Agweddau yr oedd ymatebwyr am fwy o eglurder yn eu cylch

Roedd yr ymatebwyr yn pryderu pe bai camgymeriad yn dod i'r amlwg, y gallai hyn gael goblygiadau ehangach ar fwy na dim ond y dysgwyr sy'n gysylltiedig â chanolfan asesu. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gofyn a ddylid ailgynnal y model safoni pe bai camgymeriad yn dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau cenedlaethol yn parhau'n gymaradwy â blynyddoedd blaenorol. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a ddylai graddau dysgwyr eraill fynd i fyny os bydd graddau'r disgyblion sy'n apelio yn mynd i fyny.


Gofynnodd un ymatebwr a fyddai gostwng gradd un ymgeisydd yn golygu codi gradd ymgeisydd arall er mwyn gwneud iawn am ganran y gyfradd 'pasio' ar gyfer gradd benodol. Os felly, gofynnodd yr ymatebwr sut y dewisir y dysgwr a fydd yn cael y radd uwch.

**Dylai CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff pob penderfyniad apêl ei gymryd gan bobl nad oeddent yn rhan o'r broses yn arwain at roi'r canlyniadau hynny.**

### 3.18 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 11**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,290



O'r 3,290 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 76.6% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ac roedd 4.6% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. darparodd 577 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i esbonio eu hymateb.

### 3.19 Cefnogaeth i'r cynnig

Cyn disgrifio sylwadau ymatebwyr, dylid nodi bod gan ymatebwyr ddealltwriaeth wahanol o agweddau gwahanol ar y cynnig.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y cwestiwn yn cyfeirio at apeliadau a wnaed oherwydd gwallau gweithdrefnol neu ddata (fel y cynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori), tra ymddengys fod eraill o'r farn bod y cwestiwn yn cyfeirio at broses apelio a fyddai'n adolygu pob agwedd ar y broses ddyfarnu (e.e. barn broffesiynol). O'r sylwadau a gafwyd, nid oedd bob amser yn glir a oedd yr ail grŵp yn credu mai dyma oedd y cynnig, ynteu ai dyma'r cynnig y byddent wedi dymuno'i gael.

Yn ogystal, cafodd rhai o'r ymatebwyr ar ddeall mai dim ond CBAC a fyddai'n ymchwilio i'r apeliadau, tra bod eraill wedi cael ar ddeall y byddai'r canolfannau hefyd yn ymchwilio i rai apeliadau.

*Os bydd myfyrwyr/rhieni yn anghytuno â'r graddau yn seiliedig ar y graddau asesu canolfannau a ddarparwyd yn y lle cyntaf, yna rhaid i'r gweithwyr proffesiynol hynny a wnaeth y penderfyniadau hynny gael cyfle i egluro'u rhesymeg a rhannu'r data a ddefnyddiwyd ganddynt i wneud y penderfyniadau hynny.*

*Mae'r athrawon sy'n rhan o wneud y penderfyniad yn adnabod galluedd y dysgwyr yn well na neb. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai o'u herwydd nhw y rhoddydd y radd anghywir, efallai oherwydd gwrthdaro ar lefel bersonol neu fethiant i nodi gwir botensial myfyrwyr mwy tawel. Felly, gallai pâr o lygaid ffres nodi gradd wahanol, fwy cywir.*

*Dylid, dylid gwneud hyn neu gallai pobl gael eu dylanwadu gan eu hoffter tuag at y dysgwyr*

*Gall fod yn anodd, yn enwedig mewn ysgolion bach neu bynciau lle nad oes llawer o ddisgyblion yn dewis astudio'r pwnc, oherwydd mae'n bosibl na fydd staff ar gael sydd â'r wybodaeth ofynnol am yr unigolyn dan sylw.*

Yn seiliedig ar eu sylwadau, gellid ystyried bod ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig er eu bod yn teimlo i'r gwrthwyneb. Digwyddodd hyn am fod rhai o'r ymatebwyr wedi deall bod y cynnig yn mynnu y dylai pobl eraill ymchwilio i'r apeliadau, tra bod eraill yn ystyried bod y cynnig yn caniatáu eithriad rhag y rheol hon.

Dylid cadw'r gwahaniaethau hyn yn y dehongliad o'r cwestiwn mewn cof wrth ddarllen y dadansoddiad ar gyfer y cwestiwn hwn.

### 3.19.1 Mae'r cynnig yn sicrhau didueddrwydd ac felly, cywirdeb

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn tybio bod y cynnig yn atgyfnerthu'r rheol apelio bresennol, sef y dylai pobl arall benderfynu ar apeliadau, yn cytuno â'r cynnig am eu bod o'r farn y byddai hyn yn gwella cywirdeb y canlyniadau ac y byddai'n sicrhau didueddrwydd y penderfyniadau am yr apeliadau. Teimlent ei bod yn llai tebygol y byddai'r un person yn mynd i'r afael â'i gamgymeriadau ei hun. Felly, credai'r ymatebwyr y byddai cynnwys yr un bobl yn arwain at duedd systematig ac yn erydu hyder y cyhoedd.

*Os amheuir bod rhywun wedi darparu gradd anghywir, ni ddylai gael ei gynnwys yn yr apêl - ni fyddai'n gwneud unrhyw synnwyr i rywun ailddadansoddi ei drafodion neu ei farn ei hun a disgwyl iddo fod yn gwbl wrthrychol.*

*Ni ddylai'r bobl a gyfrifodd y canlyniadau ddelio â'r apeliadau - neu ni fyddai unrhyw ddiben apelio. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau na roddir unrhyw ddysgwyr dan anfantais.*

*Er mwyn sicrhau hygredd, rhaid i unrhyw broses apelio fod yn rhydd rhag tuedd, neu ganfyddiad o duedd. Nid yw'n bosibl gwneud hyn os gofynnir i bobl farnu ar eu penderfyniadau blaenorol eu hunain.*

### 3.19.2 Mae'r cynnig yn rhesymol

Roedd yr ymatebwyr a oedd o'r farn bod y cynnig yn caniatáu, fel eithriad, i'r un bobl benderfynu ar yr apeliadau, yn ei gefnogi am eu bod o'r farn na fyddai llawer o staff cymwys heb unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achosion ar gael i benderfynu ar apeliadau. Felly, ymddengys ei bod yn rhesymol caniatáu'r eithriad hwn.

### 3.20 Pryderon am y cynnig

Roedd ymatebwyr a oedd yn dehongli'r cwestiwn fel bod CBAC yn cael gwneud eithriad rhag y rheolau presennol yn poeni na fyddai'r penderfyniadau ar apeliadau yn gywir. Roeddent yn mynnu y dylai pobl nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad â'r broses a arweiniodd at y broblem ymchwilio i'r apeliadau.

*Dylid newid y geiriad i ddweud bod yn rhaid i CBAC wneud hyn. Byddai hyn yn ei dro yn rhoi gofyniad absoliwt ar y corff i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr apeliadau yn deg ac yn gyson ac yn ddiuedd o ran y dull gweithredu. Mae digonedd o weithwyr proffesiynol profiadol i helpu â'r broses hon, ac er y gallai fod yn hunllef i'w gydlyn, mae'n rhaid gwneud hyn er mwyn sicrhau hyder yn y system gymwysterau.*

I'r gwrthwyneb, roedd y grŵp arall o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig am eu bod o'r farn bod cymhwysedd yn faen prawf pwysig wrth ddewis unigolion yn ogystal â chysylltiad blaenorol. Roeddent yn pryderu pe bai CBAC yn ymdrechu i gynnwys pobl eraill ar draul popeth arall, y byddai'r bobl hyn yn llai cymwys.

*Byddai'n well gennyf i hyn gael ei wneud gan staff cymwys (a all fod wedi gwneud camgymeriad wrth brosesu data), yn hytrach na phobl a gaiff eu cynnwys i adolygu apêl - ond sydd â llai o wybodaeth na'r sawl a wnaeth y camgymeriad gwreiddiol.*

Dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn yn ystyried bod apelio yn cynnwys edrych eto ar y farn broffesiynol a'r graddau a ddyfarnwyd.

*Rydym yn anghytuno â'r uchod am ein bod o'r farn na fydd gan berson/au nad oedd/oeddent yn rhan o ddyfarnu'r canlyniad gwreiddiol ddigon o fanylion am allu'r dysgwyr a'r ffordd y mae'n gweithio tuag at unrhyw nodau a osodwyd.*

*Rwy'n deall y pwynt, ond os bydd y bobl sy'n rhan o'r broses sy'n arwain at roi'r canlyniadau hynny yn adnabod y myfyriwr ac wedi'i addysgu am gyfnod o amser, yna rwy'n credu mai nhw yw'r bobl orau i adolygu'r graddau a roddwyd iddynt. Ymddengys*

*yn rhyfedd i gael grŵp o bobl nad ydynt erioed wedi addysgu neu hyd yn oed wedi cwrdd â'r myfyriwr i adolygu gradd.*

*...ni fydd yn bosibl i ysgolion adolygu gradd asesu canolfannau heb gynnwys yr athrawon pwnc.*

### **3.21 Awgrymiadau amgen a ddarparwyd gan yr ymatebwyr**

#### **3.21.1 Cynnwys pobl o'r ddau grŵp**

Credai rhai o'r ymatebwyr y dylai panel o bobl a oedd yn rhan o'r broses ddyfarnu ynghyd â phobl nad oeddent yn rhan o'r broses hon ymchwilio i'r apeliadau.

Teimlai'r ymatebwyr hyn y byddai'r garfan gyntaf eisoes yn gyfarwydd iawn â'r data, tra byddai'r ail garfan yn sicrhau safbwynt ffres a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i nodi gwallau. Teimlai rhai o'r ymatebwyr y dylid o leiaf ymgynghori â'r bobl a wnaeth y penderfyniad am y rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw.

*Credaf fod angen cymysgedd o bobl a oedd yn rhan o'r broses a phobl nad oeddent yn rhan ohoni er mwyn cael penderfyniad teg, gan y gallai fod sefyllfa lle mai'r bobl a oedd yn rhan o'r broses yn y lle cyntaf yn unig a all ateb cwestiynau.*

*Byddai'n ddefnyddiol i'r bobl sy'n delio â'r apeliadau drafod sut y penderfynwyd ar raddau penodol â'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad hwnnw.*

*Mae'n bosibl y bydd angen iddynt drafod y penderfyniad â'r bobl a wnaeth y rhagfynegiad er mwyn cael darlun llawn o'r ffordd y cafodd y graddau eu dyrannu.*

Awgrym arall a gafwyd oedd ymgynghori â staff a oedd yn gyfarwydd â'r broses yn y lle cyntaf - er mwyn nodi'n gyflym a oes unrhyw gamgymeriadau amlwg a dilysu'r wybodaeth wreiddiol a chynnig cyd-destun ohoni lle y bo angen - ac yna trosglwyddo'r holl wybodaeth i'r adolygwyr annibynnol.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai'r cynnig (i gynnwys arbenigwyr newydd) ond bod yn gymwys mewn achosion anodd. Os gwnaed camgymeriad gweinyddol amlwg, yr awgrym oedd y gellid ei gywiro'n gyflym gan y bobl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.

Yn olaf, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr mai'r apelyddion ddylai benderfynu a ddylid cynnwys set newydd o arbenigwyr ai peidio, neu y dylid gwneud y penderfyniad gan ddibynnu ar y materion dan sylw. Er enghraifft, os gwneir apêl ar sail tuedd athrawon, yna dylai'r dysgwyr gael yr hawl i fynnu iddi gael ei hadolygu gan bobl wahanol.



### 3.21.2 Arsylwadau eraill

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn un rhesymol. Fodd bynnag, roeddent yn pryderu y gallai CBAC ddefnyddio'r eithriad hyd yn oed pan na fyddai gwir angen gwneud hyn. Roeddent o'r farn y dylid rhoi mesurau diogelu ar waith er mwyn atal sefyllfaoedd o'r fath. Er enghraifft, awgrymwyd y dylai CBAC ond defnyddio'r eithriad pan fydd yn gallu dangos ei fod wedi gwneud ei orau i osgoi'r angen i ddefnyddio'r eithriad.

Ar y llaw arall, pryder arall a fynegwyd oedd y gallai rhanddeiliaid ddisgwyl y caiff arbenigwyr newydd eu cynnwys ym mhob cam o'r broses adolygu a chyhuddo CBAC o ddiffyg cydymffurfiaeth os na fydd hyn yn digwydd.


Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu sut y byddai'r weithdrefn apelio yn gweithio o ystyried na fyddai unrhyw bapurau i'w marcio ac y byddai'r apelïadau yn seiliedig ar archwilio'r graddau a gynhyrchwyd gan y model ystadegol.

**Dylid caniatáu i CBAC gynnal proses apelio wedi'i symleiddio lle bo'r unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried adroddiad gan yr aelod o staff sy'n cynnal yr adolygiad gweinyddol ac unrhyw gynrychioliadau a wnaed gan y ganolfan yn sgil yr adroddiad hwnnw.**

### 3.22 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 12**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,187



O'r 3,187 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 74.4% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ac roedd 4.1% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. darparodd 504 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i esbonio eu hymateb.

### 3.23 Cefnogaeth i'r cynnig

Soniodd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig fod yr amgylchiadau eithriadol eleni yn golygu mai **proses apelio symlach** fyddai'r ffordd fwyaf **effeithlon** o archwilio apelïadau. Rhoddwyd nifer o rhesymau i gefnogi'r safbwynt hwn:

- Dan amodau hunanynysu a chyfyngiadau symud, gallai **apêl lawn fod yn anodd**, yn enwedig os bydd angen cynnwys llawer o bobl.

- Mae proses ddyfarnu newydd eleni, ac felly gellir disgwyl nifer uwch o apeliadau. Byddai gweithdrefn symlach yn helpu i ymdrin â'r apeliadau hynny yn fwy effeithlon.
- Bydd angen mwy o amser nag arfer i baratoi ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd; felly, rhaid i'r broses gael ei chwblhau cyn gynted â phosibl.
- Mae angen i'r cyfnod dyfarnu fod yn fyr er mwyn i [ddysgwyr gael eu graddau'n gyflym](#) a gallu gwneud penderfyniadau am eu dyfodol mewn da bryd.
- Nid yw adolygiad apêl llawn yn briodol o ystyried y seiliau a ganiateir ar gyfer apelio ac na chaiff unrhyw bapurau ffisegol eu harchwilio. Mae proses apelio symlach yn fwy priodol.

*I fyfyrwyr Safon Uwch fel fi, rwy'n credu y bydd hyn er ein budd pennaf, oherwydd gall proses apelio syml effeithio ar ddewisiadau prifysgolion a phenderfyniadau clirio. Mae rhai prifysgolion yn dechrau ychydig wythnosau ar ôl y diwrnod canlyniadau ac yn ystod y cyfnod ansicr hwn, byddai'n ddefnyddiol cael set derfynol o raddau cyn i'r tymor ddechrau.*

Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai gweithdrefnau apelio estynedig yn faich emosiynol ar ddysgwyr.

Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig fod angen i'r broses apelio ennill hyder y cyfranogwyr, a bod yn gadarn, yn deg ac yn amddiffynadwy, neu ni fydd ganddi awdurdod digonol. Er mwyn cyflawni hyn, roeddent o'r farn y dylid drafftio canllawiau i reoleiddio'r broses apelio. Credai'r ymatebwyr y dylai'r broses ganiatáu i bob parti gyflwyno tystiolaeth. Os bydd angen, dylid cysylltu â'r partïon, ac yn enwedig athrawon a dysgwyr, er mwyn cael eglurhad pellach.

Yn olaf, teimlwyd bod angen drafftio darpariaethau yn ymwneud ag arbenigedd y bobl a fydd yn adolygu'r apeliadau. Credai'r ymatebwyr y dylai'r bobl hyn ddeall ochr ystadegol y broses yn ogystal â'r system addysg a chymwysterau.

### 3.24 Pryderon am y cynnig

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig o'r farn y dylid cael [proses apelio lawn](#) hyd yn oed pe bai angen addasu rhai o'r rheolau adolygu. Gwnaethant awgrymu bod apeliadau'n bwysicach nag erioed eleni [am fod dull gweithredu cwbl newydd a goddrycholyn](#) cael ei roi ar waith. Yn eu tyb nhw, ymddengys nad oedd y broses yn cynnwys digon o [wiriadau cywirdeb](#) ac y byddai proses adolygu symlach ond yn arwain at fwy o gamgymeriadau.

*Ni ddylai'r broses apelio newid. Mae dyfodol pobl yn y fantol. Nid oes unrhyw waith marcio felly dylid cadw'r gwiriadau sicrhau ansawdd arferol ar waith.*

*Os nad yw'r data a gesglir 100% yn ddibynadwy a chlir, yna sut y gellir cywiro camgymeriadau'n gyflym.*

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod y cynnig wedi'i ddylunio [ileihau'r baich ar CBAC](#) ar draul proses briodol a theg. Ar wahân i'r elfen cywirdeb, teimlent nad oedd hyn yn dderbyniol am

eu bod o'r farn y byddai gan CBAC fwy o amser o ystyried na fyddai'n rhaid iddynt gyhoeddi, marcio na graddio unrhyw arholiadau.

*Ni ddylid torri corneli wrth ddelio â graddau dysgwyr a'u dyfodol.*

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn anghytuno am eu bod o'r farn y byddai'r cynnig yn troi'r apeliadau yn ymarfer 'ticio bocsys' arwynebol na fyddai'n newid y canlyniadau sy'n destun yr apeliadau.

Teimlai'r ymatebwyr fod defnyddio gweithdrefn apelio symlach yn annheg i gohort eleni gan fod dysgwyr yn y blynyddoedd blaenorol wedi gallu defnyddio gweithdrefn apelio lawn.

*[mae dysgwyr] yn haeddu'r un gwasanaeth apelio os yw'r graddau i gael eu hystyried yn 'gyfartal â'r holl ddysgwyr eraill mewn blynyddoedd blaenorol.'*

Er mwyn sicrhau cywirdeb, teimlai'r ymatebwyr fod angen i'r rheini sy'n ymchwilio i'r apeliadau allu cael gafael ar yr holl wybodaeth ac, os oes angen, y dylent allu casglu rhagor o ddata ar ddysgwyr unigol. Awgrymwyd y gallai'r data hwn hefyd gynnwys gwybodaeth am y rhesymeg dros y farn broffesiynol a roddwyd a manylion y broses gymedroli a gynhaliwyd gan ganolfannau.

### **3.25 Awgrymiadau amgen a ddarparwyd gan yr ymatebwyr**

Awgrymodd ymatebwyr hefyd ffyrdd o wella'r broses apelio. Ymddengys fod llawer o'r ymatebwyr hyn wedi gwneud argymhellion gan eu bod ar ddeall y gallai neu y byddai'r apeliadau yn cynnwys adolygiad llawn o'r graddau a'r farn broffesiynol a roddwyd.

#### **3.25.1 Cynnwys dysgwyr**

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu na fyddai canolfannau, am amryw resymau, yn cynrychioli safbwynt y dysgwyr yn deg. Felly, roedd ymatebwyr yn cynnig bod ymatebwyr yn chwarae mwy o ran yn y broses apelio ar wahanol lefelau. Er enghraifft, ar lefel y ganolfan, gallai'r ganolfan benodi 3 uwch-athro ac yna byddai'r dysgwr yn dewis un i gynrychioli ei achos. Ar lefel CBAC, awgrymodd ymatebwyr y dylai dysgwyr gael cyflwyno eu hadroddiad ochr yn ochr â sylwadau'r ganolfan. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hefyd y dylai'r apêl gael ei chynnal rhwng yr ymgeiswyr a CBAC.

#### **3.25.2 Dylai gynnwys athrawon/canolfannau**

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gellid datrys y broblem o gynrychiolaeth wael drwy gynnwys yr athrawon cywir yn y broses hon. Er enghraifft, argymhellodd ymatebwyr y dylai athrawon pwnc lunio'r sylwadau.

*Dylai'r athro gael rhoi unrhyw dystiolaeth sy'n briodol, yn ei farn ef, i gefnogi'i achos (hyd yn oed os nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag arholiadau). Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pynciau creadigol. Er enghraifft - perfformiad mewn cynhyrchiad ysgol, digwyddiad chwaraeon, perfformiad cerddorol, araith neu ddarn o*

*gelf. Unrhyw beth sy'n dangos lefel sgiliau'r ymgeisydd a sut rydym ni fel canolfan yn eu hadnabod nhw a'u galluoedd.*

Argymhellodd rhai o'r ymatebwyr y dylai'r sylwadau gael eu drafftio gan dîm o athrawon.

### 3.25.3 Argymhellion eraill

- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn mai athrawon a staff y ganolfan sy'n adnabod y dysgwyr yn well na neb ac felly mai nhw, fwy na thebyg, fyddai'r bobl orau i ymchwilio i apeliadau Argymhellodd yr ymatebwyr hyn y dylai [canolfannau ymchwilio i'r apeliadau](#).
- Ffefrir proses gyflym a syml, ond os na fydd yn arwain at ganlyniad y mae'r partion o'r farn ei fod yn deg neu'n foddhaol, dylid cynnal proses apelio ffurfiol.
- Os bydd yr apêl yn ymchwilio p'un a oes angen i [radd gael ei newid fwy na 2 radd neu ei gostwg](#), yna dylid cynnal adolygiad llawn.
- Cynnal [gweithdrefn apelio symlach](#) pan fydd yr apêl yn ymwneud â [chadarnhau ac unioni gwall](#) ond cynnal adolygiad llawn ym mhob achos arall.
- Pan fydd angen, gellid gwahodd y rhai sy'n ymwneud â'r apêl i gyflwyno'u hachosion, hyd yn oed os bydd yn rhaid gwneud hyn mewn cyfarfod ar-lein.
- Dylai apeliadau gael eu cynnal [am ddim](#).

### 3.26 Sylwadau ychwanegol am y cynnig

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen mwy o fanylion am y cynnig er mwyn mynegi barn.

Nodwyd bod y gair 'efallai' ym mharagraff 2.80 o'r ddogfen ymgynghori ('**efallai** y bydd proses symlach [...] yn briodol o ystyried amgylchiadau eithriadol yr haf hwn') yn awgrymu elfen o ddisgresiwn o ran p'un a ddefnyddir proses symlach. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn dehongli hyn fel bod pob apêl yn dilyn proses symlach (os penderfynir gwneud hyn) neu fod apeliadau'n dilyn gweithdrefn symlach pan fydd yr achos yn syml a gweithdrefn llawn pan fydd yr achos yn fwy cymhleth.

Mewn perthynas â'r ail bwynt, teimlai rhai o'r ymatebwyr nad oedd yn glir pam y byddai apeliadau symlach yn briodol mewn rhai achosion ond nid mewn achosion eraill, o ystyried natur weithdrefnol yr apeliadau. Awgrymwyd bod angen canllawiau cliriach ar y cynnig hwn, neu gallai'r penderfyniad ei hun fod yn destun apêl os bydd cyfranogwyr yn yr apêl yn anghytuno â'r dull arfaethedig (proses symlach neu llawn). Awgrymwyd bod proses apelio symlach yn cael ei chyflwyno mewn sgema a rennir â'r rhanddeiliaid.

Gofynnodd ymatebwyr y cwestiynau pellach canlynol am y cynnig:

- Beth a ddylai gael ei gynnwys yn yr adroddiad neu'r sylwadau?
- Pwy yw'r unigolyn annibynnol sy'n gwneud y penderfyniad? A fyddai'n dderbyniol bod yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad wedi bod yn rhan o bennu'r graddau asesu canolfannau neu'r drefn restrol ar gyfer canolfan sy'n rhan o apêl?
- Ai adolygiad o achos unigol yw gweithdrefn symlach neu adolygiad o'r ffordd y cafodd y graddau eu dyrannu?

- A fyddai'r weithdrefn symlach hon ar gael i bawb fyddai'n dymuno apelio?

### Unig swyddogaethau'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) yr haf hwn fydd adolygu:


i) i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ni, a'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun, neu

ii) os cafodd unrhyw wallau eu nodi yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r radd/graddau a gyfrifwyd a/neu yn y radd/graddau a ddyfarnwyd, p'un a gafodd y gwall hwnnw ei gywiro'n iawn.

### 3.27 I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig hwn?

**Ffigur 13**

Cyfanswm yr ymatebwyr: 3,164



O'r 3,164 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 74.0% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ac roedd 5.1% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. darparodd 358 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i esbonio eu hymateb.

### 3.28 Cefnogaeth i'r cynnig

Teimlai'r ymatebwyr fod cyfyngu ar y materion i'w hadolygu gan ERPS yn ymddangos yn **briodol** o ystyried nad oedd unrhyw farcio, felly y gwallau a nodir yn y cynnig fyddai'r unig wallau a fyddai'n debygol o ddiwydd.

*Nid oes unrhyw gyfrifoldeb angenrheidiol arall yn y sefyllfa bresennol y mae'r myfyrwyr yn ei hwynebu.*

*Mae'n anodd gweld ym mha ffordd arall y gallent gyfrannu at y broses.*

Roeddent hefyd o'r farn bod y cynnig yn cyd-fynd â'r dull gweithredu cyffredinol ar gyfer yr haf hwn lle bydd canolfannau'n dilysu barn academiaidd eu hathrawon, ac y bydd CBAC yn dilysu'r canolfannau yn erbyn y dystiolaeth a ddarperir. O ystyried y dull gweithredu hwn, ni ddylai EPRS fynd ati i ddadansoddi'r broses ddyfarnu'n drylwyr, felly teimlwyd ei bod yn dderbyniol i faterion eraill gael eu datrys gan CBAC a'r canolfannau. Teimlai'r ymatebwyr y byddai hyn yn sicrhau bod y broses yn aros yn syml, oherwydd po fwyaf o gyrrff a pho fwyaf o gymwyseddau a briodolir iddynt, y mwyaf cymhleth fydd y broses.

Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y byddai cael EPRS fel corff dilysu ychwanegol (yn yr achosion a amlinellir yn y cynnig) yn rhoi gwell siawns i ddysgwyr gael graddau cywir am y byddai'r goruchwyliaeth yn sicrhau [dull gweithredu teg a safonedig](#).

### 3.29 Pryderon am y cynnig

Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno o'r farn [nad oedd unrhyw sail dros newid](#) lefel y craffu a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Gwnaethant ddadlau y byddai'r cynnig yn cyfyngu ar sail y dysgwyr i apelio'r farn broffesiynol a'r graddau a ddyfranwyd iddynt. Gwnaethant ailbwysleisio bod hyn yn mynd yn groes i'r [hawl sylfaenol i apelio](#) a'i fod yn [annheg](#). Credent hefyd mai bwriad y cynnig oedd helpu CBAC a chanolfannau i ymdrin â'u swyddogaethau ac nad oedd yn cynrychioli buddion y dysgwyr, a'i fod yn agored i heriau cyfreithiol.

Ailbwysleisiodd ymatebwyr gan na fyddai unrhyw arholiadau i'w marcio a'u graddio, y dylid bod [digon o amser i gynnal apeliadau](#). Awgrymwyd bod adolygiad llawn gan EPRS yn bwysig yn nhyb yr ymatebwyr, o ystyried bod yr holl wiriadau arferol eraill wedi'u cyfyngu neu wedi'u dileu o'r broses ddyfarnu. Bydd y broses symlach yn rhoi cohort eleni dan anfantais sylweddol o gymharu â grwpiau blwyddyn blaenorol a'r dyfodol (fwy na thebyg).

### 3.30 Awgrymiadau amgen a ddarparwyd gan yr ymatebwyr

#### 3.30.1 EPRS i weithredu fel llys os daw hi i'r pen

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y gallai camgymeriadau data ddigwydd ar lefel y ganolfan yn ogystal ag ar lefel CBAC. Gan hynny, roeddent o'r farn y dylai EPRS weithredu fel llys os daw hi i'r pen, a fyddai'n ymchwilio i bob math o gwynion ac yn gwneud penderfyniadau, gyda'r apelyddion yn cyflwyno tystiolaeth yn ôl yr angen.

Soniodd ymatebwyr y gallai EPRS ymchwilio i'r canlynol:

- Cwynion yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd neu a ddefnyddiwyd wrth ddyfarnu (gwaith ysgol, graddau blaenorol ac ati) a'r ffordd y defnyddiwyd yr wybodaeth hon gan CBAC.
- Cwynion o ran a oedd egwyddorion sylfaenol y model ystadegol a'r graddau a ddyfarnwyd yn deg. Teimlai rhai y dylai dysgwyr allu apelio i EPRS os oeddent yn credu nad oedd y model ystadegol wedi adlewyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y ganolfan mewn modd digonol. Os bydd hyn yn rhy llafurus, argymhellwyd y dylid samplu ar hap mewn cysylltiad â'r broses safoni o leiaf.
- Cwynion am duedd gan athrawon neu gamymddwyn.
- Cwynion bod y graddau yn is na'r disgwyl neu'r rhagfynegiadau.

### 3.30.2 EPRS i gyflawni rôl sicrhau ansawdd

Credai rhai o'r ymatebwyr y dylai EPRS, yn ogystal ag ymchwilio i apeliadau ar unrhyw sail, chwarae rôl ragweithiol wrth adolygu a oedd y canlyniadau'n dderbyniol. Er enghraifft, dylai EPRS gadarnhau a oedd y graddau cyffredinol a ddyfarnwyd ar lefel pwnc neu ganolfan yn briodol o ystyried yr holl ffactorau perthnasol a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y canolfannau. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn dadlau y dylai EPRS hefyd ddilysu a wnaeth ysgolion a cholegau ddilyn y gweithdrefnau'n gywir ac asesu gofynion, polisiau a gweithdrefnau CBAC yn ogystal â'u cydymffurfiaeth â nhw. Er mwyn sicrhau barn wrthrychol, teimlwyd y byddai angen i EPRS siarad â dysgwyr a chanolfannau.

Y prif reswm a roddwyd wrth awgrymu'r dull gweithredu rhagweithiol hwn oedd pryder y byddai'r graddau'n is na'r disgwyl am na fyddai'r data hanesyddol yn adlewyrchu'r cynnydd diweddar.

*Mae cael golwg mwy cyffredinol o degwch, uniondeb, cysondeb a dibynadwyedd y broses ganlyniadau yn hanfodol yn y sefyllfa ddigynsail hon. Nid oes gennym unrhyw brofiad i ddibynnu arno: mae hyn yn dir newydd a dieithr. Mae'n hollbwysig craffu ar y broses gyfan er mwyn sicrhau ei bod yn briodol.*

*Dylai EPRS wneud y ddau beth hynny ond mae'n rhaid iddo hefyd graffu ar y broses dyfarnu graddau a sicrhau ei bod yn dyfarnu'r graddau tecaf posibl.*

### 3.30.3 Arsylwadau a chwestiynau eraill

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen mwy o fanylion am y cynnig er mwyn mynegi barn. Gofynnodd un ymatebwr a allai graddau gael eu gostwng o ganlyniad i adolygiad EPRS. Ailbwysleisiodd ymatebwyr eraill yr angen i egluro beth yw 'data anghywir'. Nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn siŵr a allai dysgwyr apelio i EPRS. Roeddent o'r farn y dylid caniatáu hyn.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai adolygiad EPRS fod yn gyfle i sicrhau y cynhelir ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' pe bai amgylchiadau o'r fath yn codi eto yn y dyfodol. Yn yr un modd, argymhellwyd y dylai CBAC achub ar bob cyfle i ddysgu o'r sefyllfa eithriadol hon ac asesu'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd.

Argymhellodd un ymatebwr y dylid sefydlu gwasanaeth newydd i ddarparu ar gyfer dysgwyr 2020, er enghraifft, gwasanaeth Adolygu graddau.

## 4 Asesiad Effaith Integredig

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol, ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'n Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Trafodir barn yr ymatebwyr ar bob un o'r asesiadau effaith hyn isod. Nid oedd y cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr arolwg a addaswyd ar gyfer pobl ifanc.

### 4.1 Asesiad Effaith Rheoleiddiol

#### 4.1.1 Trosolwg o'r ymatebion


Gofynnwyd tri chwestiwn i'r ymatebwyr am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

1. Nodi unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i liniaru unrhyw rai o'r effeithiau rheoleiddiol a nodwyd gennym eisoes yn yr asesiad effaith.

Cafwyd sylwadau gan 445 o ymatebwyr ar y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, nododd bron i hanner yr ymatebwyr hyn fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gynhwysfawr, ac nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach, neu eu bod yn ansicr. Roedd y sylwadau eraill a gafwyd yr un peth â'r rhai a ddarparwyd gan yr ymatebwyr i'r trydydd cwestiwn ar yr asesiad effaith hwn, neu'n debyg iawn iddynt. Er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau'n glir, mae'r sylwadau wedi cael eu cyfuno ac fe'u cyflwynir gyda'i gilydd yn adran 4.1.2.

2. Rhoi eu barn ynghylch a oedd effeithiau rheoleiddiol cadarnhaol neu negyddol ychwanegol nad oeddem wedi'u nodi yn yr asesiad effaith.

#### Ffigur 14



*Noder: Rhoddodd rhai ymatebwyr fwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Felly, gallai pob gwerth a ddangosir yn y siart greu cyfanswm o fwy na 100%.*

Atebodd 1,871 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hyn, dywedodd llai nag 20% eu bod wedi nodi effeithiau ychwanegol. Dywedodd yr ymatebwyr eraill nad oeddent wedi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol neu eu bod yn ansicr.

3. Egluro eu hateb i gwestiwn 2, gan roi amlinellid clir o'r effeithiau ychwanegol a nodwyd ganddynt ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effeithiau hynny.

Cyflwynodd 319 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Yn ôl bron i un o bob pump o'r sylwadau hyn, nid oedd gan yr ymatebwyr unrhyw beth arall i'w ychwanegu neu roeddent



yn ansicr. Caiff y sylwadau eraill eu cyflwyno ochr yn ochr â'r ymatebion i'r cwestiwn cyntaf ar yr asesiad effaith hwn yn adran 4.1.2 isod.

#### 4.1.2 Crynodeb o'r sylwadau ar gwestiynau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Achubodd nifer o ymatebwyr ar y cyfle i ailfynegi safbwyntiau a ystyriwyd eisoes mewn perthynas â'r cwestiynau am y nodau a fydd yn ategu'r model safoni ystadegol, neu'r broses apelio. Dim ond sylwadau sy'n ymwneud yn glir â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi cael eu hailadrodd.

### Yr effaith ar ddysgwyr

#### *Llesiant dysgwyr*

Teimlai rhai o'r ymatebwyr y dylai'r asesiad effaith roi mwy o ystyriaeth i lesiant dysgwyr a oedd i fod i gwblhau eu hasesiadau yr haf hwn. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys y ffaith y bydd dysgwyr yn cael gradd heb orfod sefyll arholiad, sy'n gallu rhoi straen ar rai ohonynt, ac y gallai'r radd hon, yn achos rhai dysgwyr, fod yn uwch na'r radd y byddent wedi'i chael pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau.

Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ymatebwyr a drafododd yr effaith ar ddysgwyr yn poeni am effeithiau negyddol posibl. Gan adlewyrchu safbwyntiau a ystyriwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, nododd ymatebwyr y gallai rhai dysgwyr gael gradd is na'r radd y byddent wedi'i chael pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau. Teimlai ymatebwyr hefyd fod rhai dysgwyr yn bryderus am nad ydynt yn gwybod yn union sut y caiff eu graddau eu cyfrifo eleni a'u bod yn teimlo fel pe baent wedi colli rheolaeth dros eu canlyniadau. Ystyriwyd ei bod yn bwysig nodi effeithiau'r pryderon hyn ar lesiant dysgwyr a'u cyfleoedd i wneud cynnydd yn yr asesiad effaith hwn.

Er mwyn helpu i liniaru'r effaith bosibl ar ddysgwyr, ailbwysleisiodd ymatebwyr ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y broses ar gyfer cyfrifo graddau yr haf hwn yn cael ei hegluro'n glir i ddysgwyr. Awgrymwyd y dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl ac mewn fformatau gwahanol er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch. Awgrymwyd hefyd y dylid darparu taflen ffeithiau gyda chanlyniadau'r dysgwyr i egluro sut y cyfrifwyd eu graddau. Awgrym arall oedd y gellid cynnwys dysgwyr yn y broses i raddau mwy ac y gallent drafod eu graddau â'u canolfannau. Teimlwyd y gallai hyn helpu dysgwyr i deimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu graddau.

Teimlwyd hefyd y dylai'r model terfynol ar gyfer safoni graddau fod yn syml ac yn gadarn er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn cyhoeddi canlyniadau. Teimlwyd y gallai unrhyw oedi gael effaith andwyol ar lesiant dysgwyr.

Hefyd, ailadroddodd ymatebwyr bryderon efallai na fydd y cymwysterau a ddyfernir yr haf hwn yn cael eu hystyried mor werthfawr â chymwysterau dysgwyr mewn blynyddoedd eraill ac y gallai dysgwyr ei chael hi'n anodd cael lleoedd mewn prifysgolion neu swyddi yn y dyfodol o ganlyniad i hynny. Awgrymwyd ein bod yn gweithio'n agos gyda phrifysgolion a chyflogwyr i sicrhau eu bod yn gwybod sut y cyfrifwyd graddau yr haf hwn a'u bod yn teimlo bod modd ymddiried yn y deilliannau. Hefyd, os bydd deilliannau cenedlaethol yn gwella

eleni, awgrymwyd ein bod yn mynegi'n glir y gallai hyn fod wedi digwydd o ganlyniad i welliant gwirioneddol mewn safonau neu gohort cryfach er mwyn sicrhau bod y deilliannau'n cael eu parchu. Awgrym arall oedd y dylai'r dull a ddefnyddir i gyfrifo graddau yr haf hwn fod yr un peth â'r dull a ddefnyddir yn awdurdodaethau eraill y DU er mwyn ei gwneud hi'n haws i randdeiliaid ddeall a chymharu cyflawniadau dysgwyr.

Yn olaf, nodwyd y gallai methiant i ganiatáu apeliadau unigol gael effaith andwyol ar lesiant dysgwyr yn y tymor hwy, gan wneud iddynt bendroni 'beth os' drwy'r amser. Teimlwyd y dylai'r asesiad effaith roi mwy o ystyriaeth i hyn.

### *Yr effaith ar grwpiau penodol o ddysgwyr*

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y bydd y broses yn effeithio ar grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae'r grwpiau hyn wedi'u nodi yn y sylwadau ar Nod 4 ond maent yn cynnwys y dysgwyr canlynol:

1. dysgwyr a oedd i fod i ailsefyll asesiadau eleni ac yr oedd disgwyl iddynt ragori ar eu cyrhaeddiad blaenorol yn yr uned honno;
2. dysgwyr y canfuwyd yn ddiweddar fod ganddynt ADY ac a oedd i fod i gael cymorth ychwanegol ar gyfer eu hasesiadau yr haf hwn;
3. dysgwyr a oedd wedi tanberfformio mewn asesiadau blaenorol o ganlyniad i amgylchiadau personol, fel salwch;
4. dysgwyr sy'n oedolion na allant fynychu pob gwrs ac sydd heb fawr ddim data cyrhaeddiad blaenorol, os o gwbl;
5. dysgwyr a addysgwyd gan athro amhrofiadol, neu sawl athro gwahanol, nad oes ganddynt o bosibl y profiad neu'r wybodaeth i ddarparu data asesu cywir ar ran y ganolfan;
6. dysgwyr sy'n rhagori mewn arholiadau ond sy'n aml yn tanberfformio mewn asesiadau mewnol a gwaith dosbarth;
7. dysgwyr a oedd yn disgwyl canlyniadau gwell na'r canlyniadau a gawsant mewn arholiadau ffug neu waith dosbarth am eu bod wedi cael cymorth ychwanegol gan diwtor preifat, wedi mynychu sesiynau ymyrryd yn yr ysgol neu am eu bod yn bwriadu ymdrechu llawer mwy gyda'u gwaith adolygu.

Roedd awgrym hefyd y gallai'r cynigion fod o fudd i ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion annibynnol am y byddai data hanesyddol y ganolfan yn ffafriol. Teimlwyd y dylai'r asesiadau effaith ystyried yr effaith ar ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion gwladol a sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith.

Gan adlewyrchu sylwadau a drafodwyd yn Nod 4 ymhellach, nododd ymatebwyr ei bod hi'n bwysig asesu'r effaith bosibl ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig neu ddysgwyr o gefndir economaidd-gymdeithasol is. Unwaith eto, awgrymwyd y dylid adolygu deilliannau'r dysgwyr hyn er mwyn sicrhau nad yw'r broses ar gyfer cyfrifo graddau wedi eu rhoi dan anfantais.

Gan adlewyrchu'r sylwadau yn Nod 5, awgrymwyd hefyd y dylai'r asesiad effaith ystyried effeithiau defnyddio data cyrhaeddiad blaenorol o gymwysterau Safon UG fel rhan o'r model

safoni ar gyfer cymwysterau Safon Uwch. Am fod llawer o ddysgwyr yn ennill gradd uwch yn eu cymwysterau Safon Uwch o gymharu â'u cymwysterau Safon UG, teimlwyd y gallai defnyddio cyrhaeddiad mewn cymwysterau UG i safoni deilliannau roi dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â dysgwyr yn Lloegr. O ganlyniad i hyn, awgrymwyd y gallai dysgwyr yng Nghymru gael graddau is na dysgwyr yn Lloegr, a allai gael effaith andwyol ar eu gallu i fynd i'r brifysgol o'u dewis neu gael swydd.

### *Y penderfyniad i beidio â chynnal cyfres lawn o arholiadau yn ystod tymor yr hydref*

Teimlai rhai o'r ymatebwyr y dylai'r asesiad effaith ystyried yr effaith ar ddysgwyr sy'n siomedig â'u graddau ac na allant sefyll arholiad nes haf 2021. Nodwyd y gall dysgwyr yn Lloegr sefyll arholiadau yn ystod tymor yr Hydref 2020. Roedd ymatebwyr yn poeni y gallai dysgwyr yng Nghymru wynebu anfantais o ganlyniad i hyn.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at yr effeithiau posibl ar lesiant dysgwyr pe bai'n rhaid iddynt aros blwyddyn cyn gallu sefyll arholiad. Awgrymodd eraill na fyddai'n ariannol hyfyw i rai dysgwyr sefyll eu arholiadau yr haf nesaf, gan awgrymu y gallai hynny eu rhwystro rhag gwneud cynnydd. Awgrymwyd mai un ffordd o liniaru hyn oedd caniatáu i ddysgwyr sefyll arholiadau yr haf nesaf am ddim. Awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi dysgwyr na allant wneud cynnydd fel roeddent wedi bwriadu, er mwyn sicrhau y gallant sefyll yr arholiadau yr haf nesaf ar ôl gwneud y gwaith paratoi priodol a chael arweiniad proffesiynol.

O ystyried na all dysgwyr sefyll arholiad nes haf 2021 yn y rhan fwyaf o bynciau, gofynnwyd am wybodaeth glir am y ffordd y bydd prifysgolion yn ystyried y canlyniadau eleni ac a allant newid eu cynigion er mwyn ystyried yr amgylchiadau eithriadol ar gyfer dyfarnu graddau yr haf hwn. Yn yr un modd, awgrymwyd y dylai colegau adolygu eu meini prawf derbyn er mwyn helpu dysgwyr i wneud cynnydd lle bo hynny'n bosibl.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr y dylai'r asesiad effaith roi mwy o ystyriaeth i'r posibilrwydd y gallai nifer mawr o ddysgwyr fod yn awyddus i sefyll arholiad yr haf nesaf os byddant yn anhapus â'r radd a gyfrifwyd ar eu cyfer eleni. Nodwyd na fydd llawer o ganolfannau yn gallu darparu dosbarthiadau ychwanegol er mwyn helpu dysgwyr i baratoi gan y bydd angen iddynt dreulio amser yn sicrhau bod dysgwyr y flwyddyn nesaf yn gwbl barod ar ôl i'r ysgol fod ar gau. Awgrymwyd hefyd y dylai'r asesiad effaith ystyried nifer yr arholiadau y bydd rhai dysgwyr yn eu sefyll yr haf nesaf os byddant yn ailsefyll cymwysterau o'r haf hwn, yn ogystal â chofrestru ar gyfer cymwysterau eraill. Gan adlewyrchu sylwadau a ystyriwyd yn Nod 2, awgrymwyd y gellid lliniaru'r effeithiau posibl hyn yn rhannol drwy ganiatáu i ddeilliannau fod yn fwy hael nag arfer eleni. Teimlwyd y byddai hyn yn galluogi mwy o ddysgwyr i wneud cynnydd fel roeddent wedi bwriadu ac yn cyfyngu ar nifer y dysgwyr a fydd yn gorfod sefyll eu harholiadau yr haf nesaf.

### *Ymgeiswyr preifat*

Mewn perthynas ag ymgeiswyr preifat nad oes ganddynt gydberthynas yn barod â chanolfan a all ddarparu data asesu, ailbwysleisiwyd ei bod yn bwysig canfod atebion amgen. Yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer ymgeiswyr preifat a drafodwyd yn Nod 1, awgrymwyd y

dylem ystyried opsiynau i'r dysgwyr hyn sefyll eu harholiadau yn ystod tymor yr Hydref 2020, a'u helpu i sefydlu cysylltiad â chanolfan a fyddai'n gallu darparu data asesu pe bai'n rhaid canslo cyfres arholiadau'r Hydref hefyd.

Awgrymwyd hefyd fod angen arweiniad clir er mwyn helpu'r dysgwyr hyn i ddod o hyd i ganolfannau a allai gefnogi eu mynediad yr haf hwn. Holwyd a oedd unrhyw fathau eraill o ddysgwyr na fyddent yn cael gradd o bosibl ac awgrymwyd y dylid nodi hyn yn glir yn yr asesiad effaith.

Awgrym arall oedd y dylem weithio gyda phrifysgolion i sicrhau eu bod yn deall efallai na fydd ymgeiswyr preifat yn cael gradd eleni a'u hannog i ystyried gofynion mynediad amgen ar gyfer y dysgwyr hyn er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn ôl y bwriad.

## **Yr effaith ar athrawon a chanolfannau**

### *Pwysau ar athrawon*

Nododd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn falch bod camau wedi cael eu cymryd i leihau dylanwad pwysau gan ddysgwyr a rhieni yn y broses. Roeddent yn teimlo bod hyn yn bwysig er mwyn helpu canolfannau i gynnal cydberthynas gadarnhaol â dysgwyr a'u teuluoedd.

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn poeni y gallai canolfannau ddod o dan bwysau gan ddysgwyr neu rieni ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, yn enwedig os cyhoeddir data asesu canolfannau. Awgrymwyd y dylai'r asesiad effaith ystyried hyn a'r ffyrdd y gallwn helpu gweithwyr addysg proffesiynol yn hyn o beth.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol i ganolfannau gael y canlyniadau yn gynt nag arfer fel bod amser ganddynt i weld sut mae'r graddau a gyfrifwyd yn wahanol i'w graddau asesu. Teimlwyd y byddai hyn yn galluogi canolfannau i gyflwyno unrhyw heriau penodol i CBAC cyn i'r canlyniadau gael eu rhannu â'r dysgwyr, er mwyn lleihau nifer y ceisiadau apêl. Nodwyd y byddai hyn hefyd yn helpu canolfannau i baratoi ar gyfer diwrnod canlyniadau pan y gallai fod nifer mawr o ymholiadau a phryderon gan ddysgwyr a'u teuluoedd.

Nodwyd hefyd y gallai'r broses o ddarparu data asesu ar ran canolfannau fod yn feichus i athrawon, y gallai llawer ohonynt fod yn wynebu heriau mewn perthynas â gweithio o bell neu reoli eu dyletswyddau gofal. Gan nad yw athrawon wedi darparu data at y diben hwn o'r blaen, awgrymwyd y dylai hyfforddiant trylwyr a chanllawiau cynhwysfawr fod ar gael. Awgrymwyd y dylai'r canllawiau hyn gynnwys gwybodaeth am sut i ddileu rhagfarn o'r broses, sut i safoni penderfyniadau'n fewnol a sut i sicrhau cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Nododd rhai o'r ymatebwyr ei bod hi'n bwysig sicrhau yr ymddiriedir mewn athrawon i ddarparu data asesu cywir ar ran canolfannau. Teimlwyd y gallai unrhyw awgrym na all athrawon ddarparu data o'r fath arwain at ddiffyg ymddiriedaeth yn y proffesiwn a diwylliant o ficoreoli mewn canolfannau.

Awgrymwyd hefyd y gallai rhai canolfannau deimlo dan bwysau i ddarparu graddau ar gyfer ymgeiswyr preifat neu brofi effeithiau andwyol os na allant wneud hynny. Teimlwyd y dylai'r asesiad effaith ystyried hyn.

### *Canolfannau sy'n rhagweld y bydd eu deilliannau'n gwella neu'n gwaethygu*

Gan adlewyrchu sylwadau a drafodwyd yn Nod 3, teimlai rhai o'r ymatebwyr y dylai'r asesiad effaith roi ystyriaeth fanylach i effaith y broses ar ysgolion a oedd yn rhagweld y byddai eu canlyniadau'n gwella yr haf hwn. Cafodd yr awgrymiadau ynghylch galluogi'r ysgolion hyn i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi hyn, ystyried data dros dair blynedd o leiaf a lleihau'r pwysoliad a roddir i ddata hanesyddol canolfannau yn y model safoni, eu hailadrodd fel mesurau lliniaru.

Ar y llaw arall, nodwyd efallai na chaiff y canolfannau hynny a allai fod wedi gweld eu canlyniadau'n gwaethygu yr haf hwn eu nodi, a allai olygu na chaiff y cymorth priodol ei roi ar waith dros y flwyddyn academaidd nesaf.

### *Yr effeithiau ariannol ar ganolfannau*

Nodwyd bod canolfannau yn rheoli cyllidebau is ac am nad oes arholiadau'n cael eu cynnal eleni, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai CBAC roi cyfiawnhad clir dros y ffioedd cofrestru ar gyfer arholiadau ac ystyried rhoi ad-daliad llawn neu rannol i ganolfannau neu ddysgwyr os na ellir cadarnhau'r costau hyn.

### *Yr effaith ar bynciau llai poblogaidd*

Roedd rhai pryderon y gallai'r cynigion gael effaith andwyol ar gymwysterau â nifer isel o ymgeiswyr gan y bydd y setiau data sydd ar gael yn fach. Awgrymwyd bod prosiect ymchwil yn cael ei gynnal i ystyried yr effaith ar y pynciau hyn.

## **Yr effaith ar CBAC**

Teimlai rhai o'r ymatebwyr y bydd y broses yn feichus i CBAC yr haf hwn a'i bod yn bwysig bod pob rhanddeiliad yn ymddiried ynddo.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at yr effaith ariannol gadarnhaol i CBAC am nad yw'n talu am arholwyr na chymedrolwyr yr haf hwn. Nodwyd hefyd y gallai hyn gael effaith ariannol ar unigolion sy'n gweithio i CBAC yn y rolau hyn ac nad ydynt yn cael incwm.

## **Yr effaith ar golegau, prifysgolion a chyflogwyr**

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y goblygiadau posibl o ran cyllid i ddarparwyr ôl-16, gan gynnwys prifysgolion. Os bydd dysgwyr yn cael graddau is nag yr oeddent yn eu disgwyl, awgrymwyd efallai na fyddant yn parhau ar y llwybr a gynlluniwyd ganddynt. Gallai hyn gyfyngu ar incwm colegau a phrifysgolion a allai, yn y senario waethaf, olygu nad yw'n ymarferol iddynt barhau i ddarparu addysg. Awgrymwyd y gallai hyn effeithio ar dderbyniadau prifysgolion am y 3-4 mlynedd nesaf ac, o ganlyniad, teimlwyd ei bod yn hollbwysig ystyried yr effaith ar y sefydliadau hyn.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at yr her logistaidd a allai wynebu canolfannau sy'n cynllunio eu darpariaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Os bydd deilliannau'n uwch na'r arfer, awgrymwyd y gallai niferoedd uwch na'r arfer wneud cais am gyrsiau, a allai effeithio ar drefniadau amserlennu canolfannau. Ar y llaw arall, os bydd dysgwyr Safon UG yn cael graddau is na'r disgwyl, awgrymwyd efallai na fyddant yn parhau i astudio ar gyfer cymwysterau Safon Uwch, a allai olygu y bydd rhai dosbarthiadau yn anymarferol. Teimlwyd bod angen ystyried y senarios hyn yn yr asesiad effaith.

### **Yr effaith ar rieni**

Awgrymwyd y dylai'r asesiad effaith ystyried yr effaith ar rieni. Nodwyd y bydd angen i rieni gefnogi a thywys eu plant drwy'r broses eleni a'u helpu i ddelio ag unrhyw oblygiadau emosiynol neu ymarferol os byddant yn siomedig â'u canlyniadau. Awgrymwyd bod pob penderfyniad yn cael ei rannu â'r rhieni a'i esbonio iddynt yn glir er mwyn eu helpu i ddeall y broses. Awgrymwyd hefyd fod rhieni'n cael dogfen fer yn egluro'r hyn y gallant ei wneud os na fydd eu plentyn yn cael y graddau yr oedd yn eu disgwyl. Teimlwyd y bydd hyn hefyd yn helpu i leddfu'r pryderon am lesiant dysgwyr a drafodwyd uchod.

### **Yr effaith ar ddyfodol cymwysterau**

Teimlai rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig ystyried yr effaith ar ddyfodol cymwysterau. Teimlwyd y gallai dyfarnu graddau i ddysgwyr sydd heb sefyll arholiadau eleni godi amheuan ynglŷn â'r angen am arholiadau o'r fath yn y dyfodol. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn poeni am hyn a gwnaethant awgrymu y dylid cwblhau ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' cynhwysfawr ar ôl y broses er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol fyfyrion arni. Bydd hyn hefyd yn golygu y gellir sicrhau bod y system yn barod rhag ofn y bydd angen canslo arholiadau eto yn y dyfodol.

Roedd pryder hefyd y gallai dyfarnu cymwysterau i ddysgwyr nad oeddent wedi cwblhau'r cwrs, danseilio'r cymwysterau, yn enwedig os oes ganddynt yr un statws â blynyddoedd eraill. Teimlwyd y dylai'r asesiad effaith ystyried hyn yn ofalus.

### **Sylwadau eraill**

Nododd rhai o'r ymatebwyr, er na allent feddwl am effeithiau ychwanegol ar hyn o bryd, ei bod hi'n bwysig bod effaith penderfyniadau yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw oblygiadau anfwriadol yn cael eu nodi'n gynnar.

Un sylw cyffredinol oedd bod angen sicrhau bod pob penderfyniad o'r ymgynghoriad hwn, a manylion am sut y caiff graddau eu cyfrifo a sut y gall dysgwyr apelio, yn cael eu cyfathrebu'n glir i'r holl randdeiliad mewn modd amserol. Awgrymwyd y bydd hyn yn helpu i liniaru llawer o'r effeithiau a nodwyd.

Awgrymwyd hefyd y dylid cyhoeddi manylion modelau safoni eraill a ystyriwyd fel y gall rhanddeiliaid ddeall yr opsiynau a rhinweddau'r model a ddewiswyd.

## 4.2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### 4.2.1 Trosolwg o'r ymatebion


Gofynnwyd tri chwestiwn i'r ymatebwyr am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

1. Nodi unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i liniaru unrhyw rai o'r effeithiau ar gydraddoldeb a nodwyd gennym eisoes yn yr asesiad effaith.

Cafwyd sylwadau gan 451 o ymatebwyr ar y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, nododd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr hyn fod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gynhwysfawr, ac nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach, neu eu bod yn ansicr. Roedd y sylwadau eraill a gafwyd yr un peth â'r rhai a ddarparwyd gan yr ymatebwyr i'r trydydd cwestiwn ar yr asesiad effaith hwn, neu'n debyg iawn iddynt. Er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau'n glir, mae'r sylwadau wedi cael eu cyfuno ac fe'u cyflwynir gyda'i gilydd yn adran 4.2.2.

2. Rhoi eu barn ynghylch a oedd effeithiau cadarnhaol neu negyddol ychwanegol ar gydraddoldeb nad oeddem wedi'u nodi yn yr asesiad effaith.

#### Ffigur 15



*Noder: Rhoddodd rhai ymatebwyr fwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Felly, gallai pob gwerth a ddangosir yn y siart greu cyfanswm o fwy na 100%.*

Atebodd 1,694 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hyn, dywedodd llai nag 10% eu bod wedi nodi effeithiau ychwanegol. Dywedodd yr ymatebwyr eraill nad oeddent wedi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol neu eu bod yn ansicr.

3. Egluro eu hateb i gwestiwn 2, gan roi amlinelliad clir o'r effeithiau ychwanegol a nodwyd ganddynt ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effeithiau hynny.

Cyflwynodd 264 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Yn ôl tua hanner y sylwadau hyn, nid oedd gan yr ymatebwyr unrhyw beth arall i'w ychwanegu neu roeddent yn ansicr. Caiff y sylwadau eraill eu cyflwyno ochr yn ochr â'r ymatebion i'r cwestiwn cyntaf ar yr asesiad effaith hwn yn adran 4.2.2 isod.

### 4.2.2 Crynodeb o'r sylwadau ar gwestiynau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Gall data asesu canolfannau roi grwpiau o ddysgwyr dan anfantais yn systematig*

Gan adlewyrchu sylwadau a drafodwyd yn Nod 4, unwaith eto, cyfeiriodd ymatebwyr at grwpiau o ddysgwyr a allai, yn eu barn nhw, wynebu anfantais yn systematig o ganlyniad i'r broses ar gyfer cyfrifo graddau yr haf hwn. Teimlai'r ymatebwyr hyn y dylai effaith y broses ar y grwpiau hyn gael ei hystyried yn ofalus yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd y grwpiau o ddysgwyr a nodwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys:

1. **Dysgwyr a oedd i fod i ailsefyll asesiadau yr haf hwn** – nodwyd y bydd rhai o'r dysgwyr hyn yn ailsefyll asesiadau Safon Uwch ac y bydd angen iddynt ennill eu graddau disgwylidig cyn gallu mynd i'r brifysgol heb ohirio am flwyddyn arall. Teimlai ymatebwyr y dylid rhoi arweiniad penodol i'r dysgwyr hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hopsiynau.
2. **Dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig** - codwyd pryderon y gallai'r dysgwyr hyn gael eu tanwobrwyo yn nata asesu canolfannau o ganlyniad i ragfarn ddiarwybod. Awgrymwyd y dylai'r model safoni ystyried hyn.
3. **Dysgwyr mwy abl** - mynegwyd pryderon penodol am lesiant dysgwyr mwy abl os na fyddant yn cael eu graddau disgwylidig. Teimlwyd y byddai angen i'r dysgwyr hyn ennill graddau uwch i gyflawni eu huchelgais ac y gallai eu llesiant ddioddef os na fyddant yn ennill y graddau hynny.
4. **Dysgwyr sydd â threfniadau mynediad ar waith ar gyfer arholiadau** – mynegwyd pryderon y gallai data asesu canolfannau ragweld deilliannau is ar gyfer y dysgwyr hyn am fod rhai asesiadau mewnol yn cael eu cynnal heb y trefniadau mynediad hyn. Nodwyd hefyd ei bod hi'n bosibl nad oedd rhai dysgwyr wedi cael cymorth priodol ar gyfer asesiadau cymwysterau blaenorol ac y gallai hyn, felly, fod wedi effeithio ar eu data cyrhaeddiad blaenorol.
5. **Dysgwyr ag ADY neu anawsterau emosiynol** – teimlwyd efallai nad oes gan athrawon ddealltwriaeth lawn o allu'r dysgwyr hyn dan amodau arholiad ac y gallent felly danystyried eu potensial. Ar y llaw arall, nodwyd y gallai fod yn fuddiol i rai o'r dysgwyr hyn beidio â gorfod sefyll arholiad gan eu bod yn eu rhoi dan straen.
6. **Dysgwyr o gefndir economaidd-gymdeithasol is** - Teimlwyd bod angen i'r asesiad effaith hwn roi mwy o ystyriaeth i'r effaith ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim (fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol).
7. **Dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol** – nodwyd bod rhai o'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cyflym o ran eu meistrolaeth o Saesneg, a all effeithio ar eu dealltwriaeth o lawer o'u pynciau. Felly, ystyriwyd ei bod yn rhesymol disgwyl y gallai'r dysgwyr hyn wneud gwelliannau sylweddol yn gyflymach na dysgwyr eraill.
8. **Dysgwyr aeddfed** – roedd pryderon am sut y byddai data asesu canolfannau ar gyfer y dysgwyr hyn yn cael eu safoni yn y model am nad oes ganddynt ddata cyrhaeddiad blaenorol yn aml iawn. Roedd awgrym hefyd y gallai deilliannau dysgwyr aeddfed fod yn uwch na deilliannau cyfartalog mewn blynyddoedd arferol, ac efallai na chaiff hyn ei adlewyrchu yn y canlyniadau eleni.
9. **Dysgwyr sydd wedi colli addysg** o ganlyniad i salwch sy'n golygu efallai na fydd gan ganolfannau ddigon o dystiolaeth i lywio eu dyfarniadau. Roedd rhywfaint o bryder na fydd rhai o'r dysgwyr hyn yn gallu cael gradd eleni.



10. Dysgwyr sy'n rhagori mewn arholiadau neu sy'n tueddu i aeddfedu yn ddiweddarach yn y flwyddyn academiaidd – awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gallai hyn effeithio'n benodol ar fechgyn a theimlwyd ei bod yn bwysig ystyried hyn wrth gyfrifo graddau.
11. Dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl – nodwyd y bydd rhai dysgwyr yn ymdopi â phroblemau iechyd meddwl nad ydynt wedi'u nodi o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Awgrymwyd y gallai eu hiechyd fod wedi effeithio ar eu perfformiad yn y dosbarth hyd yma ac y gallai, felly, effeithio ar ddata asesu'r ganolfan.
12. Merched sy'n astudio pynciau gwyddoniaeth – roedd rhai pryderon y gallai merched gael eu tanwobrwyo yn nata asesu canolfannau mewn pynciau gwyddoniaeth, fel ffiseg.

Er mwyn helpu i liniaru'r effeithiau posibl ar y grwpiau hyn o ddysgwyr, ailadroddodd ymatebwyr awgrymiadau a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. rhoi cymorth i ganolfannau wneud penderfyniadau diragfarn;
2. ei gwneud hi'n ofynnol i ganolfannau gyhoeddi'r dystiolaeth a ystyriwyd ganddynt er mwyn llywio eu dyfarniadau;
3. ei gwneud hi'n ofynnol i ganolfannau weithio gyda staff cymorth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag ADY er mwyn helpu athrawon i ddeall sut y gallai'r dysgwyr hynny fod wedi gwella eu deilliannau yn yr arholiadau terfynol;
4. CBAC i gasglu data cyfredol ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig er mwyn helpu i nodi anfantais;
5. atgoffa canolfannau o'u dyletswyddau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a rhoi canllawiau iddynt ar gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
6. ei gwneud hi'n ofynnol i ganolfannau chwilio am ragfarn yn eu data asesu cyn eu cyflwyno;
7. ei gwneud hi'n ofynnol i ganolfannau drefnu bod athro nad yw'n adnabod y dysgwyr yn gwirio eu dyfarniadau;
8. cymharu graddau asesu canolfannau â deilliannau dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn nodi unrhyw ragfarn bosibl yn gynnar.

Awgrymwyd hefyd y dylai dysgwyr allu apelio os byddant yn amau bod rhagfarn ddjarwybod wedi cyfrannu at eu gradd, neu os byddant o'r farn bod gradd asesu eu canolfan wedi cael ei thanseilio gan rwystrau i gael gafael ar y gwaith a ddefnyddir i lunio dyfarniadau.

Awgrym arall oedd y dylid annog prifysgolion i ystyried derbyn myfyrwyr yn seiliedig ar eu cyd-destun er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr o grwpiau lleiafrifol dan anfantais a'u bod yn gallu gwneud cynnydd fel roeddent wedi bwriadu.

### *Ymgeiswyr preifat*

Ystyriodd yr ail agwedd ar ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr effaith ar ddysgwyr pan na all canolfan ddarparu data asesu ar eu cyfer. Mae llawer o'r effeithiau ar y dysgwyr

hyn eisoes wedi cael eu hystyried yn Nod 1 ac yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ond darparodd ymatebwyr y sylwadau ychwanegol canlynol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

1. Mae'n bwysig ystyried yr effaith ariannol a'r effaith ar lesiant dysgwyr sydd wedi gorfod chwilio am ganolfan ddilysu a sefyll arholiad. Nodwyd nad oedd y gost o ofyn i ganolfan ddilysu gyflwyno data asesu yn fforddiadwy i bob ymgeisydd preifat ac, felly, awgrymwyd y dylai CBAC dalu'r gost. Nodwyd hefyd yr effaith y gallai sefyll arholiad, wythnosau'n unig ar ôl cael gwybod bod arholiadau wedi cael eu canslo, ei chael ar lesiant y dysgwyr hyn.
2. Awgrymwyd na all pob dysgwr aros i sefyll ei arholiadau yr haf nesaf o ganlyniad i bwysau ariannol. Teimlwyd y dylai'r effaith hon gael ei hystyried yn yr asesiad effaith hwn.
3. Ystyriwyd ei bod yn bwysig cadarnhau faint o ymgeiswyr preifat sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn sicrhau nad oes grŵp penodol o ddysgwyr yn wynebu anfantais anghymesur o ganlyniad i'r broses ar gyfer cyfrifo graddau yr haf hwn.


## 4.3 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

### 4.3.1 Trosolwg o'r cwestiynau a nifer yr ymatebion

Gofynnwyd pedwar cwestiwn i'r ymatebwyr am ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

1. Rhoi eu barn ynghylch a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nad oeddem wedi'u nodi yn yr asesiad effaith.

**Ffigur 16**



*Noder: Rhoddodd rhai ymatebwyr fwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Felly, gallai pob gwerth a ddangosir yn y siart greu cyfanswm o fwy na 100%.*


Atebodd 1,799 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hyn, dim ond tua 5% a ddywedodd eu bod wedi nodi effeithiau ychwanegol. Dywedodd yr ymatebwyr eraill nad oeddent wedi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol neu eu bod yn ansicr.

2. Egluro eu hateb i gwestiwn 1, gan roi amlinelliad clir o'r effeithiau ychwanegol a nodwyd ganddynt ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effeithiau hynny.

Cafwyd sylwadau gan 197 o ymatebwyr ar y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, nododd bron i 80% o'r ymatebwyr hyn fod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn gynhwysfawr, ac nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach, eu bod yn ansicr neu nad oeddent yn teimlo bod y cwestiwn yn berthnasol iddynt am nad oeddent yn siarad Cymraeg. Roedd y sylwadau eraill a gafwyd yr un peth â'r rhai a ddarparwyd gan yr ymatebwyr i'r pedwerydd cwestiwn ar yr asesiad effaith hwn, neu'n debyg iawn iddynt. Er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau'n glir, mae'r sylwadau wedi cael eu cyfuno ac fe'u cyflwynir gyda'i gilydd yn adran 4.3.2.

- Rhoi eu barn ynghylch a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg nad oeddem wedi'u nodi yn yr asesiad effaith.

**Ffigur 17**



*Noder: rhoddodd rhai ymatebwyr fwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Felly, gallai pob gwerth a ddangosir yn y siart greu cyfanswm o fwy na 100%.*

atebodd 1,780 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hyn, dywedodd llai nag 5% eu bod wedi nodi effeithiau ychwanegol. Dywedodd yr ymatebwyr eraill nad oeddent wedi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol neu eu bod yn ansicr.

- Egluro eu hateb i Gwestiwn 3, gan roi amlinelliad clir o'r effeithiau ychwanegol a nodwyd ganddynt ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effeithiau hynny.

Cyflwynodd 184 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Dangosodd tua dwy ran o dair o'r sylwadau hyn nad oedd gan yr ymatebydd unrhyw beth arall i'w ychwanegu hyn, ei fod yn ansicr neu nad oedd yn teimlo bod y cwestiwn yn berthnasol iddo am nad oedd yn siarad Cymraeg.

#### **4.3.2 Crynodeb o'r sylwadau ar gwestiynau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Mae'n bwysig nodi y cafodd llawer o'r sylwadau hyn eu gwneud gan nifer cymharol fach o ymatebwyr.

Cwestiynodd rhai o'r ymatebwyr pam bod angen cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn y ddogfen. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cydnabod bod y dull arfaethedig yn trin y ddwy iaith yn gyfartal, fel sy'n ofynnol gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cododd ymatebwyr y pwyntiau canlynol a ddylai gael eu hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, yn eu barn nhw:

- yn gyffredinol, efallai bod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg gohortau llai nag ysgolion cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr hyn yn poeni y gallai defnyddio data hanesyddol canolfannau gael effaith anghymesur ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a allai gael deilliannau mwy amrywiol bob blwyddyn;

2. gall deilliannau papurau arholiad cyfrwng Cymraeg fod yn wahanol i ddeilliannau papurau arholiad cyfrwng Saesneg. Teimlwyd y gallai hyn fod wedi cael effaith ar ganlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol na chaiff ei hystyried o bosibl yn y dull arfaethedig;
3. gall sefyll arholiad cyfrwng Cymraeg roi hwb i hyder rhai dysgwyr sy'n dewis astudio'r iaith ar lefel Safon Uwch ar ôl iddynt gael eu canlyniadau. Roedd pryderon efallai na fydd hyn yn digwydd eleni a allai gael effaith andwyol ar niferoedd;
4. dylid cyhoeddi canllawiau er mwyn cadarnhau a ddylai ysgolion dwyieithog roi eu holl ddysgwyr mewn trefn gyda'i gilydd, neu fel ffrydiau ar wahân. Roedd safbwyntiau gwahanol ar ba system y dylid ei mabwysiadu;
5. gall athrawon sy'n siarad Cymraeg asesu gwaith mewn ffordd wahanol i athrawon di-Gymraeg ac, felly, gallai deilliannau amrywio.

## Sylwadau ychwanegol

Dylid nodi bod rhai o'r ymatebwyr o'r farn na allent ateb pob un neu rai o gwestiynau'r ymgynghoriad, yn rhannol am fod y ddogfen ymgynghori'n hir ac yn rhannol am eu bod yn ansicr beth oedd yn cael ei gynnig. Fel y trafodir yn yr adroddiad hwn, gallai hyn olygu bod rhai ymatebwyr wedi camddeall rhai o'r cwestiynau. Hefyd, efallai mai dyma pam bod rhai ymatebwyr wedi nodi eu bod yn 'ansicr' am bob un o'r cynigion.

Yn ogystal, drwy gydol yr ymgynghoriad, cafwyd sylwadau gan rai o'r ymatebwyr ar benderfyniadau a oedd y tu hwnt i gwmpas y ddogfen. Roedd y pryderon a godwyd gan ymatebwyr fel arfer yn ymwneud â'r canlynol:

1. penderfyniadau ynghylch sut na fydd deilliannau unedau Blwyddyn 10 na Safon UG yn cyfrannu at raddau TGAU na Safon Uwch terfynol y dysgwyr hyn yn haf 2021;
2. effaith dysgu yn y cartref ar allu dysgwyr i gyflawni eu potensial mewn cymwysterau yn y dyfodol;
3. effaith cau ysgolion ar allu athrawon i gyflwyno'r fanyleb lawn i ddysgwyr sydd i fod i gymryd cymwysterau yn ystod haf 2021;
4. effaith peidio â gallu paratoi'n llawn ar gyfer yr arholiadau TGAU eleni a sefyll yr arholiadau hynny ar ddeilliannau Safon UG y flwyddyn nesaf;
5. y penderfyniadau i ganslo asesiadau yr haf hwn a mabwysiadu dull amgen o ddyfarnu cymwysterau;
6. peidio â chynnal diwrnod canlyniadau yn gynharach er mwyn rhoi mwy o amser i ddysgwyr sicrhau eu bod yn symud ymlaen i addysg bellach neu uwch, neu gyflogaeth;
7. y broses ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yr haf hwn.